# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 8 CHWEFROR 2022 am 2:00 y.p. | TUESDAY, 8 FEBRUARY, 2022 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021.

**3** **DIWEDDARIAD AR RECRIWTIO AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**4** **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/23** (Tudalennau 15 - 54)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5** **ARCHWILIO ALLANOL: COMISIYNU LLEOLIADAU MEWN CARTREFI GOFAL I BOBL HYN** (Tudalennau 55 - 78)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**6** **ARCHWILIO ALLANOL: LLYTHYR MEWN PERTHYNAS Â THREFNIADAU GWRTH-DWYLL** (Tudalennau 79 - 86)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.
- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ynglyn â mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru mewn perthynas ag atal twyll.

**7** **ARCHWILIO ALLANOL: ADFYWIO CANOL TREFI YNG NGHYMRU - ARGYMHELLION AC YMATEB** (Tudalennau 87 - 162)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.
- Cyflwyno ymateb y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**8** **ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO CYNGOR SIR YNYS MÔN 2021** (Tudalennau 163 - 170)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**9** **ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CHWARTEROL CSYM RHAGFYR, 2021** (Tudalennau 171 - 182)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**10** **ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2020/21** (Tudalennau 183 - 194)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**11** **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 195 - 206)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**12** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 207 - 212)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**13** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 213 - 214)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**14** **DIWEDDARIAD RHEOLI RISG** (Tudalennau 215 - 238)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**15** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 239 - 240)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**16** **ADRODDIAD DIOGELWCH SEIBER BLYNYDDOL 2020/21** (Tudalennau 241 - 250)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Prif Archwilydd Mewnol (NW)<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion (EW)<br>Rheolwr Busnes a Pherfformiad (Dysgu) (AJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Mrs Margaret Roberts, Peter Rogers (Cadeirydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad (Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Bethan Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo), Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Nonn Hughes (Rheolwr Strategaeth a Busnes y Gwasanaeth) |

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Rogers, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Mr Dilwyn Evans.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol a chadarnhawyd eu bod yn gywir -

- 21 Medi, 2021
- 20 Hydref, 2021
- 15 Tachwedd, 2021

- Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021 –

Cafwyd cadarnhad gan Reolwr Busnes a Pherfformiad y Gwasanaeth Dysgu mewn perthynas â dau ddarn o waith yn gysylltiedig â'r archwiliad caniatâd a'r archwiliad o gofnodion gweithgareddau prosesu (ROPA) bod y cyntaf bellach wedi'i gwblhau a'i anfon at y Swyddog Diogelu Data. Yn achos yr ail mae nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal yn fewnol a chyda'r cwmni allanol i adolygu'r trefniadau presennol; ac mae pob rheolwr yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Diwylliant wedi adolygu'r gwaith hwn a'i drosglwyddo i'r templed

newydd sydd hefyd wedi'i anfon at y Swyddog Diogelu Data. Mae angen cwblhau rhywfaint o waith pellach mewn perthynas â ROPA i sicrhau bod yr holl weithdrefnau a phrosesau ar waith yn cynnwys cytundebau dada a hysbysiadau preifatrwydd.

**Derbyniwyd a nodwyd yr wybodaeth.**

- Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2021 -

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020/21 wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 22 Tachwedd, 2021 ac yna'u llofnodi gan yr Archwilwyr Allanol heb unrhyw newidiadau i'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 15 Tachwedd, 2021. Cwblhawyd y broses gymeradwyo a llofnodi cyn y dyddiad cau statudol ar 30 Tachwedd ac mae'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020/21 ac adroddiad yr Archwilwyr Allanol bellach wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Nodwyd yr wybodaeth at ddibenion diweddaru.**

## 3. ADRODDIAD SICRWYDD BLYNYDDOL LLYWODRAETHU GWYBODAETH YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, yn cynnwys dadansoddiad o'r materion llywodraethu allweddol mewn perthynas ag Ysgolion Môn ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf, 2020 a Tachwedd, 2021, i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Roedd yr adroddiad yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a throsolwg o gydymffurfiad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn â'r gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth am ysgolion, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR); Deddf Diogelu Data 2018 a chodau ymarfer perthnasol.

Bu i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion nodi bod yr adroddiad yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf ym mis Gorffennaf, 2020 o ran darparu polisïau a dogfennau i ysgolion i'w cefnogi i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data yn ogystal â darparu manylion y cynnydd hyd yma yn erbyn y Cynllun Diogelu Data Ysgolion 2021/22.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y Cynllun Cymorth ar gyfer Ysgolion - Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data Ysgolion 2020-21. Cadarnhaodd bod y cyfnod hwn wedi bod yn arbennig o heriol i ysgolion oherwydd y pandemig Covid-19 ac mae wedi bod yn anodd iawn i ysgolion flaenoriaethu unrhyw beth oni bai am redeg yr ysgolion a darparu addysg, tra hefyd yn delio â phrinder staff a heriau eraill y maent yn dal i'w hwynebu ac o'r herwydd mae nifer o'r camau gweithredu'n felyn neu'n oren. Ym mhwynt 2.2.1 yn yr adroddiad rhestrir y polisïau, canllawiau, dogfennau a thempledi a rannwyd ag ysgolion i'w mabwysiadau a'u defnyddio ac ym mhwynt 2.2.2.2 amlinellir yr hyfforddiant diogelu data a ddarparwyd i ysgolion. Darperir yr hyfforddiant bob tro y caiff dogfennau polisi eu rhannu ag ysgolion i sicrhau eu bod yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran y gofynion cydymffurfio. Yn yr adroddiad cyfeirir hefyd at y gwaith mapio data, yn benodol y proseswyr mapio data a mapio'r llif data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor. O ystyried popeth, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion o'r farn bod ysgolion bellach yn deall eu rhwymedigaethau diogelu data a phwysigrwydd diogelu data yn well ac yn awr yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data. Er bod gwaith i'w gyflawni o hyd fel sydd wedi'i adlewyrchu yn y camau nesaf, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gallu darparu sicrwydd rhesymol mewn perthynas â chydymffurfiaeth ysgolion â'r gofynion diogelu data.

DRAFT

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth –

- **Y trefniadau sydd ar waith er mwyn rhoi'r camau nesaf ar waith a monitro cydymffurfiaeth.** Cynghorwyd y pwyllgor bod Cynllun Diogelu Data wedi'i greu ar gyfer 2021/22 (ceir manylion yn adran 3 yn yr adroddiad) ynghyd â chynllun gweithredu ac amserlen; mae'r olaf wedi'i adolygu'n fewnol i ystyried y blaenoriaethau amrywiol eraill sydd gan ysgolion ac mae bellach yn nodi'n glir pryd y mae disgwyl i'r camau gweithredu gael eu cyflawni. Mae'r holl gamau gweithredu sydd yn rhaid i ysgolion eu cyflawni i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r disgwyliadau mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth/diogelu data a gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu. Mae system rheoli fewnol lle mae ysgolion yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu polisïau yn rhan o'r trefniadau ac mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cwrdd yn rheolaidd ag ysgolion i oruchwylio cydymffurfiaeth.
- **Goblygiadau a difrifoldeb y digwyddiad seiber mewn ysgolion uwchradd ym mis Mehefin, 2021 a'r camau adferol a gymerwyd i ddiogelu'r data.** Cynghorwyd y Pwyllgor bod tîm o ymgynghorwyr seiberdechnoleg arbenigol wedi'u comisiynu gan y Cyngor ar unwaith i ymchwilio i'r digwyddiad ynghyd â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn ogystal â helpu i ddatrys pethau. Yn ystod y dadansoddiad fforensig o'r digwyddiad seiber ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth o ymgais i ymosod ar neu fygwth systemau TGCh. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ynglŷn â'r digwyddiad fel achos posib o dorri diogelwch data ac mae ymchwiliad ar y gweill a all gymryd rhai misoedd i'w gwblhau. *Ar gais y Pwyllgor cytunwyd i'w hysbysu ynglŷn â chanfyddiadau ymchwiliadau'r ICO yn cynnwys unrhyw argymhellion mewn perthynas â gwersi i'w dysgu yn dilyn y digwyddiad.*
- **Y berthynas a lefel y ddealltwriaeth rhwng Hwb (y platfform dysgu ac addysgu digidol yng Nghymru) a'r corff sy'n gyfrifol amdano, a Gwasanaeth TG y Cyngor.** Cynghorwyd y Pwyllgor bod y rhaglen Hwb yn rhaglen genedlaethol ledled Cymru; mae'r amgylchiadau dros y flwyddyn ddiwethaf a'r symud cyflym tuag at ddysgu digidol wedi gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r platfform Hwb yn gyffredinol a'i botensial o ran cael mynediad at wasanaethau ac adnoddau digidol ac y mae hefyd wedi arwain at berthynas adeiladol a phroffesiynol rhwng swyddogion Hwb (Llywodraeth Cymru) a swyddogion y Gwasanaeth TGCh a'r Gwasanaeth Dysgu. Rhagwelir y bydd y berthynas a'r ddealltwriaeth yn parhau i esblygu.
- **Pa un ai a oes modd pennu dyddiad posib ar gyfer cwblhau'r gwaith llywodraethu gwybodaeth gydag ysgolion gan gydnabod bod cynllun gweithredu a dyddiadau targed yn bodoli nad oes a wnelo'r Pwyllgor ag o.** Cynghorwyd y Pwyllgor er y bydd mwyafrif y polisïau a thempledi y mae'n rhaid i'r ysgolion eu rhoi ar waith ar gael iddynt cyn diwedd y flwyddyn ysgol, mae'n bosib y bydd rhywfaint o waith gweithredu'n gorlifo i'r flwyddyn ganlynol gan ddibynnu ar y sefyllfa o ran capasiti'r ysgolion. *Gofynnodd y Pwyllgor ar i ddyddiadau targed gael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol 2021/22 fel y gellir asesu perfformiad a chyrhaeddiad yn well.*

**Penderfynwyd–**

- **Derbyn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar Lywodraethu Gwybodaeth Ysgolion ar gyfer 2020/21.**
- **Cymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi i ysgolion gydymffurfio'n llawn â'r gofynion diogelu data.**

## 4. STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2021-24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn

DRAFT

nodi'r gweithgareddau y bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn eu cynnal i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

Bu i'r Pennaeth Archwilio a Risg grynhoi cynnwys ac amcanion y strategaeth gan amlygu bod y ddogfen "*Fighting Fraud and Corruption Locally Strategy for the 2020s*" (FFCL), a gefnogir gan CIPFA, wedi'i defnyddio fel sylfaen i'r ffocws strategol yn absenoldeb strategaeth benodol ar gyfer Cymru; dyma'r strategaeth atal twyll a llygredd gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr ac mae'n darparu glasbrint ar gyfer ymateb yn fwy cadarn a diweddar i dwyll a llygredd yn erbyn awdurdodau lleol na'r Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (Cod CIPFA) a ystyriwyd yn ogystal. Yn yr un modd â Chod CIPFA, mae'r strategaeth FFCL yn canolbwyntio ar bum piler o weithgaredd, neu amcanion strategol, ac yn ein cynorthwyo i nodi ym mhle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion atal twyll. Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at y Fenter Twyll Genedlaethol yn ogystal, sef ymarfer paru data a gynhelir pob dwy flynedd sydd yn gyrru mwyafrif y gwaith atal twyll a chadarnhaodd na chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll mewn perthynas â systemau'r Cyngor hyn yma wrth ymchwilio i garfan gyntaf y canlyniadau paru ar gyfer 2020/21 a gafodd eu rhyddhau ym mis Ionawr 2021.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth -

- **Cydnabod yr angen i gryfhau dull y Cyngor o gaffael fel un o'r meysydd risg cydnabyddedig uchaf yn 2019/20 gan nad oes system neu ddull cyson ar hyn o bryd; holwyd ynglŷn â'r angen i gael polisi a/neu strategaeth gaffael er mwyn safoni'r broses.** Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai'r elfen monitro contractau o drefniadau caffael y Cyngor sydd heb ei chanoli a bod archwiliad ar y gweill i asesu pa mor gadarn yw dulliau rheoli a mesur y cyngor o ran canfod a/neu atal twyll a llygredd yn y maes hwn.
- **Pa un ai a oedd y refeniw a gynhyrchwyd yn dilyn yr adolygiad diwethaf o'r hawliadau Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor o ganlyniad i ganfod hawliadau twyllodrus a pha un ai a oedd achosion o'r fath ac achosion yn ymwneud â chonsesiynau parcio i'r anabl a thwyll grantiau wedi arwain at unrhyw erlyniadau.** Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd unrhyw erlyniadau wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac eglurodd bod yr adolygiad o hawliadau Gostyngiad Person Sengl yn fenter a ddarperir gan y gwasanaeth dilysu data, *Datatank*; yn ystod yr adolygiad diwethaf cafodd 11,200 o gyfrifon eu sgrinio, cafodd 2,245 o gyfrifon eu targedu a daethpwyd o hyd i 484 o gamgymeriadau, ac roedd y gyfradd camgymeriadau yn 4.3%.
- **Pa un ai a fu cynnydd mewn twyll grantiau wrth weinyddu cynlluniau grantiau cymorth Covid-19 Llywodraeth Cymru a pha un ai oes unrhyw wersi wedi'i dysgu o'r profiad hyd yma.** Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg oherwydd yr angen i roi'r pecynnau ysgogi eang ar waith yn gyflym i unigolion a busnesau, bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i roi dulliau rheoli ar waith ymlaen llaw i osgoi gwrthdaro lle bo modd gan ganolbwyntio ar sicrhau taliadau cyflym. Fodd bynnag, cynhaliodd tîm grantiau'r Gwasanaeth Cyllid, sy'n cynnwys aelod staff o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd ar secondiad, wiriadau rhagdalu yn achos pob un o'r grantiau a ddosbarthwyd, ac er mad yw canlyniadau paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi canfod unrhyw achos o dwyll hyd yma rhaid cwblhau gwaith pellach cyn dod i unrhyw gasgliadau terfynol. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 oherwydd bod y Cyngor yn awdurdod dros ardal ddaearyddol llai lle mae nifer o fusnesau yn adnabyddys ei fod mewn sefyllfa well i gadarnhau a oedd ceisiadau am gymorth grant gan fusnesau yn ddilys ai peidio. Roedd mwyafrif y gwaith wrth ddosbarthu grantiau am y tro cyntaf yn golygu cadarnhau pa un ai a oedd busnesau'n gweithredu o safleoedd a oedd yn gymwys i ardrethi busnes, gan fod llawer o fusnesau bach yn gymwys i ryddhad

ardrethi neu wedi'u heithrio'n gyfan gwbl, ac yna diweddaru cofnodion ardrethi'r Cyngor yn unol â hynny. Ar ôl cadarnhau'r manylion a chymhwystra roedd yn haws dosbarthu'r grantiau yn ystod y carfannau dosbarthu grantiau dilynol ac felly roedd yn ffyddiog bod 99% o'r taliadau yn gywir.

- **Nid oes llawer o gyfeiriad at lwgrwobrwyo yn y Strategaeth; gan gydnabod bod achosion o lwgrwobrwyo'n anoddach i'w canfod, holwyd a oes unrhyw arwydd o lwgrwobrwyo a/neu lygredd yng ngweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor. Yn yr un modd, nid yw'r strategaeth yn cyfeirio at erlyn y rheiny sy'n cyflawni twyll dim ond at ddarparu'r cymorth ac adnoddau priodol i fynd i'r afael â thwyll. Awgrymwyd y byddai datgan ymrwymiad i erlyn twyllwyr yn fesur ataliol effeithiol.** Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg y dylai'r archwiliad o'r trefniadau caffael ganfod unrhyw wendidau mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd; mewn perthynas â bygwth erlyn fel ffordd o atal twyll mae'r strategaeth yn seiliedig ar bum piler yr FFCL ac mae un ohonynt, 'Canlyn', yn datgan y bydd y Cyngor bob amser yn ceisio'r sancsiwn cryfaf posib yn erbyn unrhyw unigolyn sy'n twyllo neu geisio twyllo'r Cyngor. Bu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 amlygu paragraff 4.8.5.3.6. yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor lle nodir y dylid hysbysu'r heddlu neu'r awdurdod erlyn priodol ynglŷn ag unrhyw achos o dorri'r gyfraith.

**Penderfynwyd nodi strategaeth yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer gwrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo a llygredd ar gyfer 2021-24.**

## 5. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a oedd yn cynnwys adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r sefyllfa bresennol, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cynghorwyd y Pwyllgor bod pethau wedi symud ymlaen mewn perthynas â'r diweddariad ar y sefyllfa economaidd a geir yn yr adroddiad. Gan fod chwyddiant yn parhau i gynyddu mae pwysau i gynyddu Cyfradd y Banc. Yn nhabl 3.1 yn yr adroddiad ceir rhagolwg o'r gyfradd llog ac yn Atodiad 2 ceir esboniad o'r sefyllfa mewn perthynas â'r gyfradd llog yn cynnwys y risgiau sylweddol i'r hyn sydd wedi'i ddarogan yn cynnwys y pandemig, materion yn ymwneud â Brexit a ffactorau eraill. Nid yw strategaeth y Cyngor ar fuddsoddiadau wedi newid ac mae'n seiliedig ar barhau i roi blaenoriaeth i ddiogelwch cyfalaf a hylifedd yn hytrach nag enillion. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi â Chyngor Sir y Fflint yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac wedi agor cyfrifon gyda dau fanc newydd cymeradwy sydd yn cynnig enillion uwch. Mae gan y Cyngor, fel nifer o awdurdodau lleol eraill, falans arian parod uchel sy'n cael ei gadw ar sail tymor byr yn bennaf. Cyn ymrwymo i fuddsoddiad mwy hirdymor rhaid ystyried y cynnydd posib yn y gyfradd llog.

Ni chymerwyd benthyg unrhyw arian ychwanegol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, a ni ragwelir y bydd angen cymryd unrhyw fenthyciadau allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthyca i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2021/22, ond gwneir hynny trwy fenthyca mewnol drwy ddefnyddio balansau arian parod. Bydd hyn yn gohirio costau cyllido cyfalaf tra bod balansau arian parod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y benthyca mewnol hwn.

Gellir cadarnhau bod y Cyngor, yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021, wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodwyd yn Natganiad

DRAFT

y Cyngor ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 ac na ragwelir unrhyw anawsterau o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn yn ystod gweddill y flwyddyn.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth –

- **Yr angen i gyflymu gwariant mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf yn sylweddol yn ystod ail hanner y flwyddyn os ydym am gyflawni'r rhaglen gyfalaf a gwireddu'r proffil gwariant.** Cynghorwyd y Pwyllgor y gall nifer o ffactorau effeithio ar gyflawni'r rhaglen gyfalaf yn ystod unrhyw flwyddyn ac mae'r pandemig Covid-19 a diffyg llafur a deunyddiau wedi effeithio ar nifer o'r cynlluniau eleni. Mae'r oedi a gafwyd wrth ddod i benderfyniad ynglŷn ag ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Llangefni hefyd wedi effeithio ar gynnydd y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac mae hyn wedi arwain at danwariant sylweddol. Efallai bod y Cyngor yn rhy optimistaidd ynglŷn â chyflawni'r rhaglen gyfalaf. Ar gais y Panel Sgriwtini Cyllid ac er mwyn cynllunio a chyflawni'r rhaglen gyfalaf yn well, bwriedir cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf yn gynt ym mis Ionawr fel y gellir cadarnhau cytundebau'n gynt a chychwyn ar gynlluniau yn ystod misoedd yr haf er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o lithriad oherwydd tywydd gwael. Mewn perthynas â meincnodi cyflawniad y rhaglen gyfalaf ag awdurdodau eraill, er y byddai'n anodd iawn cynnig cymhariaeth ystyrlon oherwydd gwahaniaethau o ran maint a chapasiti fe all y Gwasanaeth geisio cymharu'i hun ag awdurdodau o'r un maint. Mewn perthynas â chael cynlluniau'n barod i'w dwyn ymlaen yn gyflym er mwyn manteisio i'r eithaf ar wariant byddai'n rhaid i'r rhaglen gyfalaf a'r gyllideb gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith; byddai'n rhaid cael caniatâd y Pwyllgor Gwaith cyn cynnwys cynlluniau ychwanegol neu ddiwygio cynlluniau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad adolygiad canol blwyddyn Rheoli Trysorlys 2021/22 heb unrhyw sylwadau pellach.**

**6. ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cynghorodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad, bod copi o Grynodeb Archwilio Blynyddol 2020 wedi'i anfon i'w gyhoeddi mewn camgymeriad ac ymddiheurodd am hyn. Gan fod un awdurdod heb gwblhau'r broses cwblhau cyfrifon o hyd ni all Archwilio Cymru ddarparu gwybodaeth gymharol lawn ac felly nid yw Crynodeb Archwilio 2021 ar gael ar hyn o bryd. Mae'r cyfrifon wedi'u derbyn erbyn hyn a gwneir pob ymdrech i gyhoeddi'r Crynodeb Archwilio ar gyfer 2021 cyn gynted â phosibl.

**7. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU: DIWEDDARIAD CHWARTEROL CSYM MEDI, 2021**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol, a oedd yn cynnwys Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru fel ac yr oedd ar 30 Medi 2021, er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd y rhaglen yn amlinellu'r amserlen cyhoeddiadau a statws y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad cyfredol ynghyd â'r astudiaethau Llywodraeth Leol ac adroddiadau cenedlaethol gan Archwilio Cymru sydd yn yr arfaeth ac ar y gweill. Cyfeiriwyd at y gwaith rheoleiddio arall a gyflawnir gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a'r rhaglen a gyflwynwyd.**

**8. ARCHWILIO ALLANOL: CYLLID MYFYRWYR (ER GWYBODAETH)**

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol mewn perthynas â Chyllid Myfyrwyr i'r Pwyllgor er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn egluro sut y mae'r system cyllid myfyrwyr yn gweithio

i fyfyrwyr yng Nghymru ac roedd yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r system. Roedd yr adroddiad yn cynnig tri argymhelliad ar gyfer gwella mewn perthynas â monitro, datblygu cynaliadwy a chynllunio ar gyfer olyniaeth a gwydnwch.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth –

- **O gofio bod Llywodraeth Cymru'n talu dros £20m y flwyddyn i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) i weinyddu cyllid myfyrwyr ac o ystyried mai cymysg yw'r gwerthusiad o berfformiad y SLC, a yw Archwilio Cymru o'r farn y dylid allanoli'r gwaith neu ei ddarparu gan gwmni arall?** Cynghorodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru mai un o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad yw y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gwerth gorau am arian a geir drwy'r trefniadau hyn yn gyfnodol ac ystyried pa un ai a yw'r dull gweinyddu'n gynaliadwy yn y tymor hir ac yn un y mae'n dymuno parhau ag o.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**9. COD LLYWODRAETHU LLEOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys Cod Llywodraethu Lleol drafft y Cyngor, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r Cod yn nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer arddangos Llywodraethu da, ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion craidd ac ategol sydd yn y '*Framework for Delivering Good Governance in Local Government*' (CIPFA / Solace, 2016).

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad at y saith egwyddor llywodraethu da a gytunwyd gan CIPFA a Solace y mae'r Cod yn seiliedig arnynt. Mae'r Cod wedi'i danategu gan yr egwyddorion hyn ac yn cynnwys y fframwaith polisïau a gweithdrefnau, diwylliant a gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ganddynt ac sydd yn rhoi sicrwydd a thystiolaeth bod ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny. Disgwylir i'r Cod gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn ei adolygu a rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn parhau i fod yn gadarn ac addas i'r diben ac wedi'u gweithredu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ym mhob agwedd o fusnes y Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Lleol drafft.**
- **Bod Aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, yn cynnig mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol Drafft cyn iddo gael ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth 2022**.

**10. ADOLYGIADAU CENEDLAETHOL A'U HARGYMHELLION CYSYLLTIEDIG**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio rhoi sicrwydd bod yr argymhellion cenedlaethol sydd ynghlwm â'r adroddiadau cenedlaethol wedi cael sylw dilys gan wasanaethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad er mwyn arddangos llywodraethu da, ac mewn ymateb i lythyr y Cyfarwyddwr Archwilio o Archwilio Cymru a yrrwyd at Gadeirydd y Pwyllgor hwn ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar y



DRAFT

21ain o fis Medi eleni, bod yr adroddiad atodol yn dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn y gwahanol feysydd gwaith cysylltiedig.

Mae'r adroddiad yn cydnabod 15 o adroddiadau cenedlaethol a'u hargymhellion cysylltiedig a fydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol i sylw'r Pwyllgor hwn. Mae'r argymhellion hynny'n effeithio ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor Sir sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad. Rhagwelir y bwriad os yw'r Pwyllgor yn gytûn bod y diweddariad cyfredol blynyddol yn dod i'r Pwyllgor unwaith y flwyddyn yn ystod ei gyfarfodydd yn chwarter 3 o'r flwyddyn ariannol dan sylw.

Codwyd y pwyntiau trafod canlynol gan y Pwyllgor –

- **Mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 ac o ystyried na chanfuwyd unrhyw dwyll yn ystod yr ymarfer diwethaf, a yw hyn yn wir o hyd?** Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg er nad yw'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma ar gyfran gyntaf canlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2020/21, a gafodd eu rhyddhau ym mis Ionawr 2021, wedi canfod unrhyw dwyll fel y cadarnhawyd yn flaenorol, amlygwyd rhywfaint o wendid yn y broses mewn perthynas â chaffael a dyma pam bod adolygiad o ba mor agored i dwyll caffael ydi'r Cyngor yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Byddwn yn adrodd ar hyn yn gynnar yn 2022. Bydd diweddariad llawn o ganfyddiadau ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Twyll Blynyddol 2021/22.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y diweddariad fel cofnod o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig.**
- **Cytuno y bydd diweddariadau o'r math hwn yn cael eu rhaglennu'n flynyddol i sylw'r Pwyllgor hwn yn ystod Chwarter Tri o'r flwyddyn ariannol.**

**11. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 1 Rhagfyr 2021. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ym mis Medi 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig.

Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio a Risg bedwar adroddiad a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, a bod dau ohonynt - Buddsoddi mewn Asedau a Llety Sipsiwn a Theithwyr - wedi derbyn Sicrwydd Rhesymol ac nad oedd unrhyw faterion i'w codi. Derbyniodd yr Adolygiad ar Adennill Mân-ddyledion y Cyngor ac Effaith Covid-19 sicrwydd cyfyngedig a chodwyd wyth mater/risg sydd angen sylw rheoli lefel uchel i ganolig. Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny wedi'i gytuno gyda'r rheolwyr a disgwylir iddynt fod wedi'u datrys erbyn 20 Mehefin, 2022. Hefyd, Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wedi comisiynu ymgynghorydd i fynd i'r afael â'r materion a risgiau a godwyd yn y Cynllun Gweithredu ac mae prosiect â cherrig milltir wedi'i ddatblygu a'i gytuno â'r ymgynghorydd. Mae'r pedwerydd adroddiad a gwblhawyd yn ymwneud ag ymchwiliad yn gysylltiedig â gweithgareddau caffael o fewn y Gwasanaethau Eiddo a cheir y manylion ym

mharagraff 12 i 15 yn yr adroddiad. Mae’r tri archwiliad a nodir yn y tabl ym mharagraff 16 ar y gweill ac mae’r gwaith o ymchwilio i’r canlyniadau paru a nodir ym mharagraff 18 yn yr adroddiad mewn perthynas â’r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd ar y gweill. Ar 1 Rhagfyr, 2021 roedd 14 o gamau heb eu cwblhau (6 sylweddol a 6 cymedrol) yn ymwneud â materion/risgiau a godwyd yn ystod y chwe archwiliad a restrir ym mharagraff 22 yn yr adroddiad. Mae’r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda’r gwasanaethau i’w cefnogi i weithredu’r camau hyn. Mae blaenoriaethau tymor byr i ganolig y gwasanaeth Archwilio Mewnol ynghyd â’i flaenoriaethau mwy hir dymor wedi’u rhestr ym mharagraffau 25 i 28 yn yr adroddiad.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth -

- **Ceisiwyd eglurder ynglŷn â’r materion technegol a nodwyd sydd wedi effeithio ar fonitro perfformiad y gwasanaeth a graddfeydd casglu mewn perthynas ag adennill mân-ddyledion.** Cynghorwyd y Pwyllgor bod diffyg aliniad rhwng systemau a phrosesau cofnodi wedi ei gwneud hi’n anoddach monitro perfformiad. Hefyd, nid yw’r adnoddau sydd ei angen o ran amser a phersonél i ddatblygu systemau prosesau busnes i gwrdd ag anghenion y busnes ar gael oherwydd bod staff wedi ymrwymo’n llawn i gynnal busnes ar sail dydd i ddydd. O ganlyniad byddwn yn ymgysylltu ag ymgynghorwr a fydd yna adolygu’r systemau a gweithio gyda staff i roi unrhyw newidiadau a argymhellir ar waith. *Ar gais y Pwyllgor cytunwyd i’w ddiweddaru ar gynnydd y prosiect yn ei gyfarfod y mis Ebrill, 2022.*

**Penderfynwyd nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

## 12. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol, i’w ystyried gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod wedi adolygu’r Siarter Archwilio Mewnol i sicrhau ei bod yn dal i fod yn briodol ac ni chanfuwyd unrhyw newidiadau sylweddol.

**Penderfynwyd nodi’r adolygiad a chymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol.**

## 13. BLAEN RAGLEN WAITH WEDI’I DIWEDDARU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i’r Pwyllgor a gofynnwyd iddo ystyried a chymeradwyo’r Blaen Raglen Waith ddiwygiedig. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y Blaen Raglen Waith wedi’i diwygio eto i ystyried ceisiadau gan reolwyr oherwydd llwyth gwaith neu ffactorau eraill, a chynnwys y cyfarfod arbennig ychwanegol yn y calendr i ystyried y Datganiad o Gyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol.

**Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Blaen Raglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**



DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:**<br>**Report to:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:**<br>**Date:** | 08 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:**<br>**Subject:** | Diweddariad ar recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:**<br>**Head of Service:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd / Nature and Reason for Reporting:**<br><br>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r aelodau lleyg ychwanegol y mae eu hangen. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor, fel ar 25 Ionawr 2022, ar gynnydd o ran recriwtio aelodau lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddiweddariad i'r Cyngor ar 9 Mawrth 2021, y gellir ei weld yn http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16895/Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20Cymru%202021.pdf?LLL=1

1.3 Mae'r Ddeddf yn diwygio'r gyfundrefn berfformiad a llywodraethu, gan gynnwys newidiadau i gyfansoddiad aelodaeth y pwyllgor a'r gweithgareddau (adrannau 116-118). Mae'r Ddeddf yn nodi:

- bod rhaid i draean o aelodau'r Pwyllgor fod yn lleygwyr a dau draean yn aelodau o'r Cyngor

- bod rhaid i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor yn Gadeirydd (a rhaid i'r sawl a benodir fod yn lleygwr); a

- bod rhaid i'r Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor yn Ddirprwy Gadeirydd (ac ni chaiff fod yn aelod o bwyllgor gwaith yr awdurdod lleol neu'n gynorthwyydd i'r pwyllgor gwaith).

1.4 Mae 'lleygwr' yn cael ei ddiffinio gan adran 117 y Ddeddf fel person:

- nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,
- nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac
- nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol.

1.5 Ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, mae hyn yn golygu y bydd rhaid cael pedwar aelod lleyg. Mae Mr Dilwyn Evans, sydd yn aelod lleyg ar hyn o bryd, wedi datgan ei fod yn fodlon gwasanaethu am ail dymor, felly bydd angen tri aelod lleyg ychwanegol.

## 2. CYNNYDD

2.1 Cymerodd y Cyngor ran yng Ngrŵp Tasg a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ddatblygu ffurflen gais a hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau lleyg, yn ogystal â rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Fe weithiom gyda'n Tîm TG i ddatblygu ffurflen gais ar-lein yn benodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

2.2 Hysbysebwyd y swyddi gwag yn eang, gan gynnwys ar gyfryngau yr oedd pobl ieuengach yn debygol o'u defnyddio, megis Facebook a LinkedIn, yn unol â dyletswydd y Cyngor i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

2.3 Cyhoeddwyd yr hysbyseb ar wefan CLlLC ar 10 Hydref 2021, ac roedd yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at dudalen we neilltuol y Cyngor. Rhoddodd CLlLC hysbyseb ar *Guardian Jobs* hefyd a'i chylchredeg ymysg rhwydweithiau proffesiynol (h.y. Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Cymru Gyfan, rhwydwaith cyfarwyddwyr anweithredol, alumni Arweinyddiaeth Comisiynydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyn-gyfranogwyr rhaglen fentora Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru / Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, yn ogystal â hyrwyddo ar *Wales Online*.

2.4 Derbyniodd y Cyngor 13 ffurflen gais. O gymharu â gweddill Cymru, roedd hyn yn ymateb da iawn. Cynhaliodd y panel rhestr fer, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, ymarfer llunio rhestr fer ar 19 Ionawr 2022. Dewisodd y panel bedwar ymgeisydd i'w cyfweld. Diystyrwyd chwe chais gan y Panel oherwydd eu bod yn anghyflawn ac nid oedd gan dri o'r ymgeiswyr gysylltiad lleol. Roedd hyn yn gadael pedwar y gellid eu cyfweld.

2.5 Bydd panel cyfweld yn cyfweld ymgeiswyr ym mis Chwefror 2022. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

2.6 Yn unol â pharagraff 3.4.8.2.2 y Cyfansoddiad, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn argymell penodi'r aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 19 Ebrill 2022.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran recriwtio'r tri aelod lleyg ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 ymlaen.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **8 CHWEFROR 2021** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON, UWCH GYFRIFYDD** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>Ar gyfer sgriwtini – yn gyson â chyngor proffesiynol. | |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymell y dylai'r aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys blynyddol a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei ARhT a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Chwefror 2020.

**3.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, does dim newidiadau yn cael eu cynnig i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2021/22.

**4.** O dan y Côd Ymarfer, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf, ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyca a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd, a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. O dan y Côd diwygiedig a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2021, bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru ar y modd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd rhaid i unrhyw newidiadau gael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn yr adroddiad Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24.

**5. Argymhellion**

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2022/23**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Cyhoeddodd CIPFA ei godau diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021 ac mae wedi datgan nad oes rhaid eu mabwysiadu'n ffurfiol nes blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y codau hyn wrth baratoi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol yn ystod y flwyddyn sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**1.2.** Bydd gan y codau diwygiedig nifer o oblygiadau a bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru ar y modd y bydd yr holl newidiadau hyn yn effeithio ar ein dull presennol a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn adroddiad DSRhT 2023/24.

**1.3.** Hefyd, rhaid priodoli pob buddsoddiad ac incwm buddsoddi i un o'r tri diben canlynol - Rheoli Trysorlys, Cyflenwi Gwasanaeth ac enillion Masnachol. Gan fod y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yma'n delio â buddsoddiadau rheoli trysorlys, ymdrinnir â'r categorïau cyflenwi gwasanaeth a buddsoddiadau masnachol fel rhan o'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf.

## 2. CEFNDIR

**2.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.*"

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

**2.2.** Rhaid i'r Cyngor redeg cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon neu offerynnau risg isel sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.

**2.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.

**2.4.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 3. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**3.1.** Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig â'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob Aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf dilynol, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg a strategaeth y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau. Yn y bôn mae'n delio â dau faes: materion cyfalaf a mateiron rheoli trysorlys. Mae'r elfennau hyn yn ateb gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Buddsoddi a Chanllawiau DRI Llywodraeth Cymru, Côd Darbodus CIPFA a Chôd CIPFA ar Rheoli Trysorlys.

**3.2.** Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

## 4. CYD-DESTUN ALLANOL

**4.1.** Ni fedrir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrthbartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Mae'n anodd rhagweld beth fydd y cynnydd yng Nghyfradd y Banc ar ôl mis Mai gan fod chwyddiant yn debygol o ostwng yn gyflym yn ystod ail hanner 2022 ac, felly, mae risgiau sylweddol i'r rhagolygon sydd i'w gweld yn **Atodiad 4.**
- Roedd twf ariannol y byd mewn dirwasgiad yn 2020 ond fe wnaeth y sefyllfa wella yn ystod 2021, a cholli momentwm yn ystod ail hanner y flwyddyn ond, er hynny, disgwylir twf cyffredinol o tua 6% ar gyfer y flwyddyn a thwf o tua 4-5% yn 2022.
- Disgwylir i enillion ar fuddsoddiadau wella yn 2022/23. Fodd bynnag, er bod marchnadoedd yn rhagweld cyfres o godiadau yng Nghyfradd y Banc, mae'n bosib y bydd yr amgylchiadau economaidd gwirioneddol yn golygu bod yr MPC yn is na'r cynnydd a ragwelir.

**4.2.** Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**
**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2025**

| Cyfartaledd Blynyddol | Cyfradd Banc (%) | Cyfraddau Benthyca BBGC (gan gynnwys addasiad cyfradd sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 mlynedd | 50 lynedd |
| Mawrth 2022 | 0.25 | 1.50 | 1.90 | 1.70 |
| Mehefin 2022 | 0.50 | 1.50 | 2.00 | 1.80 |
| Medi 2022 | 0.50 | 1.60 | 2.10 | 1.90 |
| Rhagfyr 2022 | 0.50 | 1.60 | 2.10 | 1.90 |
| Mawrth 2023 | 0.75 | 1.70 | 2.20 | 2.00 |
| Mehefin 2023 | 0.75 | 1.80 | 2.20 | 2.00 |
| Medi 2023 | 0.75 | 1.80 | 2.20 | 2.00 |
| Rhagfyr 2023 | 0.75 | 1.80 | 2.30 | 2.10 |
| Mawrth 2024 | 1.00 | 1.90 | 2.30 | 2.10 |
| Mehefin 2024 | 1.00 | 1.90 | 2.40 | 2.20 |
| Medi 2024 | 1.00 | 1.90 | 2.40 | 2.20 |
| Rhagfyr 2024 | 1.00 | 2.00 | 2.50 | 2.30 |
| Mawrth 2025 | 1.25 | 2.00 | 2.50 | 2.30 |

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Group, Treasury Solutions ynghlwm yn **Atodiad 4**.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pandemig y coronafeirws wedi achosi difrod enfawr i economi'r DU ac i economiau ledled y byd. Wedi i Fanc Lloegr gymryd camau brys ym mis Mawrth 2020 drwy dorri'r Gyfradd Banc i 0.10%, penderfynodd adael y Gyfradd Banc fel ac yr oedd yn ei gyfarfodydd dilynol hyd nes ei chodi i 0.25% yn ei gyfarfod ar 16eg Rhagfyr 2021.

Fel y gwelir yn y tabl rhagolygon uchod, mae'r rhagolygon yn nodi y bydd cyfraddau llog nawr yn cynnwys pedwar cynnydd, un yn Rhagfyr 2021 i 0.25%, yna i 0.50% yn ail chwarter 2022, i 0.75% yn chwarter cyntaf 2023, i 1.00% yn chwarter cyntaf 2024 ac, yn olaf, i 1.25% yn chwarter cyntaf 2025.

Gostyngodd cyfraddau llog ar fenthyciadau i gyfraddau hanesyddol isel iawn o ganlyniad i'r argyfwng Covid ac yn sgil gweithrediadau lleddfu meintiol gan Fanc Lloegr, ac maent yn dal i fod ar lefelau hanesyddol o isel. Er y cyfraddau isel yma, mae ein polisi i osgoi benthyca newydd drwy leihau balansau arian dros ben wedi gweithio'n dda i'r Awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf.

**4.3.** Mae'r rhagolygon presennol, sydd i'w gweld uchod, yn cynnwys y rhagolygon ar gyfer y cynnydd cyntaf yn y Gyfradd Banc ym mis Mai 2022, er gall hyn ddigwydd ym mis Chwefror. O ystyried y rhagolygon ar gyfer y gyfradd banc sylfaenol, mae'r cyfraddau elw tybiedig ar fuddsoddiadau am gyfnodau hyd at oddeutu dri mis yn ystod pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (mae'r rhagolwg tymor hir ar gyfer cyfnodau dros 10 mlynedd yn y dyfodol):-

2022/23: 0.50%;
2023/24: 0.75%;
2024/25: 1.00%;
2025/26: 1.25%;
Blynyddoedd y tymor hir: 2.00%.

## 5. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

### 5.1. Benthyca

**5.1.1.** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

| **BENTHYCIADAU BBGC** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **BBGC / BBGC – Aeddfedu** | **BBGC EIP/ Blwydd- dal** | **Benthyciadau Marchnad** | **BBGC Amrywiol** | **Cyfanswm Aeddfedu** |
| Benthyciad sy'n weddill | £121,684k | £193k | £0k | £0k | £121,877k |
| Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd) | 30.42 | 4.63 | 0.00 | 0.00 | 30.38 |
| Cyfradd ar gyfartaledd (%) | 4.58 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.58 |

| **BENTHYCIADAU ERAILL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Salix Benthyciad 1** | **Salix Benthyciad 2** | **Salix Benthyciad 3** | **Salix Benthyciad 4** | **Salix Benthyciad 5** | **Cyfanswm** |
| Balans sy'n Weddill | £41k | £182k | £445k | £198k | £2,205k | £3,071k |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | |
| Cyfradd Llog (%) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

### 5.2 Buddsoddiadau

**5.2.1.** Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr, cyfrifon 'ar alw' a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2021 oedd £44.7m).

**5.2.2.** Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau, yn y lle cyntaf, ddiogelwch yr adneuon, eu hylifedd yn yr ail le ac yna'r enillion ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd yr enillion ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae'r elw cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.02% (fel ar 31 Rhagfyr 2021).

## 6. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

**6.1.** Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i'w gweld yn Nhabl 3 isod**:-**

**Tabl 3**
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2022/23 – 2024/25**

| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant nad yw'n ymwneud â'r CRT | 17,177 | 9,408 | 8,277 |
| CRT | 18,784 | 22,009 | 18,550 |
| Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol | 0 | 0 | 0 |
| CYFANSWM Y GWARIANT | 35,961 | 31,417 | 26,827 |
| Cyllidir drwy | | | |
| Grantiau Cyfalaf | 7,662 | 7,040 | 5,653 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 600 | 100 | 100 |
| Arian Wrth Gefn | 2,876 | 0 | 0 |
| Refeniw | 10,099 | 9,849 | 10,290 |
| Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau | 14,724 | 14,428 | 10,784 |

**6.2.** Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

**6.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.

**6.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2022/23 yn **Atodiad 6**. Cafodd DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018, ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2022/23. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.

**6.5.** Bydd y polisi'n darparu ar gyfer tâl cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac, yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y tâl DRI yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei chyllido o'r benthyciad, e.e. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DRI blynyddol ar y benthyciad hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth gymryd benthyciadau newydd, bydd y tâl DRI yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DRI hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod ar gyfer ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2021, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £289k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

**6.6.** Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2021/22 i 2024/25**

| | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)** | | | | |
| **Balans Agoriadol y GCC** | **136,560** | **140,949** | **151,515** | **161,470** |
| Gwariant Cyfalaf | 39,068 | 35,961 | 31,417 | 26,827 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (18,416) | (7,662) | (7,040) | (5,653) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (521) | (600) | (100) | (100) |
| Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn | (12,206) | (12,975) | (9,849) | (10,290) |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,536) | (4,158) | (4,473) | (4,696) |
| **BALANS CAU'R GCC** | **140,949** | **151,515** | **161,470** | **167,558** |

| Benthyciadau Allanol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol** | **124,524** | **132,283** | **144,335** | **156,112** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 7,925 | 14,724 | 14,428 | 10,784 |
| Benthyca i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (166) | (2,672) | (2,651) | (382) |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | **132,283** | **144,335** | **156,112** | **166,514** |
| **Benthyciadau Mewnol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **12,036** | **8,666** | **7,180** | **5,358** |
| Amnewid Benthyciadau Mewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau Benthyca o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-daliadau Benthyciadau Allanol | 166 | 2,672 | 2,651 | 382 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,496) | (4,156) | (4,291) | (4,590) |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | **8,666** | **7,180** | **5,358** | **1,044** |
| **CYFANSWM Y BENTHYCIADAU** | **140,949** | **151,515** | **161,470** | **167,558** |

## 7. STRATEGAETH FENTHYCA

**7.1.** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) heb ei gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca, a defnyddiwyd arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus oherwydd bod enillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartïon yn fater sy'n parhau i fod angen ei gymryd i ystyriaeth. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £8.666m yn allanol petai angen brys. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

**7.2.** Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2022/23. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- Os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio, ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, efallai oherwydd cyflymu dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn yr UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu, gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir y byddant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bo modd.

**7.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol**

**7.3.1** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisïau blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn hanesyddol anarferol o isel, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli'n weithredol eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

**7.3.2** Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn diffygdalu ar y ddyled), felly, bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**7.3.3** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**7.3.4** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2022/23 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

**7.4 Benthyca ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion**

**7.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

**7.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-

1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
3. pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
6. ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**7.4.3** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd i fenthyca cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

**7.5 Aildrefnu Dyledion**

**7.5.1** Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau yn ein portffolio dyled ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthyca newydd, er bod yr elw cyffredinol o ran cyfraddau BBGC dros gynnyrch enillion gilt wedi ostwng 100 bps ym mis Tachwedd 2020.

**7.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**7.5.3** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng i ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**7.5.4** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddynt ddigwydd.

**7.6 Proffil Dyledion**

**7.6.1** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

## 8. STRATEGAETH FUDDSODDI

**8.1** Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.
- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar y cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

**8.2 Rheoli Risg**

**8.2.1.** Mae CIPFA wedi ehangu ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y Tîm Rheoli Trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, sef, yn ei hanfod, prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**8.2.2** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau");
- Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus 2017 ("y Côd");
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018.

**8.2.3** Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd ac archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol (o bersbectif mewnol yn ogystal ag allanol), bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel, yn ogystal â'r opsiynau ariannol ehangach.

**8.2.4**. Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg fel a ganlyn:-

1. Defnyddir **meini prawf sylfaenol o ran statws credyd** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrtbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.
2. **Gwybodaeth arall**: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd ("**credit default swaps**") ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y graddfeydd credyd.
3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth eraill** a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartïon y gellir bod yn buddsoddi ynddynt.
4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae gan y Tîm Rheoli Trysorlys awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau 'penodol' ac 'amhenodol'.
    - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu fel buddsoddiadau amhenodol ond oherwydd fod y cyfnod aeddfedu yn fwy na blwyddyn.
    - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.
5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol**. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2022/23 (gweler **Atodiad 7**).
6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.
7. Nodir **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn **Atodiad 8**.
8. Bydd yr Awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).

9. Ni fydd buddsoddiadau ond yn cael eu gwneud mewn gwrthbartïon o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol (gweler **Atodiad 9**).

10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw ac yn wyneb archwaeth risg yr Awdurdod hwn yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.

11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling.**

12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2022/23 dan **IFRS 9,** bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau offerynnau buddsoddi a allai arwain at newid andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r taliadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo darpariaeth statudol sy'n rhoi amser i awdurdodau lleol Cymru addasu eu portffolios o'r holl fuddsoddiadau cyfun trwy ohirio gweithredu IFRS 9 am bum mlynedd tan 31.03.23.

**8.3 Polisi Teilyngdod Credyd**

**8.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod elw neu enillion ar fuddsoddiadau hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fathau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol, a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodol ac amhenodol; a
- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

**8.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo pan fo angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu pa fathau o offerynnau buddsoddi sy'n offerynnau penodol neu'n amhenodol, a hynny oherwydd eu bod yn darparu cronfa gyffredinol o wrthbartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio, yn hytrach na'u bod yn feini prawf sy'n diffinio'r math o offerynnau buddsoddi a fydd yn cael eu defnyddio.

**8.3.3** Caiff gwybodaeth am statws credyd ei darparu gan Link Group, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbartïon sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Bydd manylion am newidiadau i'r graddfeydd, newidiadau tebygol i'r graddfeydd (Watches) a gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfa ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**8.3.4** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf staws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu statws credyd gwrthbartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau statws credyd;
- Taenu yswirio colledion credyd (CDS) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng o gael credyd yn unig.

**8.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Outlook) a rhagolygon credyd (Watches) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o CDS a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

Melyn: 5 mlynedd *
Pinc tywyll: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.25
Pinc golau: 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.5
Piws: 2 flynedd
Glas: 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led-wladolwyd)
Oren: 1 flwyddyn
Coch: 6 mis
Gwyrdd: 100 diwrnod
Dim Lliw: Dim i'w ddefnyddio

**8.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**8.3.7** Fel arfer, y meini prawf isaf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer credyd fydd graddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 a graddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyriaeth i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall am y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnyddio.

**8.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd Link.

- Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
- Yn ogystal â graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y gweithgareddau 'yswirio colledion credyd' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad drwy ei wefan 'Passport', a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**8.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol a roddwyd i fanciau i'w helpu gyda'i broses gwneud penderfyniadau.

**8.3.10** Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd Tymor Byr a Hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Fodd bynnag, wrth i economïau ddechrau ail agor, cafodd y Rhagolygon eu gwrthdroi mewn rhai achosion.

**8.3.11** Er bod prisiau CDS banciau (dangosyddion y farchnad o risgiau credyd), wedi codi ddiwedd mis Mawrth / dechrau Ebrill 2020 oherwydd bod mwy o ansicrwydd yn y farchnad a'r argyfwng hylifedd a effeithiodd ar farchnadoedd ariannol, maent wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol ers hynny. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid yn sydyn, felly, bydd yn parhau i fod yn bwysig i ni ddal ati i fonitro pob agwedd o risg ac elw o dan yr amgylchiadau presennol. Mae Link yn monitro prisiau CDS fel rhan o'u gwasanaeth teilyngdod credyd i awdurdodau lleol ac mae gan y Cyngor fynediad i'r wybodaeth hon trwy ei borth 'Passport' a ddarperir gan Link.

**8.4 Cyfyngiadau Gwledydd**

**8.4.1** Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn **yn Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 9. LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**9.1** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**9.2** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau.

**9.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau**

**9.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**9.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**9.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys ar 7 Tachwedd 2019. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**9.3.4** Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

**9.4 Cyngor Rheoli Trysorlys**

**9.4.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Group, Treasury Solutions fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli trysorlys. Penderfynodd y Cyngor wneud defnydd o'r opsiwn i ymestyn y contract am ddwy flynedd, hyd at 31 Mawrth 2021. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021 am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd, a Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.

**9.4.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod hefo'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**9.4.3** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn medru manteisio ar sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

**9.5 Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys**

**9.5.1** Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn ymwneud â fforddiadwyedd, darbodusrwydd ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12.**

**9.6 Adrodd**

**9.6.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Mae angen i'r adroddiadau hyn gael sylw digonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am y rôl hon.

**9.6.2** Dangosyddion Rheoli Darbodus a'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych yn ei flaen ac yn ymwneud â'r isod:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**9.6.3** Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn – bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**9.6.4** Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**ATODIADAU**

**1.** Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
**2.** Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
**3.** Cefndir economaidd
**4.** Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
**5.** Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
**6.** Datganiad Polisi DRI
**7.** Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
**8.** Meini Prawf Gwrthbartïon
**9.** Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
**10.** Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
**11.** Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
**12.** Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
**13.** Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

**Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys**

**1** Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr Awdurdod, ei fancio, trafodion marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf: rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny".

**2** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

**3** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae, felly, wedi ymrwymo i egwyddorion ennill gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg mewn modd effeithiol.

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021),*** fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- Datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; a

- Arferion Rheoli Trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, ymarferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisïau ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.

4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar y polisïau, yr arferion a'r perfformiad yn y maes rheoli trysorlys.

## ECONOMIC BACKGROUND

- **COVID-19 vaccines.**
*Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong, Norwy a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.*

***Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael***

**AAA**
- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**
- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

**AA**
- Abu Dhabi
- Ffrainc

**AA-**
- Gwlad Belg
- Hong Kong
- Qatar
- **DU**

**Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi DRI, Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-

  - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DRI Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DRI Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
  - derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn cynnwys:**

- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol; acargymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, a fônt wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn llinell amser tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn  darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd ddigonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni) , gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS<br>GOSOD CYLLIDEB 2022/23** | | | | | | **ATODIAD 11** |
| **Rhif** | **Dangosydd** | | | | | |
| **Fforddiadwyaeth** | | **2020/21<br>Alldro** | **2021/22<br>Amcangyfrif** | **2022/23<br>Cynnig** | **2023/24<br>Cynnig** | **2024/25<br>Cynnig** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 4.75% | 4.55% | 4.40% | 4.43% | 4.44% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad) | 16.52% | 9.04% | 13.40% | 14.12% | 13.83% |
| | Cyfanswm | 6.12% | 5.08% | 5.42% | 5.57% | 5.56% |
| **Darbodusrwydd** | | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwariant Cyfalaf** | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 20,507 | 25,427 | 17,177 | 9,408 | 8,277 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 12,622 | 13,641 | 18,784 | 22,009 | 18,550 |
| | Cyfanswm | **33,129** | **39,068** | **35,961** | **31,417** | **26,827** |
| **6,7** | Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 97,360 | 102,531 | 107,867 | 109,195 | 110,728 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 39,200 | 38,415 | 43,646 | 52,273 | 56,828 |
| | Cyfanswm | **136,560** | **140,946** | **151,513** | **161,468** | **167,556** |
| Dyled Allanol | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 175,000 | 175,000 | 180,000 | 190,000 | 198,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | **180,000** | **180,000** | **185,000** | **195,000** | **203,000** |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Ffin Weithredol | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 170,000 | 170,000 | 175,000 | 185,000 | 193,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | **175,000** | **175,000** | **180,000** | **190,000** | **198,000** |
| **10** | Gwir Ddyled Allanol | **124,524** | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2020/21 Alldro** | **2021/22 Amcangyfrif** | **2022/23 Cynnig** | **2022/24 Cynnig** | **2024/25 Cynnig** |
| **11** | Bod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **12** | Dyled Gros a Net | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| | *Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros* | | | | | |
| **13** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 155,000 | 155,000 | 160,000 | 170,000 | 178,000 |
| | *(prifswm net sy'n ddyledus)* | | | | | |
| **14** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prifswm net sy'n ddyledusl)* | | | | | |
| **15** | Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | *(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn pob blwyddyn)* | | | | | |
| | | | **2022/23 Terfyn uchaf** | | **2022/23 Terfyn isaf** | |
| **16** | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys.**

**A) Fforddiadwyaeth.**

**1 & 2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

**B) Bod yn ddarbodus**

**3. Dyled gros a'r GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

**C) Gwariant cyfalaf**

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

**4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf**

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2021/22 hyd at 2024/25 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2022/23.

**6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)**

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly'n newid dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau o'r fath yn y GCC.

**CH) Dyled Allanol**

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gynhorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill

**Geirfa**

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysyltiedig â'r Cyngor yn darparu llety tai.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull cyfradd llog wirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog wirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**DARPARIAETH REFENIW ISAF REFENIW (DRI)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (BBGC)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHYMORTH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth weithio allan ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DIGYMORTH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côd y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2467A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed; caiff hyn ei wneud yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy'n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni i gyd-fynd â hi'n cynnig y potensial i lywio newid cadarnhaol a threfniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol a'r casgliadau ar y cyfan 6

Mae partneriaid yn cydweithio i ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ond maent yn cario risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y farchnad, y gweithlu, a threfniadau cyn lleoli, ynghyd â dibyniaeth ar brynu ar y pryd 7

Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018 yn nodi rhai dyheadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ychwanegwyd atynt gan ymateb y BPRh i 'Cymru Iachach' yn 2019; fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi llywio datblygiad strategaeth ranbarthol eglur ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru na chynllun cyflawni i fwrw ymlaen â'r dyheadau a nodwyd 10

Er bod rhwydwaith y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', mae ei strwythurau, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, ac mae angen cryfhau llinellau atebolrwydd 13

Mae strwythurau ffioedd a bennir yn genedlaethol yn gymhleth ac yn arwain at ffocws sylweddol ar gost sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd 15

Mae angen i bartneriaid wneud mwy i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gomisiynu darpariaeth mewn cartrefi gofal a gwneud lleoliadau unigol 19

Argymhellion 22

Atodiad 1 – Siart strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 23

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

2 Ledled Cymru, mae costau comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl.


**Arddangosyn 1: ffeithiau allweddol am gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal**

Mae'r arddangosyn yn nodi rhai ffeithiau allweddol am wasanaethau cartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru.

4,353

O bobl dros 65 oed yn cael gwasanaethau mewn cartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru gan awdurdodau lleol yn 2018-19.

O'r rhain, mae 1,034 yn cael gwasanaethau nyrsio hefyd.



Mae data 2016[1] yn dynodi bod 6,048 o leoedd preswyl mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru, sy'n cynnwys:

2,636 o leoedd preswyl

1,194 o leoedd preswyl i'r Henoed sy'n Eiddil eu Meddwl

1,555 o leoedd nyrsio cyffredinol

663 o leoedd nyrsio i'r Henoed sy'n Eiddil eu Meddwl

£74.2 miliwn

Gwariant Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ar leoliadau nyrsio a phreswyl ar gyfer pobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn 2019-20 (Stats Cymru)

£98.8 miliwn

Costau Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir y Bwrdd Iechyd yn 2019-20 (Cyfrifon Blynyddol)[2]

[1] Datganiad Siapio'r Farchnad – Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Ngogledd Cymru

[2] Data wedi'i gael o Gyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r mwyafrif ond nid yr holl gostau Gofal Iechyd Parhaus yn ymwneud â lleoliadau mewn cartrefi gofal.

3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eu hardal. Dylai partneriaid adnabod pa wasanaethau y mae eu hangen a defnyddio'u hadnoddau'n effeithiol; er enghraifft, trwy sefydlu a chynnal trefniadau cronfa gyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o ran llety mewn cartrefi gofal.

4 Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia. Yng Ngogledd Cymru, mae'r BPRh yn cynnwys y partneriaid statudol – Cynghorau Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

5 Yn gynnar yn 2020, fe wnaethom nodi bod mynd ati'n strategol i gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn risg i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd am y rhesymau canlynol:

- lefel uchel o wariant ar y gwasanaethau hyn;
- codiadau a ragwelir yn niferoedd y bobl hŷn y disgwylir y bydd angen cymorth arnynt;
- cystadleuaeth recriwtio a chadw rhwng darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a rhannau o'r sector annibynnol yn ogystal â chyflogwyr manwerthu a lletygarwch; a
- manteision posibl mynd ati'n strategol i gomisiynu ar draws cyrff sector cyhoeddus Gogledd Cymru nad ydynt wedi cael eu cyflawni hyd yma.

6 Yn ystod 2020-21, mae pandemig COVID-19 wedi amlygu bregusrwydd y farchnad gofal a materion o ran ei chapasiti ynghyd â'r angen i gynllunio'n strategol ar lefel ranbarthol.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

7 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gan adlewyrchu ffocws traws-sector yr adolygiad hwn rydym wedi cyflwyno ein canfyddiadau fel un adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer cryfhau'r dull o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal a threfniadau cysylltiedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru i gyd. Rydym wedi defnyddio'r term cartrefi gofal i adlewyrchu pob math o gartrefi gofal nyrsio a phreswyl mewn ystyr gyffredinol er ein bod wedi nodi yn y testun pan fyddwn yn cyfeirio at un math.

## Negeseuon allweddol a’r casgliadau ar y cyfan

8 Wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal mae’n rhaid wrth gydweithio rhwng cynghorau, y Bwrdd Iechyd, a darparwyr i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau’n cael eu lletya mewn lleoliadau addas.

9 **Ar y cyfan, canfu ein hadolygiad fod partneriaid yn gweithio’n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed; caiff hyn ei wneud yn anos gan brosesau cenedlaethol cymhleth, sy’n arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy’n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â’r potensial i effeithio’n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a’u teuluoedd. Mae cryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflawni i gyd-fynd â hi’n cynnig y potensial i lywio newid cadarnhaol a threfniadau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.**

10 Er y gallai rhai o’r materion a heriau arwyddocaol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ydym yn eu nodi yn yr adroddiad hwn fod yn unigryw i Ogledd Cymru, mae llawer yn bodoli oherwydd y fframweithiau, polisi a deddfwriaeth a bennir yn genedlaethol. Er bod angen gwelliant rhanbarthol, mae cyfle gwirioneddol i ystyried hyd a lled y materion hyn mewn rhanbarthau eraill, a sut y gallai diwygio cenedlaethol helpu i ddarparu llwyfan ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan argymell camau gweithredu y dylai eu cymryd i wella’r fframwaith y mae partneriaid rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddo. Nid yw darparwyr cartrefi gofal yn y sector preifat yn cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y cyfryw, ond mae arian cyhoeddus a delir i ddarparwyr o’r fath yn cael ei archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o’r archwiliad o gyrff cyhoeddus. Fel rhan o weithgareddau comisiynu a chaffael, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ystyried sut y gellir annog darparwyr yn y sector preifat ymhellach i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella’r ddarpariaeth o ran cartrefi gofal. Caiff y canfyddiadau sy’n tanategu’r casgliadau uchod eu hystyried yn yr adrannau canlynol.

## Mae partneriaid yn cydweithio i ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed ond maent yn cario risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlogrwydd y farchnad, y gweithlu, a threfniadau cyn lleoli, ynghyd â dibyniaeth ar brynu ar y pryd

11 Ar lefel weithredol, mae swyddogion yn parhau i weithio trwy ac o amgylch cymhlethdodau'r strwythur ariannu cenedlaethol i gael y gorau y gallant o'r farchnad cartrefi gofal. Wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal, mae rheolwyr gweithredol yn gweithio'n galed i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael y gofal gorau i ddiwallu eu hanghenion, ond rhaid i'r rhai â chyfrifoldebau am gyllidebau daro cydbwysedd rhwng hyn a'r costau hefyd.

12 Mae cynaliadwyedd y farchnad cartrefi gofal yn fater allweddol i Ogledd Cymru. Ceir cartrefi gofal sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus a phreifat ac mae incwm yn ddibynnol ar y galw a chyfraddau ffioedd. Mae'r dull ariannu'n fyrdymor o ran ei natur ac nid yw'n mynd i'r afael â hyfywedd ariannol tymor hwy'r farchnad. Nid yw'n mynd ati'n iawn i ragweld newidiadau hirdymor yn yr angen a sut i addasu'r farchnad i ddiwallu'r angen hwnnw ychwaith.

13 Mewn busnes mae'n hanfodol bod y cyflenwad a'r galw'n cyd-fynd yn agos â'i gilydd, ac yng Ngogledd Cymru, nid yw'r ddarpariaeth cartrefi gofal yn adlewyrchu'r galw. Dywedodd rheolwyr wrthym fod diffyg rhai mathau o ddarpariaeth arbenigol megis ar gyfer pobl â dementia a bod gan rai rhannau o'r rhanbarth orgyflenwad o gartrefi gofal nad oes iddynt bwyslais arbenigol. Pan fo tangyflenwad o gartrefi gofal addas mewn ardal, gall person gael ei leoli gryn bellter o'i gartref a'i gymuned leol, neu fe allai arwain at oedi cyn ei ryddhau o'r ysbyty. Pe bai lleoliad yn cael ei wneud, gallai hyn fod mewn rhannau eraill o Gymru neu weithiau y tu allan i Gymru yn gyfan gwbl. Efallai'n wir mai lleoliad y tu allan i Gymru sy'n synhwyrol ar gyfer preswylwyr mewn siroedd mwy dwyreiniol, ac ar adegau, lleoliad i ffwrdd o'r lle yr oedd y preswylydd yn byw yw'r penderfyniad cywir: er enghraifft, i fod yn nes at berthnasau neu i sicrhau bod y preswylydd yn gallu byw mewn cartref lle mae'r staff yn siarad Cymraeg yn bennaf. Fodd bynnag, gall hyn hefyd olygu bod gan berthnasau siwrneiau hir i ymweld â'u perthnasau.

14 Mae rhai agweddau ar y farchnad cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru sy'n creu bregusrwydd ynddi hefyd. Mae rhai perchnogion cartrefi gofal yn dynesu at oedran ymddeol a bydd arnynt eisiau gwerthu eu busnesau. Nid yw rhai cartrefi'n cydymffurfio â'r safonau amgylcheddol sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar hyn o bryd[3]. Unwaith y cânt eu gwerthu, efallai y bydd angen i'r perchnogion newydd

[3] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

gydymffurfio os nad oes neb yn byw yn y cartrefi ar adeg eu gwerthu. Bydd hyn yn effeithio ar farchnadwyedd eu busnesau, ac efallai na fydd cost gwaith adeiladu i gydymffurfio â'r safonau'n cael ei hadlewyrchu'n ddigonol ym methodoleg y pecyn cymorth ffioedd. Mae swyddogion yn parhau i gontractio â'r cartrefi gofal hyn er nad ydynt yn cyrraedd y safonau amgylcheddol yn llawn, oherwydd byddai'r capasiti heb eu defnyddio'n rhy gyfyngedig.

15 Mae partneriaid, trwy'r Grŵp Gweithredol Cartrefi Gofal, wedi cynorthwyo cartrefi gofal i wella safonau ansawdd megis cymorth nyrsio datblygu ymarfer, cymorth swyddogion monitro gyda phrosesau datblygu a chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella a chynlluniau parhad busnes, recriwtio a hysbysebu swyddi gwag, cymorth iechyd yr amgylchedd gyda hylendid bwyd, swyddogion iechyd a diogelwch a chyrsiau dysgu Cymraeg i staff cartrefi gofal.

16 Hefyd, mae partneriaid yn rhoi cymorth i helpu pobl i gadw'n iach, gofalu amdanynt hwy eu hunain ac i atal eu hanghenion rhag dwysáu nes bod angen gofal a reolir. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys gwasanaethau atal cwympiadau a rhaglenni llesiant cymunedol.

17 Mae comisiynwyr a darparwyr yn parhau i gydweithio er gwaethaf yr heriau amlwg a achosir gan gymhlethdodau'r farchnad ar hyn o bryd. Mae rheolwyr yn cwrdd yn rheolaidd â darparwyr, a Phrif Weithredwr Fforwm Gofal Cymru, sy'n cynrychioli darparwyr, yw cadeirydd y BPRh bellach. Mae rhwystredigaethau'n ymwneud yn bennaf â'r broses a'r strwythur ffioedd, ond mae darparwyr a chomisiynwyr yn parhau i weithio trwy'r trefniant amherffaith yma.

18 Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn agwedd arall sy'n creu bregusrwydd o fewn y farchnad ac yn un a ddogfennwyd yn glir yn Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru 2018-2021, a ddatblygwyd gan Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (BGGC), sy'n nodi bod ei flaenoriaethau fel a ganlyn:

- sefydlogi'r gweithlu – recriwtio a chadw;
- dysgu a datblygu – datblygu gweithlu ar draws y sector sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth, a'r cymwyseddau i ddarparu gwasanaethau wedi'u personoli o ansawdd da; a
- chynllunio a datblygu'r gweithlu – cynllunio'r gweithlu yn y sector cartrefi gofal.

Er bod BGGC yn adrodd wrth y BPRh a'i fod wedi gwneud gwaith i ddechrau cyflawni'r blaenoriaethau hyn, nid yw'r rhain yn rhan o gynllun cyflawni rhanbarthol cynhwysfawr.

19 Yn gyson â rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae'r heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cynnwys trosiant staff uchel, swyddi gwag yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogau amrywiol mewn swyddi tebyg o fewn y Bwrdd Iechyd a chynghorau, effaith BREXIT, gofynion o ran cymwysterau a'r symiau mawr a delir am staff asiantaeth gan ddarparwyr. Mae BGGC yn gweithio ar brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n datblygu model busnes ar gyfer asiantaeth staffio ddielw

i helpu i ymdrin â'r heriau o ran y gweithlu ledled Gogledd Cymru mewn perthynas â recriwtio, cadw a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd y rhanbarth.

20 Mae Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cylchredeg gwybodaeth am hyfforddiant a recriwtio sy'n hysbysu ac yn annog staff a recriwtiaid posibl i gymryd rhan ledled Gogledd Cymru. Ac mae Sir y Fflint yn gweithio ar recriwtio seiliedig-ar-werthoedd i ddenu pobl sy'n dymuno gweithio yn y sector gofal.

21 Mae'r rhanbarth ar hyn o bryd yn y broses o gytuno ar gytundeb cyn lleoli (CCLl) newydd ar gyfer Gogledd Cymru ac mae wedi estyn y fersiwn gyfredol lle mae'r rhain yn eu lle, nes gellir cyflwyno'r fersiwn newydd. Fodd bynnag, nid oes CCLl ar gyfer rhai lleoliadau am fod y darparwyr hynny wedi penderfynu peidio â llofnodi'r cytundeb. Mae CCLl yn ymdrin â phethau fel gofynion cofrestru, monitro ansawdd, cyfeiriad at brosesau talu a thaliadau ar ôl marwolaeth. Nid yw manylebau gwasanaethau yn eu lle ledled y rhanbarth ychwaith. Wrth weithio i gyflwyno fersiwn newydd o'r CCLl, dylai partneriaid fod yn amcanu at gyfyngu ar achosion, ac yn ddelfrydol dileu'r achosion lle mae darparwyr yn gwrthod llofnodi'r CCLl newydd. Mae peidio â bod â'r cytundebau a'r manylebau hyn yn eu lle'n achosi risg sylweddol i leoliad y defnyddwyr gwasanaethau yn enwedig lle mae anghydfodau'n codi.

22 Mae cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu ar sail prynu ar y pryd, o fewn fframwaith prisiau ar y cyfan. Er bod hyn yn golygu mai dim ond am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio y maent yn talu, mae hefyd yn golygu os oes manteision ariannol posibl ar gael trwy gontractau bloc neu gontractau cost a nifer, nad yw'r rhain yn cael eu gwireddu. O ganlyniad, gallai defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid fod yn talu mwy nag y dylent.

## Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn 2018 yn nodi rhai dyheadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yr ychwanegwyd atynt gan ymateb y BPRh i 'Cymru Iachach' yn 2019; fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain wedi llywio datblygiad strategaeth ranbarthol eglur ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru na chynllun cyflawni i fwrw ymlaen â'r dyheadau a nodwyd

23 Mae 'codau a chanllawiau' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi y dylai byrddau iechyd lleol a chynghorau, mewn perthynas â chartrefi gofal, gytuno ar ddatganiad integredig priodol o sefyllfa'r farchnad ranbarthol a strategaeth gomisiynu ranbarthol. Dylai'r rhain nodi'r canlyniadau y mae'n ofynnol i gartrefi gofal eu cyflawni, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sy'n ofynnol. Dylai fod cytundeb hefyd ar y dulliau comisiynu (er enghraifft, gall fod ar rai gwasanaethau angen contract bloc, gwasanaethau gofal canolradd camu i fyny, camu i lawr, gofal seibiant a.y.b.).

24 Mae partneriaid yng Ngogledd Cymru'n dal data sylweddol yn lleol ar ddefnyddwyr eu gwasanaethau, yr ystod o wasanaethau ledled y rhanbarth megis defnyddwyr gwasanaethau mewn cartrefi gofal, y rhai sy'n cael cymorth gofal cartref, darpariaeth tai gofal ychwanegol a gwasanaethau cymorth eraill. Er bod y Datganiad yn rhagfynegi cynnydd posibl yn y lleoliadau mewn cartrefi gofal yn seiliedig ar niferoedd cyfredol a rhagolygon ar gyfer y boblogaeth, nid yw'n darparu unrhyw ddata nac amcanestyniadau ynghylch effaith gwasanaethau ataliol ar leoliadau mewn cartrefi gofal.

25 Yng Ngogledd Cymru, mae'r model a ffafrir gan bartneriaid o ran darparu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn amrywio. Mae'r ddemograffeg ledled y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol, sy'n golygu bod y galw ac anghenion comisiynu'n amrywio. Mae rhai cynghorau wedi cadw eu cartrefi gofal mewnol tra bo eraill yn dibynnu ar y sector annibynnol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal. Mae gan y cynghorau hynny sy'n weddill gymysgedd o ddarpariaeth fewnol ac annibynnol. Mae gan rai rhannau o'r rhanbarth orgyflenwad o rai mathau o leoliadau mewn cartrefi gofal ond mae gan eraill ddiffyg capasiti mewn meysydd arbenigol megis gofal dementia. Er bod yn well gan rai partneriaid gartrefi gofal mwy newydd sy'n fwy o faint, mae'n well gan eraill gartrefi gofal llai, ond mae'r dewis i raddau helaeth wedi'i seilio ar beth sydd ar gael mewn gwirionedd neu beth

ellid ei gefnogi yn yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf yn gweld tai gofal ychwanegol yn disodli rhywfaint o'r capasiti cyfredol o ran cartrefi gofal.

26 Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, i gydymffurfio â'r Ddeddf, fe ddatblygodd partneriaid rhanbarthol Gogledd Cymru eu Datganiad Siapio'r Farchnad – **Cartrefi gofal i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru** (y Datganiad) yn 2018 yn seiliedig ar yr asesiad o'r boblogaeth. Mae'r datganiad yn ymrwymo i fynd i'r afael ag ystod o faterion gan gynnwys sgiliau'r gweithlu, y Gymraeg a'r fethodoleg ffioedd. Roedd Datganiad Siapio'r Farchnad yn nodi fel a ganlyn: 'Efallai y bydd angen ad-drefnu darpariaeth ar draws Gogledd Cymru; er enghraifft, mewn rhai ardaloedd mae diffyg darpariaeth gofal preswyl ac mewn ardaloedd eraill mae gormodedd - bydd angen datblygiad strategol cydgysylltiol er mwyn sicrhau bod perchnogion cartrefi yn ymwybodol o'r galw a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol a rhaid i gomisiynwyr a pherchnogion weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r gweithlu i gwrdd yr anghenion a ragwelir (dementia a chyflyrau iechyd corfforol cymhleth).' Er ei fod yn nodi rhai o'r materion, a dyheadau ar gyfer gofal, nid oedd yn darparu gweledigaeth ranbarthol eglur na chynllun cyflawni ar gyfer gofal i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn y dyfodol.

27 Wrth gwrs, nid yw strategaeth ranbarthol yn golygu bod rhaid i bopeth gael ei wneud ar sail ranbarthol. Gall dull rhanbarthol fod yn briodol lle mae angen eglur i wasanaethau gael eu comisiynu a'u darparu'n gyson neu lle mae'r galw'n isel am wasanaethau arbenigol iawn. Gall dull rhanbarthol ddarparu'r llwyfan ar gyfer datrysiad i Ogledd Cymru hefyd ac atal profiadau sy'n gostus ac weithiau'n wael i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i leoliadau y tu allan i'r ardal. Gall fod cyfleoedd hefyd i greu darbodion maint trwy gomisiynu a darparu'n rhanbarthol. Ar y llaw arall, gellid cyflawni dull isranbarthol lle mae ar bartneriaid eisiau cydweithio i lunio ac addasu gwasanaethau i gwrdd ag amgylchiadau lleol. Gallai dull lleol barhau lle mae pethau'n gweithio'n dda, ond gallai elwa o gael ei alinio â safonau, prosesau a strwythurau ffioedd y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol. Er bod polisi cenedlaethol yn tybio dull rhanbarthol, bydd angen i bartneriaid gytuno sut y gall dull rhanbarthol fod o fudd i Ogledd Cymru a beth y mae'n dal yn well ei reoli'n lleol. Yng Ngogledd Cymru, mae partneriaid yn gweithredu gyda chymysgedd o drefniadau rhanbarthol, isranbarthol a lleol ond nid yw rhinweddau a chyfyngiadau pob un ohonynt wedi cael eu hystyried yn ffurfiol gan y BPRh.

28 Bydd angen i bartneriaid fod yn eofn er mwyn siapio'r farchnad cartrefi gofal. Mae hyn yn dechrau â gweledigaeth y cytunwyd arni, dealltwriaeth am siâp y farchnad ofal yn y dyfodol a thryloywder o ran sut y byddant yn cyflawni'r trawsnewid, gan ymgysylltu'n ystyrlon â darparwyr.

29 Er bod Datganiad Siapio'r Farchnad wedi ymrwymo i gyhoeddi cynllun cyflawni i'w danategu, nid yw'r gwaith yma wedi cael ei gwblhau. Er bod pandemig COVID-19 wedi dwyn goblygiadau mawr o ran capasiti ar gyfer partneriaid gofal cymdeithasol ac iechyd yn ystod 2020 a hyd yn hyn, dylid nodi bod y Datganiad wedi cael ei gymeradwyo yn 2018. Felly gallai partneriaid fod wedi bod yn datblygu cynllun cyflawni yn ystod 2018 a 2019 i nodi sut y byddid yn ymdrin â'r materion pwysig a godwyd ganddo.

30 Er bod y BPRh, trwy ei ymateb i 'Cymru Iachach', yn 2019, yn siarad am y newidiadau posibl y bydd eu hangen yn nifer y lleoliadau a'r math o leoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, ni wnaeth gyfleu hyn mewn strategaeth ar y cyfan ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal na chynllun cyflawni i egluro sut y bydd yn mynd o'r lle y mae ar hyn o bryd i'r lle y mae angen iddo fod.

31 Fe arsylwom ni ar gyfarfod Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru ar 24 Chwefror 2021 fel rhan o'r adolygiad hwn. Yn y cyfarfod hwn fe gytunodd y rhai a oedd yn bresennol ar flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020-2022 mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y rhifyn nesaf o Ddatganiad Siapio'r Farchnad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r BPRh ddiweddaru'r Datganiad a datblygu strategaeth a chynllun cyflawni eglur, i siapio'r farchnad a'r patrwm darparu lleoliadau mewn cartrefi gofal yn enwedig mewn perthynas â'r gofal mwy cymhleth ac arbenigol, sy'n cael ei ddarparu y tu allan i'r rhanbarth ar gyfer rhai defnyddwyr ar hyn o bryd.

## Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw'r trefniant cronfa gyfun cyfredol yn darparu gwerth am arian nac unrhyw fanteision bwriadedig sy'n gysylltiedig â'r model cronfa gyfun

32 Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, o dan y Ddeddf mae'n ofynnol i bartneriaid sefydlu a chynnal trefniant cronfa gyfun i roi cymorth i gyflawni eu swyddogaethau o ran lletya mewn cartrefi gofal. Yn 2020, cododd Archwilio Cymru bryderon ynghylch sut yr oedd y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Daethom i'r casgliad, er ei fod yn bodloni lleiafswm y gofynion o ran cydymffurfiaeth dechnegol, fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru, nad yw'r trefniant cronfa gyfun cyfredol yn darparu gwerth am arian. Fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at bob cyngor yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2020, yn cynnig y dylent adolygu'r trefniant cronfa gyfun cyfredol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, i sicrhau bod trosglwyddo arian rhwng cyrff cyhoeddus yn dwyn budd gweladwy megis comisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio mewn modd mwy integredig, gwell. Fe ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Lywodraeth Cymru hefyd i godi ei bryderon.

33 Hysbyswyd y BPRh hefyd ynghylch argymhellion a wnaed mewn adroddiad ar wahân a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[4] ar drefniadau cyllidebau cyfun ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gadeiryddion yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno'u cynlluniau gwella yn nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r naw argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw, gan gynnwys sut y byddant yn defnyddio pecyn cymorth Cymdeithas

[4] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyllidebau cyfun mewn perthynas â llety mewn cartrefi gofal i bobl dros 65 oed a gyhoeddwyd, Mehefin 2020

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sydd wedi bod ar gael ers haf 2019, i roi cymorth i ddatblygu cronfeydd cyfun. Roedd disgwyl i'r cynlluniau hyn gryfhau trefniadau cronfeydd cyfun ac adnabod y camau y gellir eu cymryd ar lefel Cymru gyfan i rannu gwersi a ddysgwyd. I ategu'r dull hwn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu trefniadau rhanbarthol i gomisiynu a chyfuno adnoddau.

34 Ymatebodd cadeirydd y BPRh i Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2021 yn nodi rhesymau partneriaid dros oedi cyn gwneud unrhyw gynnydd gyda'r trefniant cronfa gyfun nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ymatebion i'r Papur Gwyn - **Ailgydbwyso Gofal a Chymorth** oherwydd ei effaith bosibl ar rôl a swyddogaeth y BPRh. Mae'r BPRh wedi datgan yn glir ei fod o'r farn y dylai cyllidebau cyfun fod ar sail leol ac nid ar ôl troed rhanbarthol mwy. Deellir bod y BPRh mewn deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o roi'r Ddeddf ar waith yn fwy eang, ac nid dim ond mewn perthynas â defnyddio cyllidebau cyfun.

35 Er bod safbwynt partneriaid ar gyllidebau cyfun ar lefel ranbarthol hyd at y pwynt yma wedi'i nodi, bu Datganiad gan y Gweinidog yn ddiweddar yn nodi'r camau nesaf yn dilyn ymgynghori ynghylch y Papur Gwyn. Mae'r Datganiad yn nodi disgwyliad ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar bob lefel, gan gynnwys yn rhanbarthol. Mae hefyd yn amlygu manteision dull rhanbarthol o ddarparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth. Gyda hynny fel cyd-destun, mae'r argymhelliad presennol a wnaethom i holl bartneriaid BPRh Gogledd Cymru mewn perthynas â chyllidebau cyfun yn dal i fod yn berthnasol. Roedd hwn yn nodi y dylai partneriaid y BPRh adolygu'r trefniant cyllideb gyfun cyfredol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, i sicrhau bod trosglwyddo arian rhwng cyrff cyhoeddus yn dwyn budd gweladwy megis comisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio mewn modd mwy integredig, gwell.

## Er bod rhwydwaith y BPRh yn dod â phartneriaid ynghyd i 'feddwl yn rhanbarthol', mae ei strwythurau, a bennwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, yn helaeth a chymhleth, ac mae angen cryfhau llinellau atebolrwydd

36 Mae'r Ddeddf yn nodi aelodaeth BPRh; gall gynnwys cynghorydd o un cyngor yn y rhanbarth, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol, cynrychiolydd tai cyngor a chynrychiolydd addysg, landlord cymdeithasol cofrestredig, aelod o'r cyhoedd a gofalwr. Gall aelodau ychwanegol gael eu cyfethol yn ôl yr angen megis aelodau o Wasanaeth Ambiwlans Cymru, y Gwasanaeth Tân, a'r Heddlu. Gan fod BPRh Gogledd Cymru yn cwmpasu chwe chyngor a'r Bwrdd Iechyd, mae hyn yn arwain yn rheolaidd at bresenoldeb o fwy na 30 o bobl ym mhob cyfarfod.

37 Mae strwythur y BPRh wedi esblygu dros amser; er ei fod yn dibynnu ar y cyd-destun lleol, mae cryn dipyn fel y nodir gan Lywodraeth Cymru. Cefnogir BPRh Gogledd Cymru gan Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Thîm Cydweithio Rhanbarthol. Mae pedwar Bwrdd Trawsnewid sy'n cwmpasu Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn tanategu gwaith y BPRh. Ceir tri Thîm Gweithredu Lleol, sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd meddwl a thri Bwrdd Gwasanaethau Integredig Ardal yn gweithredu'n isranbarthol, a hwythau'n cwmpasu Wrecsam a Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn, a Chonwy a Sir Ddinbych. Mae sefydlu'r byrddau hyn a Thimau Gweithredu Lleol yn dangos bod partneriaid yn cydnabod manteision trefniadau gweithio is-ranbarthol ac wedi datblygu trefniadau sy'n darparu ar gyfer gwahaniaethau lleol gan hefyd gefnogi'r dull rhanbarthol. Cefnogir y BPRh ymhellach gan grwpiau, byrddau a rhwydweithiau fel a ganlyn:

- Grŵp Gweithredol Gofalwyr
- Bwrdd Comisiynu
- Bwrdd y Gweithlu
- Fforwm Mwy na Geiriau
- Rhwydwaith Dewis Cymru
- Grŵp Cyllidebau Cyfun
- Bwrdd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol
- Grŵp Gweithredol y Gronfa Gofal Integredig
- Hyb Ymchwil, Arloesi a Gwella
- Grŵp Strategol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Mae **Atodiad 1** yn nodi'r grwpiau hyn mewn siart trefniadaeth.

38 Mae sefydlu'r grwpiau hyn yn dangos bod partneriaid yn dod ynghyd i ymdrin â rhai o'r agweddau manwl ar fusnes y BPRh. Gall presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn fynd ag amser sylweddol ond mae'n dangos ymroddiad i weithio mewn partneriaeth ledled y rhanbarth. Er bod hyn yn dangos bod y BPRh yn aeddfedu o ran y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes, mae maint strwythur a gweithrediad y BPRh yn ei wneud yn weddol anhylaw ac yn creu heriau ar gyfer y ffordd y mae'n gweithredu.

39 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau integredig yn eglur mewn deddfwriaeth a chanllawiau atodol, sy'n cynnwys rôl y BPRh o ran cyflawni'r newid hwn. Canfuom rwystrau i fwy o integreiddio rhanbarthol yng Ngogledd Cymru fel a ganlyn:

- gwahaniaeth sefydliadol – blaenoriaethau, dulliau, ac atebolrwydd;
- lleihad canfyddedig mewn atebolrwydd a achosir gan yr haen ychwanegol o lywodraethu;
- ffynhonnell cyllid a'r costau ychwanegol;
- rheolaeth leol o'i gymharu â rheolaeth ranbarthol;

- maint ac amrywiaeth y rhanbarth;
- diffyg parodrwydd i rannu adnoddau; a
- diffyg ymddiriedaeth ymhlith rhai partneriaid.

40 Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd y BPRh, efallai nad oes gan swyddogion a chynghorwyr awdurdod dirprwyedig i neilltuo adnoddau eu sefydliad eu hunain neu benderfynu ar bolisi a chyfeiriad strategol. Er bod aelodau'r BPRh yn atebol o fewn eu trefniadau llywodraethu sefydliadol hwy eu hunain, nid oes tystiolaeth i ddangos eu bod yn mynd â phenderfyniadau yn ôl i gael eu cymeradwyo, na bod trefniadau ffurfiol i graffu ar fusnes y BPRh i'w ddwyn i gyfrif na herio'i gynigion.

41 Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn cael ei friffio gan aelodau'r BPRh ar y gweithgareddau a'r cynigion a wnaed. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd hwn yr awdurdod dirprwyedig i neilltuo adnoddau cynghorau unigol na phenderfynu ar bolisi a chyfeiriad strategol. Hefyd, nid yw'r BPRh yn cael ei ddwyn i gyfrif am gyflawni effaith nac ateb gofynion deddfwriaethol gan bartneriaid na Llywodraeth Cymru.

# Mae strwythurau ffioedd a bennir yn genedlaethol yn gymhleth ac yn arwain at ffocws sylweddol ar gost sy'n achosi rhwyg ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd

## Mae'r ffioedd a delir am leoliadau mewn cartrefi gofal yn codi a gostwng gan ddibynnu ar adnoddau'r defnyddiwr gwasanaethau ei hun, pa gorff cyhoeddus sy'n gwneud y lleoliad a threfniadau cytundebol gyda darparwyr, ac nid yw cyfraddau ffioedd o anghenraid yn adlewyrchu cymhlethdod anghenion gofal preswylwyr

42 Mae'r trefniadau ariannu ar gyfer cartrefi gofal yn gymhleth. Ar lefel uchel, mae'r cyfrifoldeb am ffioedd cartrefi gofal yn syml. Gall person ddewis symud i gartref gofal ar ei draul ei hun os oes ganddynt yr adnoddau i dalu. Os oes gan berson anghenion o ran iechyd sylfaenol, yna'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am dalu'r costau llawn. Os oes gan berson anghenion o ran gofal cymdeithasol, y cyngor sy'n gyfrifol am dalu'r costau hyn, ond bydd y defnyddiwr gwasanaethau'n cael ei asesu i bennu faint ddylai ei dalu tuag at ei ofal. Ac os oes gan berson gyfuniad o anghenion o ran iechyd ac anghenion o ran gofal yna bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn rhannu'r costau. Fodd bynnag, mae'r manylion y tu ôl i'r ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol yn gymhleth ac yn ddryslyd.

43 Er enghraifft, os yw cyngor yn contractio ar gyfer y lleoliad, mae'r uchafswm y mae defnyddiwr gwasanaethau'n ei dalu am ei ofal bob wythnos yn amrywio gan ddibynnu ble y mae'n byw. Er enghraifft, byddai person â thros £50,000 o gyfalaf, sy'n byw yn Ynys Môn neu yng Ngwynedd, ac sy'n cael y lefel isaf o ofal mewn cartref gofal, yn talu £586.32 yr wythnos pe bai'n cael ei leoli yn Ynys Môn neu yng Ngwynedd. Fodd bynnag, pe bai'r un person yn cael ei leoli yng Nghonwy, byddai'n talu £611 yr wythnos, sy'n wahaniaeth o £1,283 y flwyddyn. Fel arall, pe bai'n cael ei leoli yn Wrecsam, byddai'n talu £608.72 yr wythnos, sy'n wahaniaeth o £1,164 y flwyddyn. Gall rhai pobl ddewis symud i mewn i gartref gofal y tu allan i'w hardal; ond os gwneir y penderfyniad oherwydd capasiti cyfyngedig mewn cartrefi gofal lleol, mae capasiti'r farchnad yn cael effaith ariannol uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

44 Mae cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn negodi gyda darparwyr bob blwyddyn i gytuno ar ffioedd ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi nyrsio a gofal preswyl. Mae cynghorau'n talu cyfradd uwch ym mhob categori ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl.

45 Cyfrifir y ffioedd gan ddefnyddio pecyn cymorth a addaswyd yn wreiddiol yn 2013 ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i fwriadu i nodi'r costau sydd wedi cael eu hystyried wrth gyfrifo'r ffioedd cartrefi gofal. Mae'n darparu tryloywder yn y broses a dylai ddarparu strwythur ffioedd teg, er nad yw rhai darparwyr yn rhannu eu cyfrifon busnes fel rhan o'r drefn arferol i gefnogi'r broses. Dywedwyd wrthym yn ystod yr adolygiad fod dros draean o ddarparwyr yn ystyried nad yw eu holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y tybiaethau yn y pecyn cymorth, felly maent yn ail-negodi eu ffioedd ar wahân gyda phob cyngor. Dywedodd un cyngor wrthym fod gan ddarparwr yn ei ardal chwe chartref gyda chyfraddau ffioedd gwahanol ar gyfer pob un a bod oddeutu 20% o'r darparwyr yn yr ardal honno wedi ailnegodi eu ffioedd yn 2019-20. Os yw cyngor yn lleoli un o'i drigolion lleol yng nghartref cyngor cyfagos, bydd yn talu'r gyfradd a bennwyd gan y cyngor hwnnw, boed yn uwch neu'n is, nid y gyfradd y mae wedi cytuno arni gyda'r darparwr penodol hwnnw am leoliadau o fewn y sir.

46 Lle mae cynghorau'n comisiynu'r lleoliad, dylai hyn fod yn seiliedig ar y cyfraddau y cytunwyd arnynt neu'r gyfradd wythnosol a ail-negodwyd yn unigol. Bydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu'n ariannol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i bennu faint ddylent ei dalu yr wythnos tuag at eu costau gofal, ac os ydynt yn gallu talu'r gost lawn eu hunain yna byddant yn talu'r gyfradd y cytunwyd arni gan y cyngor. O dan reolau cronfa galedi COVID-19 Llywodraeth Cymru, dyfarnwyd taliad ychwanegol dros dro ar ben y ffioedd o £50 yr wythnos ar gyfer pob preswylydd yn achos gofal preswyl a gomisiynir gan gynghorau a darpariaeth gofal preswyl fewnol; mae hyn yn ychwanegol at y ffioedd cartrefi gofal.

47 Os yw defnyddiwr gwasanaethau'n dewis cartref gofal lle na fydd y darparwr yn derbyn y prisiau y cytunwyd arnynt gyda'r cynghorau, gall person arall, fel arfer perthynas neu ffrind, gytuno i dalu ychwanegiad trydydd parti sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng ffioedd y cartref gofal a'r swm y byddai'r Cyngor yn ei dalu fel arfer. Os yw'r trydydd parti'n rhoi'r gorau i dalu'r ychwanegiad mae tri dewis:

- mae'r cartref gofal yn derbyn y gyfradd is y cytunwyd arni;
- mae'r defnyddiwr gwasanaethau'n symud i gartref gofal sy'n derbyn y ffioedd y cytunwyd arnynt; neu
- mae'r Cyngor yn cytuno i dalu'r ychwanegiad ar ben y ffioedd y mae wedi cytuno i'w talu.

Deallwn fod cynghorau yn aml yn cytuno i dalu'r ychwanegiad i osgoi tarfu ar ofal y defnyddiwr gwasanaethau.

48 Os oes gan y defnyddiwr gwasanaethau hawl i Ofal Nyrsio a Ariennir[5], mae'r Bwrdd Iechyd yn talu £179.79 yr wythnos ar ben y ffioedd y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor. Ac os yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud lleoliad dan ei drefniadau Gofal Iechyd Parhaus (GIP), bydd yn talu ffioedd gwahanol eto.

49 Yn 2019, roedd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu ei ffioedd a'r dull a ddefnyddir i bennu'r gyfradd GIP. Disgwylir i'r adolygiad o ffioedd gymryd hyd at dair blynedd. Os oes gan y defnyddiwr gwasanaethau anghenion gofal cymhleth uwch na'r arfer, bydd y Bwrdd Iechyd yn asesu'r costau ychwanegol ac yn cytuno ar gyfradd uwch na'r cyfraddau GIP safonol.

50 Mewn rhai achosion, bydd cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn cytuno i gydariannu lleoliad. Mae hyn weithiau'n cynyddu cymhlethdod y broses leoli. Mewn achosion o'r fath gall hyn olygu ei bod yn ofynnol llunio cytundeb ar wahân gyda ffi wahanol.

51 Mewn rhai achosion, gall y Bwrdd Iechyd leoli person mewn cartref nyrsio a gallai ei iechyd wella gan olygu na fydd y Bwrdd Iechyd yn atebol mwyach am y costau. Yn yr achosion hyn, gall cynghorau ddod o dan bwysau i dalu'r un cyfraddau ag y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Iechyd, a allai fod yn uwch na'r gyfradd safonol y cytunwyd arni.

52 Mae cyllid caledi COVID-19 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r Bwrdd Iechyd hefyd ac mae wedi gallu defnyddio peth o'r cyllid hwn i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae bod â ffrwd cyllid arall yn ychwanegu cymhlethdod pellach at strwythurau ffioedd cartrefi gofal. Fodd bynnag, yn ei dro gall ychwanegu pwysau pellach ar gynghorau pan ydynt yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y lleoliad y mae darparwyr wedi bod yn cael cyfradd wythnosol uwch amdano ond y mae angen iddynt ostwng yn awr i'r cyfraddau y cytunwyd arnynt.

53 Pan fo anghenion defnyddwyr gwasanaethau'n newid, gall hyn arwain at newidiadau i becynnau ariannu, a phryd hynny gall y cyfrifoldeb am ariannu newid o'r cyngor i'r bwrdd iechyd. Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae gofal a ariennir gan fwrdd iechyd yn rhad ac am ddim i'r defnyddiwr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio gwaith i gefnogi cartrefi gofal i helpu'r cartrefi i adnabod a gwerthuso'n well pryd y mae angen newidiadau i becynnau gofal.

[5] Ystyr Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yw cyllid a ddarperir gan y GIG i dalu cost gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartref gofal neu gartref nyrsio. Pennir y gyfradd yn genedlaethol.

## Mae darparwyr o'r farn bod y ffioedd a delir yn annheg ac anghyfiawn

54 Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn ymdrin â chanlyniadau cyni ariannol am nifer o flynyddoedd. Felly mae'r pwyslais wedi bod ar ddarparu a chomisiynu gwasanaethau am y gost isaf bosibl. I gartrefi gofal mae hyn wedi arwain at graffu ar eu ffioedd i bennu cyfraddau fforddiadwy gyda chydbwysedd yn cael ei daro rhwng hynny a'r angen i ddarparwyr ddal i fod yn hyfyw fel busnesau. Yng Ngogledd Cymru, gwneir hyn trwy ddefnyddio'r pecyn cymorth pennu ffioedd.

55 Cododd darparwyr y siaradom ni gyda hwy yn ystod yr adolygiad hwn bryderon ynghylch y pecyn cymorth a ddefnyddir i gyfrifo'r lefelau ffioedd. Mae maint y cartrefi'n amrywio'n sylweddol, felly gall darbodion maint amrywio. Roedd darparwyr yn derbyn bod angen proses dryloyw i gytuno ar ffioedd ond roeddent yn cwestiynu i ba raddau y mae'r pecyn cymorth yn diwallu'r angen hwn, ac fe wnaethom nodi bod llawer o ddarparwyr yn peidio â rhannu eu cyfrifon. Cydnabyddir yr angen am newid yn y Datganiad lle ymrwymodd partneriaid, yn 2018, i 'Adolygu gwir gost (llawn) cartrefi cyngor a chost gofal yn y cartref o safbwynt cymariaethau gwerth am arian ac i ddatblygu gweithdrefn ymateb frys i ymateb i newidiadau yn y gost o redeg cartrefi neu pan fydd darparwyr yn nodi problem ariannol'. Mae'r Is-grŵp Cost Uned a Modelu Ariannol sy'n cynnwys cynrychiolwyr y darparwyr wedi dechrau gwaith i asesu gwir gost gofal yn unol â Fframwaith 'Let's Agree to Agree' Llywodraeth Cymru.

56 Mae gan rai darparwyr nifer o gartrefi mewn gwahanol rannau o Ogledd Cymru lle mae'r ffioedd y cytunwyd arnynt yn wahanol ar gyfer lefelau gwasanaeth a chostau seilwaith sydd yr un fath yn eu tyb hwy. A gall rhai darparwyr fod â chartrefi mewn rhannau eraill o Gymru lle mae ffioedd yn uwch nag yng Ngogledd Cymru. Er y bydd hyn, mewn llawer o achosion, yn deillio o wahaniaethau lleol mewn costau, mewn rhai achosion gallai'r amrywiadau hyn olygu bod cynghorau eraill i bob pwrpas yn darparu traws-gymhorthdal ar gyfer y ffioedd cartrefi gofal is a delir gan gynghorau Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

57 Mae darparwyr yn cydnabod eu bod yn cystadlu wrth recriwtio staff ond fe godon nhw'r anghydraddoldebau canfyddedig yng nghyfrifiad y pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys costau gofalwyr yn seiliedig ar yr isafswm cyflog[6] tra bo cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn talu'r cyflog byw[7] neu uwch i'w staff eu hunain.

[6] Byddai gan weithiwr 23 oed a throsodd hawl i gyflog byw o £8.91 yr awr.

[7] £9.50 yr awr yw Cyflog Byw'r DU ar gyfer 2021-22.

### Mae comisiynwyr o'r farn mai ychydig o reolaeth sydd ganddynt dros y ffioedd y maent yn eu talu

58 Mae costau cartrefi gofal yn sylweddol. Er enghraifft, byddai gofal sylfaenol mewn cartref gofal yn Sir Ddinbych neu Wynedd yn costio £30,489 y flwyddyn, gan gynyddu i £48,776 ar gyfer gofal mewn cartref nyrsio gyda gofal iechyd parhaus yng Nghonwy neu Sir Ddinbych. Mewn rhai achosion, caiff cynghorau eu gadael weithiau heb unrhyw ddewis ond derbyn cyfrifoldeb am ymrwymiadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd neu berthnasau neu ffrindiau sy'n rhoi'r gorau i dalu ychwanegiadau trydydd parti ar gyfraddau uwch na'r rhai a ddisgrifir yma. Mae hyn yn un o symptomau dau fodel ariannu cenedlaethol ar wahân ar draws y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â rhyngwyneb rhwng partneriaid nad yw wedi'i integreiddio go iawn. Nid yw'n syndod felly bod gan gyrff y sector cyhoeddus ffocws mor frwd ar reoli costau.

## Mae angen i bartneriaid wneud mwy i ddangos eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth gomisiynu darpariaeth mewn cartrefi gofal a gwneud lleoliadau unigol

### Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i sefydlu'n llawn fel rhan o ymarfer

59 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus. I wneud hyn, mae angen iddynt ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae Deddf LlCD yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi pum ffordd o weithio ar waith mewn perthynas â gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae ein harsylwadau ni ar y pum ffordd o weithio mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal fel a ganlyn:

- **Hirdymor**. Mae partneriaid yn wynebu twf sylweddol ym mhoblogaeth hŷn Gogledd Cymru fel y nodir yn Natganiad Siapio'r Farchnad, ond nid yw partneriaid wedi nodi eu cynlluniau ar gyfer diwallu'r anghenion cynyddol am gartrefi gofal a fydd yn bodoli o ganlyniad eto.
- **Atal.** O dan Ddeddf LlCD, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus leoli adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Yn achos angen pobl hŷn am leoliadau mewn cartrefi gofal, mae partneriaid yn wynebu her amlwg gyda'r codiadau a ragwelir yn y boblogaeth hŷn yng Ngogledd Cymru. Mae diffyg

manylder yn Natganiad Siapio'r Farchnad ynglŷn â sut y mae partneriaid yn bwriadu lleihau'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, er bod camau gweithredu ataliol yn amlwg trwy'r ffaith bod y BPRh yn dangos bod partneriaid yn cyflawni'r rhwymedigaethau atal dan y Ddeddf.

- **Integreiddio.** Er bod union eiriad yr amcanion llesiant yn amrywio ar draws cyrff y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, ceir cyffredinrwydd mewn perthynas â gofal i bobl agored i niwed, addasrwydd y lle y mae pobl yn byw a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae partneriaid yng Ngogledd Cymru wedi datblygu Strategaeth Dementia a Strategaeth Gofalwyr, sy'n dangos bod cynllunio integredig yn digwydd yn y meysydd hyn; fodd bynnag, mae diffyg strategaeth neu gynllun cyflawni sy'n gysylltiedig â Datganiad Siapio'r Farchnad yn dynodi bod cynllunio integredig i ddiwallu anghenion pobl hŷn y mae arnynt angen llety mewn cartref gofal yn ei gamau cynnar.
- **Cydweithio**. Mae Deddf LlCD yn datgan bod rhaid i gorff cyhoeddus ystyried sut y gallai cydweithio gydag eraill gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion. Mae partneriaid yn cwrdd mewn ystod o leoliadau i ystyried yr heriau y maent yn eu hwynebu mewn perthynas â'r boblogaeth hŷn gynyddol; fodd bynnag, yr hyn sy'n llai eglur yw sut y mae partneriaid yn 'gweithredu'n' gydweithredol i fynd i'r afael â'r heriau yn y broses gomisiynu.
- **Cynnwys.** Yng Ngogledd Cymru, mae'r BPRh yn cynnwys gofalwr a gall gyfrannu at y busnes yn seiliedig ar ei brofiadau. Fodd bynnag, yn ymarferol mae llawer o drafodaethau'n digwydd y tu allan i gyfarfodydd y BPRh rhwng partneriaid statudol neu mewn is-grwpiau, fforymau neu fyrddau na fyddant yn cynnwys y cynrychiolydd gofalwyr fel rheol. Mae gan bartneriaid yng Ngogledd Cymru brosesau i geisio barn pobl sy'n byw yn y cartref gofal. Er bod y rhai sy'n rhan o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal yn ymwybodol o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, megis y costau y maent yn eu hysgwyddo trwy ychwanegiadau trydydd parti, nid yw partneriaid yn coladu'r profiadau hyn, yn adrodd arnynt nac yn eu meintioli ac nid ydynt wedi gweithredu'n effeithiol fel partneriaid i ddysgu o'r adborth hwn.

## Weithiau nid yw gofynion iaith defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu diogelu, sy'n arwain at anawsterau cyfathrebu

60 Rhoddodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y Gymraeg ar sylfaen gyfartal â'r Saesneg yng Nghymru, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi pennu safonau sy'n rhwymo mewn cyfraith[8] i wella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl ei gael gan rai cyrff cyhoeddus a statudol penodol. Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u rhannu'n bum categori gwahanol sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau a llunio

[8] www.comisiynyddygymraeg.cymru/sefydliadau-cyhoeddus/safonaur-gymraeg

polisi. Mae partneriaid yn gweithio gyda darparwyr i wella mynediad at wasanaethau gofal yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaethau.

61 Dyfarnwyd canmoliaeth arbennig i Fforwm Rhanbarthol Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru am ei waith o hyrwyddo cydweithredu i gyflawni gofynion fframwaith strategol Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag ansawdd y Gymraeg a faint mae ar gael mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

62 Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae siâp y farchnad cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru weithiau'n golygu bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu lleoli mewn rhannau eraill o Gymru neu yn Lloegr, am nad yw natur arbenigol y gofal ar gael yn lleol neu am fod ganddynt gysylltiadau teuluol mewn ardal arall. I berthnasau a ffrindiau gall hyn olygu siwrneiau hir i ymweld â'r defnyddiwr gwasanaethau ac i bobl sydd wedi nodi Cymraeg fel dewis iaith, mae hyn yn gwneud cyfathrebu'n anodd os nad yw'r cartref yn cyflogi staff Cymraeg, gyda chanlyniadau posibl o ran ansawdd y gofal ar gyfer yr unigolyn. Mae hyn hefyd yn gwneud iddynt golli cysylltiad â'u diwylliant a cholli eu hymdeimlad o le.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**


Mae **Arddangosyn 2** yn nodi argymhellion i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n codi o'r adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth. |
| A2 | Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd. |
| A3 | Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol. |
| A4 | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig. |
| A5 | Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

# Atodiad 1



## Siart strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwen Morgan
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Reference:** DO-20-02
**Date issued:** 19 Mawrth 2020

Annwyl Annwen

## Trefniadau gwrth-dwyll

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad ar lefel uchel o drefniadau gwrth-dwyll ar draws 40 o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol. Diben yr adolygiad oedd canfod a yw'r trefniadau ar gyfer atal a darganfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol. Bwriadwn gyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar ein canfyddiadau.

Roedd y gwaith maes lleol yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys gwerthusiad ar lefel uchel o drefniadau gwrth-dwyll y Cyngor, yn seiliedig ar adolygu dogfennau, hunanasesiad a gwblhawyd gan y Cyngor, a rhai cyfweliadau gyda swyddogion perthnasol.

Gan nad yw'r adroddiad cenedlaethol i'w gyhoeddi tan haf 2020, teimlaf ei bod yn werth nodi rhai o'n canfyddiadau allweddol yn fwy ffurfiol oherwydd ein bod wedi canfod rhai cyfleoedd i gryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Rydym yn deall bod eich adnoddau'n gyfyngedig ond teimlwn y byddai'r Cyngor yn elwa o'r canlynol:

- diweddaru'r polisi gwrth-dwyll a llygredigaeth sy'n rhy hen ac a gafodd ei adolygu ddiwethaf, yn ôl pob golwg, mor bell yn ôl â 2012. Deallwn ei fod yn fwriad gan y Cyngor ddiwygio'r polisi hwn yn ystod 2020; dylid rhoi blaenoriaeth i hyn;
- diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll, gan sicrhau ei fod yn cael ei gyfleu i bob aelod o'r staff, trydydd parti ac aelodau'r cyhoedd. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y cynllun yn rhoi cyfarwyddyd i'r rheiny sy'n dymuno codi pryderon ynghylch amheuaeth o dwyll ac yn darparu fframwaith i'w ddilyn wrth ymateb i honiadau o dwyll;

- mae angen i'r Uwch Dîm Arwain ystyried sut y gall atgyfnerthu ei ddull o hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant gwrth-dwyll da, cyfleu neges o ddim goddefgarwch o ran twyll, a nodi ffyrdd y gall addysgu a chodi ymwybyddiaeth o dwyll ymhlith staff;
- cynnal asesiad risg cynhwysfawr o dwyll, gan rannu a thrafod hyn gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio; deallwn y cynlluniwyd i gynnal yr asesiad yn ystod 2020, a dylid rhoi blaenoriaeth i hyn hefyd;
- ystyried y risg o dwyll fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli risg;
- datblygu rhaglen flynyddol o waith gwrth-dwyll rhagweithiol sy'n ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg;
- cyfleu'n glir y strwythur, y rolau a'r cyfrifoldeb mewn perthynas ag atal twyll er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y llinellau atebolrwydd yn glir;
- ystyried system gorfforaethol o reoli achosion i gofnodi a monitro cynnydd achosion posibl o dwyll;
- ystyried defnyddio dadansoddiadau data'n rheolaidd i ddilysu data a darganfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus; ac
- ystyried ffyrdd o ddarparu lefel briodol o wybodaeth yn ymwneud â thwyll ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, a sut y gall y Pwyllgor Archwilio gymryd rôl ragweithiol mewn hyrwyddo materion gwrth-dwyll a chael mwy o oruchwyliaeth dros drefniadau gwrth-dwyll.

O ystyried y cyfleoedd a nodwyd gennym i gryfhau'r trefniadau presennol, byddwn yn cadw golwg ar y maes yma fel rhan o'n gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg ar gyfer 2020-21 ac yn ystyried a oes angen i ni wneud unrhyw waith pellach yn y maes hwn maes o law.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi.

Yn gywir



Derwyn Owen
Cyfarwyddwr Ymgysylltu

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:**<br>**Report to:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:**<br>**Date:** | 08 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:**<br>**Subject:** | Mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru mewn perthynas ag atal twyll |
| **Pennaeth Gwasanaeth:**<br>**Head of Service:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Report Author:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd / Nature and Reason for Reporting:**<br>Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb dros oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a llygredd. Yn yr adroddiad hwn ceir ymateb y Cyngor i lythyr a dderbyniwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â threfniadau atal twyll y Cyngor. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn gynnar yn 2020, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad lefel uchel o drefniadau atal twyll 40 o sefydliadau yng Nghymru, yn cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol. Pwrpas yr adolygiad oedd gweld a oedd trefniadau atal a chanfod twyll y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol. Oherwydd y pandemig, ni chyhoeddodd Archwilio Cymru'r adroddiad cenedlaethol[1] ar ei ganfyddiadau tan fis Gorffennaf 2020.

1.2 Fel rhan o'r adolygiad lefel uchel, cwblhaodd Archwilio Cymru waith maes lleol yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Ysgrifennodd Cyfarwyddwr Ymgysylltu'r Archwiliad at y Prif Weithredwr i esbonio rhai o'u prif ganfyddiadau yn fwy ffurfiol gan eu bod wedi canfod rhywfaint o gyfleoedd i atgyfnerthu trefniadau atal twyll y Cyngor, er eu bod yn gwerthfawrogi nad oes gan y Cyngor adnoddau di-ben-draw.

1.3 Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

[1] 'Gwella Ein Perfformiad' – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru, Archwilio Cymru Gorffennaf 2020 https://www.audit.wales/publication/raising-our-game-tackling-fraud-wales

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu a nodi’r cynnydd o ran mynd i’r afael â’r argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru mewn perthynas ag atal twyll.

## ATODIAD 1 – CYNLLUN GWEITHREDU

| ARGYMHELLIAD ARCHWILIO CYMRU | YMATEB | SWYDDOG CYFRIFOL | DYDDIAD CYFLAWNI |
|---|---|---|---|
| Diweddaru'r polisi atal twyll a llygredd, sydd heb gael ei adolygu ers 2012 yn ôl pob golwg. Deallwn fod y Cyngor yn bwriadu diweddaru'r polisi yn ystod 2020; a dylid blaenoriaethu hyn. | Mae'r Polisi Atal Twyll a Llygredd yn rhan o'r Cyfansoddiad (5.6) ac felly caiff ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r adolygiad rheolaidd o'r Cyfansoddiad.<br><br>Yn ystod 2020/21 fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol flaenoriaethu gwaith archwilio sicrwydd mewnol craidd yn seiliedig ar risg wrth i staff gael eu hadleoli i gynorthwyo gydag ymateb y Cyngor i'r pandemig. Nawr bod y staff a gafodd eu hadleoli wedi dychwelyd a bod y swydd wag Uwch Archwilydd wedi'i llenwi, mae gennym adnoddau ar gael i'n galluogi i ddechrau ar y raglen waith atal twyll. Cyflwynwyd Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'n darparu cyfeiriad ar gyfer cyflawni gweithgareddau atal twyll dros y tair blynedd nesaf, gymesur â lefel y risg twyll a bennir. Mae diweddaru'r polisi atal twyll ymhlith un o dasgau blaenoriaeth y Strategaeth. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Medi 2022 |
| Diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll, sicrhau ei fod yn cael ei gyfathrebu i'r holl staff, trydydd partïon ac aelodau'r cyhoedd. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu cyfeiriad ar gyfer y rheiny sy'n dymuno mynegi pryder am achos posib o dwyll a darparu | Fel yr uchod. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adolygu a diweddaru'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn ystod 2022. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Medi 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| fframwaith ar gyfer ymateb i honiadau o dwyll. | | | |
| Rhaid i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyried sut y gall gryfhau ei ddull o hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, i rannu'r neges na chaiff twyll ei oddef o gwbl, a dod o hyd i ffyrdd o addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymysg y staff ynglŷn â thwyll. | Mae nifer o ddulliau ar gyfer hyrwyddo diwylliant atal twyll wedi cael eu cynnwys yn y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2021-24, a gafodd ei adolygu gan yr UDA cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys pecyn hyfforddi e-ddysgu, sesiynau briffio rheolaidd, rhannu rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol ac adolygu, adnewyddu a hyrwyddo'r Polisi Atal Twyll. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Rhagfyr 2022 |
| Cynnal asesiad risg twyll cynhwysfawr, rhannu a thrafod hyn gyda'r UDA a'r Pwyllgor Archwilio; deallwn fod asesiad ar y gweill yn ystod 2020, a dylid blaenoriaethu hyn. | Fel yr uchod, caiff rhaglen o weithgareddau atal twyll, yn cynnwys asesiad risg twyll, eu cyflawni yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2021-24. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Rhagfyr 2022 |
| Ystyried risg twyll fel rhan o'r broses rheoli risg gyffredinol. | Bu i'r UDA gydnabod twyll fel risg yn y gofrestr risgiau corfforaethol ym mis Awst 2020. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risgiau corfforaethol ym mis Rhagfyr 2021, trosglwyddodd yr UDA risg twyll i'r gofrestrau risgiau gwasanaethau i'w reoli ar lefel gwasanaeth. | Uwch Dîm Arweinyddiaeth | Wedi'i gyflawni |
| Datblygu rhaglen flynyddol o waith atal twyll rhagweithiol sy'n ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg. | Cyflwynwyd Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'n darparu cyfeiriad ar gyfer y gwaith atal twyll rhagweithiol a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Wedi'i gyflawni |
| Cyfathrebu strwythur, rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag atal twyll yn glir er mwyn sicrhau | Cyflwynwyd Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'n cynnwys ac | Pennaeth Risg ac Archwilio | Medi 2022 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| bod y ffiniau cyfrifoldeb yn glir i bawb. | yn blaenoriaethu amcan i adolygu a diweddaru'r polisi atal twyll. Bydd y polisi'n nodi'r strwythurau, rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag atal twyll. | | |
| Ystyried system rheoli achosion gorfforaethol i gofnodi a monitro cynnydd achosion posib o dwyll. | Nid yw nifer yr achosion yn cyfiawnhau'r gost o gaffael system rheoli achosion gorfforaethol i gofnodi a monitro cynnydd achosion posib o dwyll. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Ddim yn berthnasol |
| Ystyried dadansoddi data'n rheolaidd i ddilysu data a chanfod gweithgareddau a allai fod yn dwyllodrus. | Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn dadansoddi data yn rheolaidd gan ddefnyddio meddalwedd dadansoddol pwrpasol (ActiveData For Excel®) yn ystod archwiliadau perthnasol. Hefyd, ers recriwtio Uwch Archwilydd ym mis Rhagfyr 2021, mae adolygiad cynhwysfawr o'r adroddiadau paru data a ddarparwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol bellach ar waith. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Wedi'i gyflawni |
| Ystyried ffyrdd o ddarparu lefel briodol o wybodaeth yn ymwneud â thwyll i'r Pwyllgor Archwilio, a sut y gall y Pwyllgor Archwilio chwarae rhan ragweithiol o ran hyrwyddo materion atal twyll a chael mwyn o oruchwyliaeth dros drefniadau atal twyll. | Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2020-21 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2020 a Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod i ddarparu gwybodaeth i'r aelodau ar weithgarwch atal twyll y tîm Archwilio Mewnol. | Pennaeth Risg ac Archwilio | Wedi'i gyflawni |

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

Medi 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen manylder cyfreithiol.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych wedi'i defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
Ebost post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit

This document is also available in English

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Negeseuon allweddol | 7 |
| Ffeithiau allweddol | 9 |
| Argymhellion | 10 |
| **Prif adroddiad** | **13** |
| Y Gorffennol: Sut mae canol trefi wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf | 13 |
| Y Presennol: Canol trefi heddiw | 25 |
| Y Dyfodol: Yr her o adfywio canol trefi yn y dyfodol | 39 |
| **Atodiadau** | **50** |
| Atodiad 1 | 51 |
| Atodiad 2 | 52 |
| Atodiad 3 | 53 |
| Atodiad 4 | 55 |

# Gwlad o drefi bach rhyngddibynnol yw Cymru

1 Cenedl o drefi bychain yw Cymru. Trefi yw lle mae pobl yn byw, gweithio a chwarae. Mae canol trefi yn ganolfannau hanesyddol a diwylliannol. Mae yno fannau cymunedol, celf gyhoeddus a mannau i ymgynnull. Canol trefi yw'r mannau lle gwelwn ein hadeiladau a'n tir cyhoeddus mwyaf nodedig. Mae ychydig dros 2.5 miliwn o bobl yng Nghymru yn byw mewn trefi a dinasoedd[1], ac mae trefi wrth wraidd bywyd Cymru o hyd ac yn lleoedd y mae pobl yn eu gwerthfawrogi a'u caru. Yn ôl ymchwil Deall Lleoedd Cymru Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) a'r Sefydliad Materion Cymreig, mae 192 o leoedd yng Nghymru â 2,000 neu fwy o drigolion y gellir eu dosbarthu'n dref neu bentref mawr; lleoedd yr ystyria pobl yn dref 'leol' iddynt – **Arddangosyn 1**.



1 citypopulation.de/en/uk/wales/ – mae aneddiadau â thros 2,000 o boblogaeth wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Rydym wedi defnyddio data Deall Lleoedd Cymru gan ei fod yn galluogi deall a dangos cyd-ddibyniaeth trefi yn well.

**Arddangosyn 1: y 192 o leoedd yng Nghymru gyda 2,000 neu fwy o drigolion**


Mae Cymru'n wlad o drefi, pentrefi a chymunedau rhyngddibynnol bach.



Ffynhonnell: Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru/Sefydliad Materion Cymreig, Deall Lleoedd Cymru, datganiad Rhagfyr 2020

2 Mae'r hyn sydd gan dref, a'r hyn y mae'n ei ddarparu, yn adlewyrchu llawer o wahanol bethau; ei daearyddiaeth a'i lleoliad, cyfoeth cymharol y boblogaeth, ei seilwaith, ei hamwynderau a'i hygyrchedd. Felly, bydd gan drefi broblemau'n gyffredin. Ond bydd ganddynt amgylchiadau gwahanol iawn hefyd. Nid oes unrhyw ddau le yr un fath ac mae angen atebion gwahanol i'r heriau sydd o'u blaenau. Felly mae'r berthynas rhwng trefi yn amrywio. Mae rhai yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar drefi cyfagos oherwydd bod ganddynt ystod dda ac eang o wasanaethau a swyddi. Mae eraill yn fwy dibynnol, oherwydd mae sefydliadau angori wedi diflannu dros amser, mae cyflogaeth wedi symud i ffwrdd, a phrin yw'r gwasanaethau hanfodol sy'n parhau. Yn y mannau dibynnol hyn, mae pobl yn aml yn dibynnu ar gael at drefi cyfagos ar gyfer gwaith, i brynu nwyddau, cwrdd â ffrindiau a defnyddio gwasanaethau hamdden ac adloniant.

Mae **Arddangosyn 2** yn rhoi darlun o ryngddibyniaeth lleoedd o fewn awdurdod lleol gan ddefnyddio Rhondda Cynon Taf fel enghraifft.




**1.** Aberdâr
**2.** Hirwaun
**3.** Abercynon
**4.** Brynna
**5.** Beddau
**6.** Pentre'r Eglwys
**7.** Glynrhedynog
**8.** Glyncoch
**9.** Llanharry / Pontyclun
**10.** Llantristant
**11.** Aberpennar
**12.** Pontypridd
**13.** Porth / Hendreforgan
**14.** Rhondda
**15.** Ffynnon Taf
**16.** Tonypandy
**17.**Tonyrefail
**18.** Treherbert
**19.** Treorci
**20.** Pendyrus / Penrhys
**21.** Ynysybwl

# Negeseuon allweddol

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi prif ganfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn adfywio canol eu trefi. Nodir y sail dystiolaeth ar gyfer ein hadolygiad yn **Atodiad 1**. Rydym wedi dod i'r casgliad **bod canol trefi wrth wraidd bywyd Cymru a'u bod yn gallu bod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy, ond mae mynd i'r afael â'r heriau lawer sy'n eu hwynebu yn mynnu penderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol.**

4 Yn ystod y 75 mlynedd diwethaf, nid oes unman wedi newid cymaint â'r stryd fawr. Yn draddodiadol, y stryd fawr oedd lleoliad yr holl brif weithgareddau, ond bu'n destun chwyldro cyflym ac mae newid cymdeithasol a thechnolegol wedi effeithio'n sylweddol arni.

5 Mae llawer o'r heriau sy'n wynebu'r stryd fawr heddiw wedi'u gwreiddio ym mwriadau polisi cynllunio'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yn sgil cyflwyno cyfundrefn defnydd tir newydd, roedd gan awdurdodau lleol y grym i fynd i'r afael ag ardaloedd trefol a ddifrodwyd gan ryfel. Rhwng 1950 a 1980, rhoddodd awdurdodau lleol flaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu lle manwerthu newydd a mwy o faint.

6 Fodd bynnag, ers hynny, mae twf mannau manwerthu y tu allan i'r dref, colli 'gwasanaethau hanfodol' fwyfwy o ganol trefi – banciau, swyddfeydd post a gwasanaethau cyhoeddus – a thwf siopa ar-lein wedi cyfrannu at ddirywiad cyson llawer o ganol trefi. Ac mae'r pandemig wedi ychwanegu at y problemau hyn.

7 At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi ymateb yn dda i gefnogi busnesau canol trefi yn ystod COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi neu ddenu bron i £900 miliwn yn uniongyrchol yn ystod y saith mlynedd diwethaf i helpu i adfywio canol trefi. Er y cyllid hwn, mae canol trefi'n aml mewn trafferth. Awdurdodau lleol yw'r cyrff cyhoeddus allweddol i helpu i adfywio canol trefi, ond yn aml nid oes ganddynt allu na sgiliau i gyflawni'r adfywio cynaliadwy sydd ei angen. Ni ddefnyddir y pwerau a all helpu i ysgogi adfywio canol trefi yn effeithiol nac yn gyson.

8 Mae adfywio canol trefi yn flaenoriaeth genedlaethol o hyd, ond nid yw polisi 'canol tref yn gyntaf' Llywodraeth Cymru wedi'i wreiddio'n llawn eto. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau am y strategaethau sydd eu hangen heddiw i helpu i greu canol trefi cynaliadwy. Yn aml, y man cychwyn ar gyfer trafodaethau fu i'r llywodraeth – genedlaethol a lleol – ddiffinio'r polisïau a'r offerynnau y cynigiant eu defnyddio i fynd i'r afael â phroblemau canol trefi. Dyma fu'r dull yng Nghymru, ond ar y cyfan nid aeth i'r afael yn llwyr â'r problemau niferus yng nghanol ein trefi.

9 Mae'r heriau sy'n wynebu Cymru yn dilyn COVID-19 yn debyg iawn i adfywiad Prydain ar ôl y rhyfel ym 1945. Mae angen i lywodraeth genedlaethol a lleol ddarparu atebion integredig a gwneud penderfyniadau dewr wrth symud ymlaen, gan ddarparu arweinyddiaeth onest, gref a deinamig. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i flaenoriaethu ac arwain ar gynllunio lleoedd, ond mae angen iddynt fod yn glir ynghylch diben canol eu trefi a chynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, cynghorau tref a chymuned, cymunedau a busnesau mewn penderfyniadau. Rhaid gwella prosesau gwerthfawrogi a defnyddio gwybodaeth i ddeall problemau'n llawn a nodi'r atebion gorau. Bydd yn rhaid hefyd i awdurdodau lleol ymyrryd mwyfwy i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi.


# Ffeithiau Allweddol

Rhwng **2012** a **2020**, cwtogwyd **28.8%** ar ganghennau banc a chymdeithas adeiladu gan ostwng y nifer o **695** i **495**. Mae nifer peiriannau ATM wedi gostwng **18%** yn y tair blynedd ddiwethaf, i lawr o **3,189** o beiriannau i **2,616**.




Mae **192** o leoedd yng Nghymru â thros **2,000** o drigolion.

Mae niferoedd swyddfeydd post wedi gostwng fymryn sef **3.9%** yn y degawd diwethaf ac ar hyn o bryd mae **925** o ganghennau ledled Cymru.








Ers mis Ionawr **2020**, mae **64** o gwmnïau manwerthu wedi methu, gan arwain at gau **6,882** o siopau ac effeithio ar **133,600** o gyflogeion ym Mhrydain Fawr.

Yn y **12** mis diwethaf, cynyddodd gwerthiannau ar-lein **10%** yn y DU, a'u gwerth **30%**, sef cynnydd o **£23 biliwn**.



Ers **2014**, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi a denu ychydig o dan **£900** miliwn i helpu i adfywio canol trefi.




Mae **un** o bob **saith** siop ar y stryd fawr yng Nghymru yn wag.

## Argymhellion

10 Nodir ein hargymhellion isod. Disgwyliwn i bob awdurdod lleol ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, a bod ei bwyllgor archwilio yn cael yr adroddiad hwn ac yn monitro ei ymateb i'n hargymhellion mewn modd amserol.

**Arddangosyn 3: argymhellion**

### Argymhellion

**A1** Nid yw ardrethi annomestig wedi'u hadolygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw'r lefelau a godir yn adlewyrchu'r rhenti presennol sy'n cael eu cyflawni mewn llawer o ganol trefi. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaw gwyliau'r taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.

**A2** Effeithir yn andwyol ar lawer o fusnesau canol tref drwy godi tâl am barcio ceir, mynediad at gludiant cyhoeddus a seilwaith trafnidiaeth gwael. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafnidiaeth sy'n wynebu canol trefi ac yn cytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.

**A3** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu a denu ychydig o dan £900 miliwn yn uniongyrchol drwy 13 o gynlluniau ariannu i helpu i adfywio canol trefi. Fodd bynnag, ystyrir bod rhai agweddau ar reolaeth Llywodraeth Cymru ar y cyllid yn broblemus. Er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol gael y mwyaf o effaith cyllid a mynd i'r afael â'r problemau mwy anodd a hirsefydlog a fyddai'n helpu i drawsnewid canol eu trefi, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:

- yn cydgrynhoi cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chwtogi cymaint â phosibl ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol;

## Argymhellion

- yn cefnu ar gylchoedd cynnig blynyddol o blaid ddyraniadau aml-flwyddyn; ac
- yn ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i refeniw i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a chapasiti staff.

**A4** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant i bob un o'r 22 awdurdod lleol ar y ffordd orau o ddefnyddio pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion sy'n bodoli eisoes, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol i gefnogi adfywio. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau presennol hyn sydd ar gael i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i ganol trefi drwy:

- ddefnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol pan fydd popeth arall yn methu;
- integreiddio strategaethau gorfodi gyda strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd mwy effeithiol o sgiliau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes; a
- sicrhau bod capasiti a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â chynghorau eraill i sicrhau canlyniadau da.

**A5** Nod dull 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru yw rhoi iechyd canol trefi wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a chymunedau. Mae hyn yn mynnu lefel uchel o integreiddio rhwng fframweithiau polisi trawsbynciol a phenderfyniadau i hyrwyddo canol trefi uwchlaw llawer o bethau eraill. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn yn ymarferol, ei disgwyliadau gan bartneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.

## Argymhellion

**A6** Mae canol trefi'n newid, ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn y newidiadau hyn a chynllunio i reoli'r newidiadau hyn. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio ein hofferyn adfywio i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi (mae'r offeryn yma).

# Y Gorffennol: Sut mae canol trefi wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf

01

# Mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar lawer o ganol trefi Cymru

## Mae llawer o'r heriau sy'n wynebu'r stryd fawr heddiw wedi'u gwreiddio ym mwriadau polisi cynllunio'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd

1.1 Mae golwg canol ein trefi heddiw wedi'i gwreiddio mewn penderfyniadau a wnaed yn sgil yr Ail Ryfel Byd. Cyn y 1940au, roedd gan ganol trefi gymysgedd o swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd – defnydd preswyl, masnachol ac anfasnachol, clybiau cymdeithasol ac eglwysi. Roedd canol trefi yn aml yn lleoedd bywiog gyda phobl yn cymysgu a chymdeithasu drwy gydol y dydd a chyda'r nos. Ond erbyn 1945, roedd llawer o drefi a dinasoedd ym Mhrydain Fawr wedi'u difrodi ac mewn cyflwr gwael o ganlyniad i ymgyrchoedd bomio'r Ail Ryfel Byd.

1.2 Mewn ymateb, cyflwynodd y senedd Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947[2]. Roedd y Ddeddf hon yn galluogi awdurdodau lleol i gaffael trwy rym ardaloedd o ddifrod bomio i'w hailddatblygu wrth dalu iawndal i’r perchnogion. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gynnal arolwg a llunio cynllun datblygu tir i gynnwys safleoedd diwydiannol, ardaloedd preswyl, gwasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth. Dros amser, mae hyn wedi esgor ar y system cynllunio cyhoeddus gynhwysfawr a wyddom heddiw.

1.3 Yn bwysig, roedd y pwerau newydd yn galluogi awdurdodau lleol i adfywio canol eu trefi a’u haddasu at ddibenion gwahanol. O'r 1950au ymlaen, cychwynnodd llawer o awdurdodau lleol ar raglenni datblygu uchelgeisiol gan ddefnyddio pwerau prynu gorfodol[3] i gaffael safleoedd allweddol a'u darparu ar gyfer datblygiadau newydd. Ystyriwyd mai canol trefi oedd yr ardaloedd mwyaf gwerthfawr oherwydd nifer yr ymwelwyr, seilwaith, gweithgarwch busnes, gwerthoedd tir ac eiddo tiriog, gwasanaethau ac ardrethi annomestig. Ac o fewn canol trefi, siopa oedd â'r gwerth mwyaf ar y stryd fawr.

1.4 O ganlyniad, daeth manwerthu'n sbardun allweddol i adfywio canol trefi. Drwy ehangu ardaloedd siopa canolog, gallai awdurdodau lleol gynhyrchu mwy o incwm drwy ardrethi annomestig a chreu cyfoeth mewn trefi drwy ddenu mwy o siopwyr.

2 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 (legislation.gov.uk)

3 Mae pwerau prynu gorfodol yn arf pwysig i grynhoi ynghyd y tir sydd ei angen i helpu i sicrhau adfywiad trefol a gwledig, seilwaith hanfodol, adfywio cymunedau, a hyrwyddo busnes, ac arwain at welliannau mewn ansawdd bywyd.

Ond, yn sgil yr ymgyrch i ailddatblygu a chodi gwerthoedd eiddo, roedd canol trefi yn dibynnu'n fawr ar siopa. Trodd strydoedd mawr o fod yn lleoedd 24 awr bywiog yn ardaloedd a oedd, fwyfwy, yn gyfyngedig eu pwrpas y tu allan i oriau masnachu.

1.5 Yn y pen draw, yn sgil adfywio a arweiniwyd gan fanwerthu, crëwyd hefyd orgyflenwad o siopau, oherwydd awdurdodau lleol, nid prif amodau'r farchnad, a oedd yn pennu a fyddai datblygiadau siopa newydd mawr yn digwydd ai peidio. Arweiniodd twf siopa canol trefi hefyd at gystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol a threfi i gael y siopau gorau a'r cadwyni manwerthu mwyaf blaenllaw. Ystyriwyd y rhain yn aml yn arwydd pwysig o 'statws' a 'ffyniant'. Mewn rhai ardaloedd, fel De-ddwyrain Cymru a llain arfordirol Gogledd Cymru, ailddatblygodd mwy a mwy o drefi mewn ardal ddaearyddol fach ganol eu trefi gan greu lefelau anghynaliadwy o fanwerthu.

1.6 Er bod y twf manwerthu wedi creu ardrethi annomestig a gwerthoedd eiddo uwch, mae manwerthu fel busnes yn opsiwn gwael ar gyfer adfywio economaidd. Yn gyffredinol, mae swyddi yn y sector yn isel eu sgiliau, yn talu'n isel, ac yn aml yn ansicr. Defnyddir arloesi a thechnolegau newydd yn bennaf i leihau'r niferoedd a gyflogir a lleihau costau. Ac yn y pen draw, mae manwerthu'n ymwneud ag 'amsugno' incwm gwario mewn ardal yn hytrach na 'chreu' cyfoeth newydd.

## Mae twf manwerthu y tu allan i'r dref wedi cyfrannu'n fawr at ddirywiad canol trefi

1.7 Erbyn y 1980au, daeth tir ac eiddo manwerthu yng nghanol trefi yn fwyfwy costus, yn enwedig o gymharu â thir rhad ar gyrion trefi a dinasoedd. Ystyriwyd hefyd fod ardrethi annomestig ar y stryd fawr yn atal datblygwyr. Roedd rhai canol trefi lle tyfodd manwerthu'n sylweddol yn y 1950au a'r 1960au bellach mewn cyflwr gwael ac roedd angen eu moderneiddio. Roedd y newidiadau hyn, ynghyd â llacio cyfreithiau cynllunio yn y 1980au[4], yn annog manwerthu y tu allan i'r dref.

1.8 Roedd nifer o fanteision penodol i fanwerthu y tu allan i'r dref. Mae'r gwelliannau yn y rhwydwaith ffyrdd, datblygu traffyrdd a thwf mewn perchnogaeth ceir[5], wedi'i gwneud yn fwy deniadol siopa y tu allan i'r dref. Roedd yn llawer haws i siopwyr gyrraedd yr ardaloedd hyn, gan ganiatáu i bobl yrru'n gyflym, ac yn aml gyda llai o dagfeydd, i'r parc manwerthu yn hytrach na theithio i ganol tref.


4 M Ball, Coleg Birkbeck, Prifysgol Llundain, The 1980s Property Boom, 1993

5 Mae'r RAC yn amcangyfrif bod 2.5 miliwn o gerbydau ar ffyrdd Prydain ym 1952. Erbyn mis Rhagfyr 2020, roedd hyn wedi cynyddu i 38.6 miliwn o gerbydau trwyddedig. Ffynhonnell: Spaced Out a Motoring FAQs

Gallai siopwyr ymweld â nifer o siopau'n gyflym ac yn effeithlon, a'r rheini'n aml o dan yr un to ac yn ddiogel rhag y tywydd. Gyda lleoedd parcio am ddim a siopau cadwyn cenedlaethol mwy o faint, roeddent yn cynnig mwy o amrywiaeth ac opsiynau rhatach na'r stryd fawr draddodiadol.

1.9 Nid yw'n syndod bod twf siopa ar gyrion trefi wedi cael effaith andwyol ar ganol trefi gan arwain at 'Effaith y Doesen' – sef creu twll yng nghanol trefi wrth i sefydliadau, siopau a busnesau symud o ganol y dref i'r cyrion neu roi'r gorau i weithredu. Ar y stryd fawr a arferai ffynnu, erbyn hyn mae mwyfwy o siopau wedi cau. Yn aml, byddai safleoedd gwag yn troi'n adfeiliedig ac yn ddolur llygad, gan ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y busnesau a arhosodd yn aml yn ei chael yn anodd a, chyn hir, roedd canol trefi yn lleoedd annymunol i fasnachu oddi yno ac ymweld â nhw. Mae **Arddangosyn 4** yn rhoi darlun o'r newidiadau hyn gan ddefnyddio Merthyr Tudful fel enghraifft.

**Arddangosyn 4: Enghraifft o dirwedd canol tref sy'n newid - Merthyr Tudful**




**1.** Canol y dref 1900's
**2.** Tydfil Square Shopping Centre 1980 a Beacon Place 2000
**3.** Cyfartha Retail 2005
**4.** Trago Mill 2016

## Mae llai a llai o 'wasanaethau hanfodol' yn parhau yng nghanol trefi

1.10 Mae llawer o gwsmeriaid yn gwerthfawrogi gwasanaethau wyneb yn wyneb ac ystyrir yn aml eu bod yn chwarae rhan hanfodol mewn cydlyniant cymunedol, yn enwedig yng nghanol trefi heb lawer o amwynderau eraill. Yn aml, teimlir dirywiad ar ei waethaf yng nghanol trefi pan fydd sefydliadau angori ar y stryd fawr yn cael eu colli neu'n cau, yn enwedig banciau, cymdeithasau adeiladu a swyddfeydd post.

1.11 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cwtogwyd yn sylweddol ar y gwasanaethau hanfodol hyn yng nghanol trefi ledled Cymru. Rhwng 2012 a 2020, gostyngodd canghennau banc a chymdeithasau adeiladu yng Nghymru 28.8%, gan ostwng o 695 i 495. Mae nifer y peiriannau ATM hefyd wedi gostwng 18% yn ystod y tair blynedd diwethaf i lawr o 3,189 o beiriannau ym mis Gorffennaf 2018 i 2,616 ym mis Chwefror 2021[6]. Mae niferoedd swyddfeydd post wedi gostwng fymryn sef 3.9% yn ystod y degawd diwethaf ac ar hyn o bryd mae 925 o ganghennau ledled Cymru.

1.12 Nododd mwyafrif llethol y busnesau (79%) a'r dinasyddion (68%) a holwyd gennym nad oedd y gwasanaethau hanfodol hyn ar gael yng nghanol eu tref leol. Mae colli gwasanaethau bancio ffisegol yn effeithio'n uniongyrchol ar fusnesau. Mae llai o bobl yn ymweld â chanol trefi heb fanciau, cymdeithasau adeiladu na swyddfeydd post. Dengys ymchwil fod gan fusnesau canol trefi 20% yn fwy o elw pan fydd banc a swyddfa bost yng nghanol eu tref. Mae busnesau bach yn ddefnyddwyr sylweddol canghennau a gall diffyg mynediad at ganghennau greu problemau i rai microfusnesau. Mae tuag 20% o fusnesau bach sydd â throsiant o dan £2 filiwn yn defnyddio canghennau yn brif ddull bancio iddynt[7].

## Mae twf parhaus siopa ar-lein a gofynion newidiol siopwyr wedi effeithio'n andwyol ar fanwerthu yng nghanol trefi


1.13 Mae'r rhyngrwyd wedi newid y ffordd rydyn ni'n siopa. Mae hyd yn oed y rheini ohonom nad ydym yn prynu'n rheolaidd ar-lein yn chwilio ar-lein am brisiau, manylebau cynnyrch ac argaeledd cyn mynd i'r stryd fawr. Mae llawer ohonom yn ei chael yn haws archebu nwyddau a gwasanaethau drwy wefan, heb fod amseroedd agor siopau yn cyfyngu arnom ac o gysur ein cartref, yn hytrach na chwilio drwy silffoedd mewn siop. Mae manwerthwyr yn cydnabod bod y rhyngrwyd yn trawsnewid y ffordd y mae cwsmeriaid yn siopa, gan ail-lunio'r stryd fawr o ganlyniad. Dengys **Arddangosyn 5** fod gwerthiannau ar-lein wedi cynyddu 10% yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf, a bod eu gwerth wedi cynyddu 30%, sy'n £23 biliwn o dwf.

6 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Bank branch and ATM statistics, 19 Ebrill 2021

7 Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, When bank closures bite: the picture across the UK,13 Mawrth 2019.

**Arddangosyn 5: gwerthiannau rhyngrwyd yn ganran o'r holl werthiannau manwerthu yn y DU 2013-2021**

Dyblodd gwerthiannau ar-lein a symudol rhwng 2013 a 2021.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Retail Sales Index time series

1.14 Mae ymchwil yn amcangyfrif mai gwerth gwerthiannau ar-lein yn 2021 yw £141.3 biliwn[8]. Dengys ein harolygon fod 89% o ddinasyddion wedi defnyddio gwasanaethau ar-lein yn fwy nag o'r blaen ers dechrau'r pandemig a bod 74% o fusnesau manwerthu canol trefi wedi cyflwyno gwasanaethau ar-lein am y tro cyntaf. Mae'r DU yn siopa mwy ar-lein ac yn defnyddio dyfeisiau symudol i siopa mwy nag unrhyw wlad arall yn Ewrop[9]. Mae siopa ar-lein wedi'i wreiddio'n dda yn ymddygiad defnyddwyr y DU a rhagwelir y bydd yn parhau i dyfu, er bod niferoedd eithaf mawr o oedolion yn parhau i fod 'all-lein' yn hytrach nag 'ar-lein' mewn rhai ardaloedd yng Nghymru[10]

8 UK Retail Ecommerce Sales, 2019-2024 (www.emarketer.com)

9 Canolfan Ymchwil Manwerthu, Online: UK, Europe & N. America 2020 estimates

10 Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol er nad yw 8.7% o boblogaeth y DU byth neu'n anaml yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae gan Gymru rai o'r lefelau defnydd isaf. Ym Mhowys, nid yw 20% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd neu anaml y maent yn gwneud hynny (heb ddefnyddio gwasanaethau ar-lein o fewn tri mis), ac felly hefyd 15% o bobl yng nghymoedd De Cymru a Gwent.

1.15 Mae hyn oll wedi cael effaith fawr ar fanwerthu'r stryd fawr a bydd yn parhau i gael effaith fawr arno. Ers mis Ionawr 2020, mae 64 o gwmnïau manwerthu wedi methu ym Mhrydain Fawr gan arwain at gau 6,882 o siopau ac yn effeithio ar 133,600 o weithwyr erbyn mis Mai 2021[11]. Bu canolfannau siopa yn arbennig o agored i effeithiau'r pandemig, a hwythau'n bennaf â chyfran is o fanwerthu 'hanfodol', mwy o siopau adrannol ac yn agored i lefelau uwch o gystadleuaeth ar-lein. Mae ymchwil yn awgrymu colled net o 402 o siopau cadwyn cenedlaethol yn peidio â masnachu yng Nghymru yn ystod 2020[12].

1.16 Rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Rhagfyr 2020, cododd unedau manwerthu gwag o 4.9% i 8.8% ar barciau manwerthu; o 11.2% i 12.5% ar y stryd fawr; ac o 13.2% i 15.6% mewn canolfannau siopa[13]. Ym mis Ebrill 2021, adroddodd Consortiwm Manwerthu Prydain fod un o bob saith siop bellach yn wag. Mae hyn yn celu gwahaniaethau enfawr. Mae cyrchfannau siopa deniadol mwy o faint, boed mewn canolfannau trefol ffyniannus, neu drefi glan môr cefnog, yn gwneud yn dda. Ym mhen arall y sbectrwm, mae gan drefi llai niferoedd uwch eto o leoedd gwag ac maent yn ei chael yn anodd darparu'r ansawdd profiad a chyfleustra y mae siopwyr am eu cael.

1.17 Mae lleoedd gwag cynyddol hefyd yn effeithio ar landlordiaid, a all ychwanegu problemau pellach i ganol trefi. Gall y twf mewn lleoedd gwag atal buddsoddwyr rhag creu lle manwerthu newydd neu wella safleoedd sy'n bodoli eisoes oherwydd y gostyngiad yn y gyfradd adennill debygol. Mae perygl hefyd na fydd safleoedd yn cael eu hailddatblygu oherwydd perchnogaeth dameidiog ac anawsterau eraill sy'n gysylltiedig â'u lleoliadau, yn enwedig os caiff cyfyngiadau newid defnydd amhriodol eu gosod gan awdurdodau lleol.

1.18 Gyda thwf siopa ar-lein, cafwyd newid mwy cynnil hefyd mewn agweddau eraill ar ymddygiad siopwyr. Yn y gorffennol, roedd manwerthu'n ymwneud yn bennaf â phrynu nwyddau hanfodol – bwyd a dillad – ac roedd cyfleustra, a bod yn lleol, yn allweddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae manwerthu wedi tyfu i ganolbwyntio ar foethusrwydd a phrofiad. Yn aml, cynigir y bargeinion gorau am eitemau 'moethus' mwy costus fel ffonau clyfar a chyfrifiaduron personol mewn canolfannau manwerthu mwy o faint, ac yn aml nid ydynt ar gael mewn trefi lleol. I rai, mae siopa hefyd yn rhywbeth llai 'ymarferol' ac yn hoff hobi erbyn hyn. Gwibdaith o weithgaredd sy'n canolbwyntio ar 'brofiad' ac yn seiliedig ar fwyta allan, cymdeithasu, adloniant, cwrdd â theulu a ffrindiau a mynd i ddigwyddiadau.

11 y Ganolfan Ymchwil Manwerthu, Who's Gone Bust in UK Retailing in 2019-2021?

12 pwc, Store Openings and Closures - 2021

13 Ymchwil gan Statista, ar gael ar eu gwefan.

1.19 Mewn byd lle mae bron popeth yn ddigidol, gall buddsoddi mewn seilwaith a sgiliau sylfaenol digidol chwarae rhan hanfodol wrth adfywio strydoedd mawr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r cynnig yn y rhan fwyaf o ganol trefi Cymru yn gryf. Canfu ein harolwg dinasyddion nad oes gan drefi gynnig digidol effeithiol ar y cyfan gyda chysylltedd gwael, a phrinder Wi-Fi am ddim ac effeithiol. Mae hyn yn atal pobl, yn enwedig pobl iau, rhag ymweld.

## Mae ardrethi annomestig yn parhau i wneud y rhan fwyaf o ganol trefi yn lleoedd anneniadol i fuddsoddi ynddynt, er bod croeso i'r 'gwyliau' talu presennol

1.20 Treth eiddo flynyddol yw ardrethi annomestig a delir ar werth ardrethol yr eiddo y mae pob busnes yn ei feddiannu. Mae'r gwerth ardrethol yn ffigur tybiannol a gyfrifir o ran rhent tebygol yr eiddo. Mae ailbrisio ardrethi annomestig fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd ac fe'i gwneir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Daeth yr ailbrisiad diweddaraf yng Nghymru i rym ym mis Ebrill 2017, ac mae'r un nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2023 ar hyn o bryd[14]. Mae tua 113,100 o eiddo yn atebol am ardrethi annomestig yng Nghymru ac yn cyfrannu dros £1 biliwn bob blwyddyn at gyllideb Llywodraeth Cymru[15].

1.21 Mae'r busnesau a swyddogion y cyngor a holwyd gennym yn nodi'r heriau a grëwyd gan y gyfundrefn ardrethi annomestig. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai manwerthwyr wedi sicrhau gostyngiadau mawr mewn rhenti wrth i brydlesi gael eu hadnewyddu, neu drwy ail-drafod rhenti neu ddefnyddio trefniadau gwirfoddol corfforaethol. Yn wir, mae ymchwil yn awgrymu bod amodau'r farchnad mor anodd mewn trefi sydd â chyfraddau uchel o leoedd manwerthu gwag fel bod rhai wedi llwyddo i gael bargeinion dim rhent. Fodd bynnag, er bod rhenti'n gostwng, mae gwerthoedd ardrethol yn parhau ar lefelau 2017, a nododd llawer nad ydynt yn adlewyrchu realiti a chost masnachu ar y stryd fawr heddiw. Yn syml, mae manwerthwyr y stryd fawr wedi talu mwy yn hanesyddol am rywbeth sy'n werth llai, ac nid yw'r model costau bellach yn gweithio i lawer o fanwerthwyr.

14 Ymchwil y Senedd, Ardrethi Busnes: Cwestiynau cyffredin, 2018.
15 Ymchwil y Senedd, Ardrethi Busnes: Cwestiynau cyffredin, 2018.

1.22 Mae ardrethi annomestig yn cyfrif am ganran anghymesur o uchel o gyfanswm y costau meddiannaeth ac fe'u hystyrir yn rhwystr i fusnesau newydd a rhag dechrau busnesau. Hefyd, mae ardrethi annomestig yn anghymesur o uchel i'r rhan fwyaf o fusnesau manwerthu, sy'n eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â'r sector manwerthu e-fasnach. Mae'r Ganolfan Ymchwil Manwerthu yn amcangyfrif bod manwerthwyr siopau wedi talu £7.168 biliwn o ardrethi annomestig yn 2018-19, sy'n cyfateb i 2.3% o'u gwerthiannau manwerthu, tra bod manwerthwyr ar-lein yn talu £0.457 biliwn, tua 0.6% o werthiannau masnachwyr ar-lein[16].

1.23 Mae amrywiaeth o fentrau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n darparu rhyddhad ardrethi annomestig[17]. A, thrwy 2020-21 a 2021-22, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth pellach mewn ymateb i'r coronafeirws yn cyfyngu ar fasnachu, i'r graddau nad yw dros 70,000 o fusnesau yn talu unrhyw ardrethi o gwbl ar hyn o bryd[18]. Croesawyd hyn gan fusnesau a holwyd gennym. Fodd bynnag, nododd nifer, pan ddaw'r pandemig i ben, a bod y gwyliau ardrethi busnes ar ben, fod angen sicrhau chwarae teg gyda manwerthwyr y tu allan i'r dref a darparwyr ar-lein, a hynny ar gyfer ardrethi annomestig, ond hefyd taliadau fel parcio ceir. Er enghraifft, archwilio taliadau arloesol a hyblyg gyda phrisio is a 'gwerth cysylltiedig' fel amrywio taliadau ar sail niferoedd ymwelwyr i greu mwy o refeniw.

## Mae Strydoedd Mawr yn gartref i fwy na manwerthu yn unig, ond diystyrir hyn yn aml

1.24 Er bod llawer o'r ddadl wedi canolbwyntio ar ddirywiad manwerthu ar y stryd fawr yn brif fater sy'n peri pryder, mae canol trefi'n cynnig llawer mwy na siopau yn unig – **Arddangosyn 6**.


16 Y Ganolfan Ymchwil Manwerthu, Business Rates and the Future of the High Street

17 Llywodraeth Cymru: Busnes Cymru, Rhyddhad Ardrethi Busnes yng Nghymru

18 Llywodraeth Cymru, Estyn gwyliau ardrethi busnes am 12 mis, Mawrth 2021

**Arddangosyn 6: cyfeiriadau ar y stryd fawr, yn ôl categori defnydd tir ac awdurdod lleol ym mis Mawrth 2020**

Mae canol trefi yn ardaloedd preswyl yn bennaf ond yn aml fe'u cyflwynir yn nhermau manwerthu yn unig.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, High streets in Great Britain, Mawrth 2020

1.25 Mae'r data hwn, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan ddefnyddio categoreiddio defnydd tir[19], yn dangos bod maint y manwerthu ar y stryd fawr yn amrywio'n helaeth – a hynny o ryw 50% o'r strydoedd mawr yn Wrecsam i lai na thraean o'r safleoedd ar strydoedd mawr y tair prif ddinas yn Ne Cymru. Ym Merthyr Tudful mae llai o fanwerthu ar y stryd fawr nag unrhyw ardal awdurdod lleol, lle mae llai na chwarter o safleoedd y stryd fawr yn siopau. Prin yw'r awdurdodau lleol â thros 10% o'u strydoedd mawr yn lle i swyddfeydd, ond ym Merthyr mae swyddfeydd yn cyfrif am dros draean o'r holl eiddo ar y stryd fawr.

1.26 Ran amlaf o lawer, ardaloedd preswyl yw canol trefi a strydoedd mawr. Cartrefi yw o leiaf traean o'r holl gyfeiriadau, gan godi i dros 50% o holl gyfeiriadau'r stryd fawr mewn 12 o'r 22 awdurdod lleol. Mae canol trefi hefyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm poblogaeth awdurdod lleol, tuag un rhan o bump yng Nghaerdydd a Chasnewydd, er enghraifft. Mae poblogaeth ein strydoedd mawr yn 'ifanc' gan amlaf, a'r mwyafrif helaeth rhwng 16 a 64 oed. Yn bwysig, mae myfyrwyr hefyd ymhlith prif gynheiliaid canol trefi mewn trefi a dinasoedd prifysgol, sy'n cyfrif am 41.3% o'r boblogaeth yng Ngheredigion, 23.1% yng Nghaerdydd ac 17% yng Ngwynedd ac Abertawe.

## Mae canol trefi wedi'u hanelu'n bennaf at yr economi fanwerthu yn ystod y dydd ac, ar y cyfan, prin yw eu cynnig hamdden, cymdeithasol a nos

1.27 Mae canol trefi wedi'u ffurfweddu'n bennaf ar gyfer gwasanaethau yn ystod y dydd ac, ar y cyfan, nid yw'r cynnig yn ystod y nos wedi'i ddefnyddio'n fawr. Canfu ein hymchwil fod tua hanner y bobl yn byw o fewn milltir i ganol eu tref (44%) ac 86% o fewn pum milltir. Cyn y pandemig, byddai 82% o bobl yn ymweld â chanol eu tref leol o leiaf unwaith yr wythnos a thros hanner y rhain (60%) sawl gwaith yr wythnos. Mae ychydig dros 40% o ddinasyddion yn ymweld â chanol eu tref leol yn ystod yr wythnos waith a'r penwythnosau a nifer tebyg yn ystod yr wythnos waith yn unig. Mae llai nag 20% yn ymweld â chanol eu tref ar benwythnosau yn unig.

19 Darperir data nodweddion y stryd fawr gan yr Arolwg Ordnans, gan gynnwys cyfran y cyfeiriadau sydd ar gyfer defnydd preswyl, manwerthu, hamdden ac adloniant, swyddfeydd neu gymunedol. Dosberthir y defnydd manwerthu ar gyfer data stryd fawr yr Arolwg Ordnans yn ôl math o ddefnydd tir fel y'i diffinnir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ceir diffiniadau yma.

1.28 Mae dwy ran o dair o fusnesau yn gweithredu yn yr wythnos waith ac ar benwythnosau. Ychydig dros draean yn ystod yr wythnos waith yn unig (34%) a 2% ar benwythnosau yn unig. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (90%) yn gweithio oriau craidd safonol – 9am i 5pm. Roedd dwy ran o dair o bobl yn ymweld yn rheolaidd â chanol eu trefi yn y bore, ychydig dros hanner amser cinio, ac ychydig dros hanner yn y prynhawn. Mae tua thraean o fusnesau'n gweithio fin nos (35%) a chyfran lai yn hwyrach nag 8 pm (15%). Mae llai na thraean o bobl yn ymweld â chanol trefi fin nos ac ychydig dros 10% ar ôl 8 pm (12%).

1.29 Roedd mwyafrif llethol adborth yr arolwg yn nodi nad oes gan ganol trefi lleol gynnig da yn ystod y nos. Ac mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd yn gryf â'r data a nodir yn **Arddangosyn 6** uchod. Nid yw canol trefi ledled Cymru yn cynnig fawr ddim o ran gwasanaethau a chyfleusterau defnydd cymunedol (a ddiffinnir fel adeiladau addysgol, sefydliadol neu grefyddol) a hamdden (a ddiffinnir fel hamdden dan do neu awyr agored). Nid oes gan yr un awdurdod lleol fwy na 5% o'i stryd fawr gydag adeiladau cymunedol, ac mae llai nag 1% o holl ganol trefi Cymru yn cael eu trosglwyddo i ddefnydd hamdden ac adloniant. Gyda llai o alw am fanwerthu, mae defnydd cymunedol, hamdden ac adloniant yn feysydd amlwg ar gyfer twf.

## Mae llawer o ganol trefi yn anodd cael atynt

1.30 Nid oes gan lawer o Gymru drafnidiaeth effeithlon, fforddiadwy, hygyrch a chynhwysfawr. Er gwaethaf polisi Llywodraeth Cymru sy'n pwysleisio pwysigrwydd bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch ac ar gael, a nifer o fentrau cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth bresennol, y gwir i lawer o bobl a holwyd gennym yw nad oes cysylltiad digonol rhwng rhwydweithiau a moddau mewn llawer o drefi ledled y wlad. Mae hyn wedi arwain at ddibyniaeth barhaus ar geir. Canfu ein harolygon fod 73% o bobl yn mynd i ganol eu trefi mewn car yn rheolaidd, gyda llai nag 20% yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

1.31 Nododd ymatebwyr yr arolwg faterion sy'n peri pryder ynghylch argaeledd parcio ceir, ei gost a dewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael fel rhwystrau allweddol rhag ymweld â chanol eu trefi yn amlach. Nodwyd bod seilwaith trafnidiaeth – ffyrdd beicio, palmentydd a ffyrdd – mewn cyflwr gwael ar y cyfan a bod angen buddsoddi ynddo a'i uwchraddio. Yn gyffredinol, nododd busnesau a phobl a ymatebodd i'n harolygon fod dirywiad parhaus ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig annigonol yn broblemau mawr.

# Y Presennol: Canol trefi heddiw

02

# Cefnogwyd busnesau'n dda yn ystod y pandemig, ond yn aml nid oes gan awdurdodau lleol y sgiliau, y gallu a'r adnoddau i helpu i greu canol trefi cynaliadwy er gwaethaf cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru

## Ymatebodd Llywodraeth Genedlaethol a Lleol yn dda i gefnogi busnesau canol trefi yn ystod COVID-19, ond mae wedi creu ansicrwydd ar gyfer y dyfodol

2.1 Gyda'r pandemig, newidiodd y ffordd y mae pobl yn defnyddio canol trefi dros nos. Newidiodd arferion gwario a theithio siopwyr, ac er i'r galw gynyddu am wasanaethau cyhoeddus, manteisiodd llawer o bobl ar lwyfannau ar-lein i'w cael. Roedd y rhan fwyaf o ganol trefi eisoes yn gorfod addasu i gyfnod sylweddol o newid cyn y pandemig, fel y gwnaethant yn y gorffennol, gan adlewyrchu newidiadau cymdeithasol dros ddegawdau. Ond prin y cafwyd newid mor eithafol mewn byr amser, a chyfyngiadau wedi'u gosod ar symud a gweithrediadau busnes ledled y wlad.

2.2 Yn gynnar, arweiniodd y cyfyngiadau at newid arferion tymor byr, ond clywsom wahaniaeth barn am hirhoedledd y newid hwn, ac mae hyn yn parhau'n destun dadl ddwys gan ddadansoddwyr economaidd. Cwtogodd COVID-19 o ddifrif ar nifer y bobl yn ymweld â chanol eu trefi, a 91% o'r rhai a holwyd yn dweud eu bod yn ymweld yn llai aml nag yn y gorffennol. Ond mae ein harolygon hefyd yn awgrymu awydd i ddychwelyd i arferion blaenorol, gyda'r rhan fwyaf o fusnesau (61%) a dinasyddion (57%) yn bwriadu gweithredu/ymweld a defnyddio canol eu tref fel y byddent cyn COVID-19. Dim ond 8% o fusnesau a 13% o ddinasyddion sy'n gweld y pandemig yn newid yn sylfaenol sut y bydd canol trefi'n cael eu defnyddio yn y dyfodol.

2.3 Bu'n rhaid i fusnesau addasu'n gyflym, a bu'n rhaid cyflwyno cymorth llywodraeth leol a cenedlaethol yn gyflym a'i deilwra'n briodol. Ar wahân i'r heriau lawer a wynebwyd, creodd y cyfyngiadau gyfleoedd hefyd i fusnesau addasu eu model gweithredu i adlewyrchu'r arferion newidiol hyn. Wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau llacio, manteisiodd busnesau a addasodd ar nifer gynyddol o ymwelwyr, wrth i bobl aros yn lleol yn hytrach na theithio i ddinasoedd ar gyfer siopa, gwaith a hamdden.

2.4 Canfuom fod tri chwarter o fusnesau wedi arallgyfeirio eu cynnig i ddarparu gwasanaeth ar-lein, bod 35% yn cynnig gwasanaethau dosbarthu a chludo cartref; bod 21% wedi cyflwyno gwasanaethau symudol gan gynnwys rhai dros dro; a bod 12% wedi addasu safle at ddefnydd neu fasnach amgen. Mae'n ansicr a fydd y newidiadau hyn yn gwrthdroi, a bydd yn rhaid i fusnesau ystyried sut y maent yn bwriadu gweithredu ar ôl y pandemig.

2.5 Mae busnesau hefyd yn ystyried bod cymorth y llywodraeth yn hanfodol i'w helpu i adfer, gyda 76% o'r farn bod colli cymorth Llywodraeth Cymru yn risg fawr. Yn gadarnhaol, mae 90% o fusnesau wedi gwneud cais am gyllid brys, a'i gael, gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i oroesi effaith lawn COVID-19[20].

## Cyflwynodd awdurdodau lleol ystod o fesurau i ailagor canol trefi'n ddiogel yn ystod y pandemig, ond cafodd y dewisiadau hyn effaith andwyol ar rai pobl anabl

2.6 Mae rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod gwaith da awdurdodau lleol i wneud canol trefi'n ddiogel. Mae 92% o fusnesau ac 82% o ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel yn ymweld â chanol eu tref leol, a'r mwyafrif yn teimlo bod canol eu tref yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, teimla nifer o fusnesau fod 'mân-reolau', biwrocratiaeth ddiangen, rheoleiddio gormodol ac arweinyddiaeth wael ar lefel genedlaethol a lleol yn rhwystrau mawr. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ar bedestreiddio, taliadau parcio ceir ac ardrethi busnes. Cred tua thraean o fusnesau (36%) fod angen i awdurdodau lleol fod yn fwy hyblyg wrth wneud penderfyniadau i helpu busnesau i adfer, a chyfran lai (15%) o'r farn fod angen iddynt fod yn well am gydlynu gweithredu ar y stryd fawr.

2.7 Roedd ychydig dros 10% o ddinasyddion a ymatebodd i'n harolwg yn ystyried bod ganddynt anabledd. Dywedodd tua hanner y rhain eu bod wedi'u hanfanteisio yn y penderfyniadau a wnaed gan eu hawdurdod lleol wrth ailagor canol trefi. Nododd dwy ran o dair fod cyfleusterau allweddol yn cau, megis toiledau, yn eu rhwystro rhag ymweld â chanol eu tref leol. Yn yr un modd, nodwyd bod creu parthau i gerddwyr (46%) a chadw pellter cymdeithasol mewn siopau a chaffis (43%) i helpu i reoli llif pobl yn annog pobl anabl i beidio ag ymweld â'u stryd fawr.

20 Roedd yr arian hwn yn cynnwys dau gynllun grant ar wahân, y Grant Ardrethi Annomestig (NDR) a'r Gronfa Cadernid Economaidd, i gefnogi busnesau yn ystod y cyfnod clo. Cyflwynwyd mesurau economaidd eraill fel y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogedig a'r Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws hefyd.

## Gallai twf gweithio gartref mewn ymateb i'r pandemig fod o fudd i ganol trefi lleol, ond gallai hefyd leihau'r galw am fusnesau

2.8 Mae tystiolaeth bod gwariant manwerthu wedi symud i siopau stryd fawr lleol yn ystod y pandemig, a hynny'n bennaf am fod pobl yn siopa'n lleol wrth iddynt weithio gartref[21]. Mae hyn wedi dwyn buddion amlwg i rai canol trefi gyda mwy o wariant yn yr economi leol. Ond am fod mwy o bobl yn gweithio gartref, mae llai o angen am swyddfeydd, a gallai hynny effeithio ar fusnesau canol trefi a dinasoedd.

2.9 Bydd hyn yn arbennig o heriol i leoedd sy'n cael trafferth, oherwydd mae swyddi swyddfa – yn wahanol i swyddi manwerthu – yn fwy tebygol o fod yn swyddi o gyflog uwch sy'n cyfrannu at ffyniant a thwf lleoedd oherwydd eu 'heffeithiau lluosydd': eu bod yn creu swyddi ychwanegol gan fod cyflogeion yn defnyddio'r siopau a'r gwasanaethau mewn stryd fawr neu ganol tref. Dengys ymchwil fod swyddi medrus neu swyddi mewn diwydiannau uwch-dechnoleg yn cynhyrchu lluosyddion mwy: mae swydd fedrus ychwanegol yn creu 2.5 swydd ar gyfartaledd yn y sector na ellir ei fasnachu; mae swydd sector technoleg ychwanegol yn creu, ar gyfartaledd, 1.9 swydd yn y sector na ellir ei fasnachu[22].

2.10 Gallai hyn gael un o ddwy effaith ar drefi ledled Cymru. Gallai pobl yn gweithio gartref gael effaith luosogi gadarnhaol mewn rhai cymunedau, ond byddant hefyd yn arwain at ostwng y galw yn y lle y maent wedi symud oddi yno, oherwydd nid yw'r swyddi hyn yn newydd, ond yn gyflogaeth wedi'i dadleoli o rywle arall o ganlyniad i'r pandemig.

## Mae arian mawr yn cael ei fuddsoddi mewn adfywio, ond mae'n amheus a ydy'r cyllid hwn yn helpu i greu canol trefi cynaliadwy

2.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn adfywio ac mae'n parhau i sicrhau bod symiau mawr o arian ar gael; ychydig o dan £900 miliwn ers 2014 – **Arddangosyn 7**. Mae pob awdurdod lleol wedi cael cyllid, ond mae lefelau'r buddsoddiad yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, yn y dyraniad diweddaraf yn 2020-21 gwelwyd £107.5 miliwn o gyllid i awdurdodau yn amrywio o £1 miliwn i £13.6 miliwn (Gweler **Atodiad 3**).

21 Centre for Cities, How has spending recovered in our town and city centres? Medi 2020

22 What works centre for local economic growth, What does the evidence tell us about the employment multiplier effect? Mawrth 2019

**Arddangosyn 7: Cyllid adfywio Llywodraeth Cymru ers 2014**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi symiau sylweddol o arian i adfywio canol trefi Cymru

| Cyfnod | Rhaglen | Cyllid Uniongyrchol Llywodraeth Cymru | Cyllid wedi'i Alluogi/ Ysgogi | Cyfanswm y Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| 2014-2017 | Lleoedd Hyfyw a Bywiog | £124 miliwn | £320 miliwn | £444 miliwn |
| 2014-2020 | Benthyciadau Canol Tref | £31.6 miliwn[23] | – | £31.6 miliwn |
| 2017-2023 | Adeiladu ar gyfer y Dyfodol | £54 miliwn[24] | £54 miliwn | £108 miliwn |
| 2018-2021 | Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu | £100 miliwn | £60 miliwn | £160 miliwn |
| 2020-2021 | Cyllid Trefi Tasglu'r Cymoedd | £3.7 miliwn | – | £3.7 miliwn |
| 2020-2021 | Trawsnewid Trefi (cronfa ymaddasu COVID-19) | £5.3 miliwn | – | £5.3 miliwn |
| 2014-2020 | Cronfa Refeniw Trawsnewid Trefi ar gyfer ALlau | £0.5 miliwn | – | £0.5 miliwn |
| 2017-2023 | Cronfa Tref Arfordirol | £3 miliwn | £8 million | £11 million |
| 2018-2021 | Cronfa Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth | £5 miliwn | £4 miliwn | £9 miliwn |
| 2020-2021 | Cyllid benthyciad i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol | £18.4 miliwn | – | £18.4 miliwn |

23 Cyllid benthyciad sy'n cael ei ailgylchu. Dim ond y swm gwirioneddol a ddyrannwyd yr ydym wedi'i gynnwys, nid y cyfanswm a ailgylchwyd neu'r cyfanswm y tybir y bydd yn cael ei ailgylchu.

24 Mae hyn yn cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop: Cysylltedd a Datblygu Trefol ar gyfer y cyfnod 2017-2023.

| Cyfnod | Rhaglen | Cyllid Uniongyrchol Llywodraeth Cymru | Cyllid wedi'i Alluogi/ Ysgogi | Cyfanswm y Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| 2020-2022 | Arian ychwanegol ar gyfer Benthyciadau Canol Trefi | £15 miliwn | – | £15 miliwn |
| 2020-2021 | 'Cronfa ymladd' gorfodi | £15.2 miliwn | – | £15.2 miliwn |
| 2017-2023 | Estyn y grant cyfalaf am flwyddyn arall (2021-22) | £41.8 miliwn | £25.1 miliwn | £66.9 miliwn |
| **2014-2022** | **CYFAN** | **£383.6 miliwn** | **£509 miliwn** | **£892.6 miliwn** |

● Refeniw ● Cyfalaf ● Refeniw a chyfalaf ● Benthyciadau

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.12 Mae'r rhan fwyaf o'r uwch swyddogion a holwyd gennym (91%) yn credu bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi gwaith adfywio. Ac mae pob uwch swyddog ac ychydig o dan ddwy ran o dair o gynghorwyr (63%) yn credu bod eu hawdurdod lleol yn dda am weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid grant i gefnogi adfywio.

2.13 Fodd bynnag, ystyrir bod rhai agweddau ar ymagwedd Llywodraeth Cymru at adfywio yn broblem. Dim ond 77% o uwch swyddogion sy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r rhyddid iddynt benderfynu ymhle y dylent wario arian ar adfywio a chred tua dwy ran o dair (59%) fod Llywodraeth Cymru yn cwtogi cymaint â phosibl ar ei cheisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol. Mae'r cyllid ar gael o dan 13 wahanol ffrwd, yn aml gyda blaenoriaethau ac amodau grant gwahanol, er bod cyllid wedi'i ad-drefnu ers 2020 yn un gronfa 'Trawsnewid Trefi'. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mwy i'w wneud i symleiddio cyllid.

2.14 Nododd llawer a holwyd gennym nad yw'r cylch cynnig blynyddol yn cefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r problemau mwy anodd a hirsefydlog a fyddai'n helpu i drawsnewid canol eu trefi. Mae'r cyllid yn canolbwyntio'n drwm ar gyfalaf ac adfywio ffisegol ond yn aml yr her i awdurdodau lleol yw refeniw annigonol i ariannu swyddi, yn enwedig rheoli canol trefi, marchnata, dadansoddi data, crynhoi tir, a gwasanaethau cyfreithiol i fynd i'r afael ag adeiladau a thir problemus.

2.15 Er gwaethaf lefelau sylweddol o fuddsoddiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ei effaith wedi amrywio. Heb os, cafwyd gwelliannau, ond nid yw wedi helpu i greu lleoedd mwy cynaliadwy. Roedd y rhai y cyfwelwyd â hwy yn cydnabod bod yr arian wedi canolbwyntio'n rhy aml ar brosiect mawr untro neu'n cael ei ddyrannu i wella’r gwasanaethau stryd a thir y cyhoedd. Heb os, mae'r rhain yn bwysig. Ond os nad ydynt yn cyd-daro â gwaith adfywio cynhwysfawr i adeiladau hyll ac adfeiliedig eraill ac yn helpu i fynd i'r afael â phob tir ac adeilad gwag, mae eu budd a'u heffaith gyffredinol yn lleihau.

## Awdurdodau lleol yw'r asiantaeth allweddol i reoli ac adfywio canol trefi, ond maent yn aml yn cael trafferth yn creu lleoedd cynaliadwy

2.16 Mae’r ffordd y mae pobl yn siopa wedi newid am byth ac mae angen ailfodelu llawer o ganol ein trefi ar raddfa fawr os ydynt am oroesi a ffynnu yn yr 21ain ganrif. Mae angen meithrin y stryd fawr a chanol trefi, a chynllunio a llywio eu gwaith adfywio drwy ddull strategol. Er bod llawer o randdeiliaid sydd â rôl mewn adfywio canol trefi, awdurdodau lleol yw'r corff allweddol.

2.17 Mae ganddynt ystod eang o bwerau statudol a all bennu ffurf ac amgylchedd canol trefi: cynllunio, trafnidiaeth, gorfodi, rheoli canol trefi, safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu, tai, datblygu economaidd a thwristiaeth, er enghraifft. Mae awdurdodau lleol yn atebol ac mae ganddynt gyfreithlondeb i wneud penderfyniadau oherwydd bod aelodau'n cael eu hethol i gynrychioli eu cymuned leol a'i phobl.

### Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu adfywio canol trefi, ond yn aml nid yw cynlluniau'n cyflawni'r newid sydd ei angen i helpu i greu lleoedd mwy cynaliadwy

2.18 Gwelsom fod dull awdurdodau lleol o adfywio canol trefi yn amrywio. Mae gan rai un strategaeth ar draws yr awdurdod lleol. Mae gan eraill gynllun(iau) i dref neu ganol tref benodol. Mae nifer yn defnyddio eu Cynllun Lles i bennu eu blaenoriaethau adfywio gan weithio gyda phartneriaeth ehangach y sector cyhoeddus, tra bod eraill yn defnyddio Cynlluniau Lleoedd[25] a gwaith Ardaloedd Gwella Busnes (AGB)[26].

25 Mae Cynlluniau Lleoedd yn fecanwaith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gymunedau ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio ac i gynllunwyr gefnogi mentrau gwneud lleoedd gyda phobl leol.

26 AGB yw lle mae busnesau lleol yn arwain ac yn cydweithio â phartneriaid i ffurfio grŵp i fuddsoddi arian a gwneud gwelliannau i ardaloedd penodol fel canol trefi, drwy ddarparu gwasanaethau ychwanegol uwchlaw'r hyn sydd eisoes ar gael. (Gweler **Atodiad 4**.)

Nododd y rhan fwyaf o swyddogion y cyngor a holwyd gennym fod ganddynt strategaeth (86%) ar gyfer adfywio canol trefi gyda chamau gweithredu cysylltiedig i gyflawni yn eu herbyn (82%). Mae gan bob awdurdod lleol gynllun datblygu lleol[27] ar waith, neu'n cael ei fabwysiadu, ac mae'r rhain yn hanfodol i adfywio canol trefi yn llwyddiannus.

2.19 Mae llawer o gynlluniau, a hynny'n gwbl briodol, yn tynnu sylw at y cyfraniad pwysig y gall adfywio ei wneud at ddatblygu cynaliadwy a lles cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig adfywio ffisegol lle mae gan awdurdodau lleol hanes cryf ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o uwch swyddogion a holwyd gennym yn credu bod eu gwaith adfywio yn y gorffennol wedi gwella adeiladau yng nghanol trefi (96%); diogelu treftadaeth adeiladau a threfi (91%); a chreu cartrefi newydd a gwella'r rhai presennol (85%).

2.20 Fodd bynnag, mae uwch swyddogion a chynghorwyr yn cydnabod nad yw awdurdodau lleol wedi creu mwy o gyfoeth, mwy o gyflogaeth, prentisiaethau nac wedi bod o fudd economaidd i breswylwyr. Nid yw gwaith adfywio ffisegol ychwaith wedi cyfrannu at wella iechyd na lleihau tlodi. O ganlyniad, nid yw'r camau gweithredu wedi cyrraedd y nod o greu canol trefi cynaliadwy ac amlswyddogaethol sy'n cyfrannu at wella lles. Mae blaenoriaethau'n dal i ganolbwyntio'n drwm ar fanteision gwelliannau ffisegol ac maent yn llai clir ynglŷn â'r enillion lles ehangach y gall adfywio eu cyflawni.

2.21 Fel y nodwyd uchod, mae newid cyflym yn digwydd yng nghanol ein trefi ac nid yw effaith lawn COVID-19 wedi'i theimlo eto. Nid yw blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a ymddangosai'n rhesymol 18 mis yn ôl bellach yn adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd a'r heriau sydd angen mynd i'r afael â hwy yn awr. Nid yw cynlluniau bob amser yn adlewyrchu'r amgylchedd newydd sy'n wynebu canol trefi ac maent yn aml wedi'u hanelu at y problemau a wynebai ein strydoedd mawr dair i bum mlynedd yn ôl, nid fel y maent ar hyn o bryd. Mae hyn yn bwysig ac mae'n broblem sylweddol. Mae rhai wedi manteisio ar y cyfle i adnewyddu eu cynlluniau adfywio. Er enghraifft, mae strategaeth adfer Cyngor Sir Caerfyrddin Ailgychwyn, Adfywio, Adnewyddu, a ddatblygwyd mewn ymateb i effaith economaidd COVID-19, yn rhoi crynodeb da o'r heriau 'byw' sy'n wynebu trefi yn y sir.

27 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi polisïau cynllunio lleol ac yn nodi sut y defnyddir tir, gan benderfynu beth fydd yn cael ei adeiladu ac ymhle. Mae cynlluniau lleol a fabwysiadir yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ledled Cymru ac yn cael eu datblygu a'u rheoli gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**Yn aml, nid oes gan awdurdodau lleol y sgiliau a'r gallu i adfywio canol trefi yn y modd sydd ei angen ar Gymru**

2.22 Mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am adfywio cynhwysfawr i wneud trefi Cymru yn lleoedd cynaliadwy. Ond mae effaith deng mlynedd o galedi a gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol wedi arwain at ddisbyddu capasiti a sgiliau adfywio. Mae awdurdodau lleol yn derbyn bod colli gwybodaeth, profiad a sgiliau wrth i staff adael yn risg fawr. Mae ychydig dros hanner y cynghorwyr (56%) yn cydnabod nad oes ganddynt ddigon o swyddogion medrus i gyflawni adfywio. Cafwyd rhywfaint o recriwtio newydd – cyflogi Swyddog Canol Tref ym Mlaenau Gwent, er enghraifft – ond mae mwyafrif y stori o'n hymchwil yn un o gwtogi mawr ar gapasiti.

2.23 Prin y bydd staff sy'n delio ag adfywio yn ymroddedig i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unig, ac fel arfer maent yn rheoli ystod o flaenoriaethau gwahanol sy'n cystadlu â'i gilydd. Anaml y bydd gan awdurdodau lleol swyddogaeth adfywio annibynnol, ac mae staff sydd â rôl mewn adfywio yn aml yn cael eu hestyn ar draws gwahanol wasanaethau a thimau: cynllunio, tai, tir ac eiddo, cyfreithiol, prisio, datblygu economaidd, a hamdden er enghraifft. Gall hyn leihau'r cyfle i weithredu'n gydlynol a gall wanhau atebolrwydd. Mae adfywio hefyd bellach yn fwy heriol ac mae angen creadigrwydd a chymhwyso set sgiliau fwy amrywiol. Mae **Arddangosyn 8** yn crynhoi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i adfywio canol trefi yr ydym wedi'u nodi yn ystod yr adolygiad hwn

2.24 O ystyried y cwtogi hwn ar gapasiti, mae angen i awdurdodau lleol weithio'n agosach gydag ystod eang o bartneriaid; y sector cyhoeddus ehangach, cymdeithasau tai, y trydydd sector, a Chynghorau Tref a Chymuned, yn enwedig lle gallai eu hymyrraeth fod ar raddfa lai neu'n berthnasol i set benodol o sgiliau a/neu gyfrifoldebau. Mae angen integreiddio adfywio'n well hefyd ar draws agendâu polisi, blaenoriaethau'r sector cyhoeddus a thrwy arferion traws-broffesiynol mwy effeithlon. Gallai bargeinion dinesig helpu gyda rhywfaint o hyn, ond pwysleisiodd staff y Fargen Ddinesig y buom yn siarad â hwy eu bod yn aml yn canolbwyntio ar faterion datblygu economaidd ac adfywio rhanbarthol lefel 'macro', nid adfywio canol trefi ar lefel 'micro', er bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi adfywio canol trefi ar ei blaenraglen waith ar gyfer 2022.

**Ar y cyfan, nid yw awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau i alluogi adfywio canol trefi**


2.25 Mae adfywio llwyddiannus yn dibynnu ar awdurdodau lleol sy'n cynnwys y gymuned, gan roi cymhellion i ddatblygwyr preifat fuddsoddi yn yr ardal, ynghyd â defnyddio pwerau gorfodi'n effeithiol. Mae'r cydbwysedd cyfrifoldebau hwn yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth helpu i sicrhau bod perchnogion tir ac eiddo yn cadw eu tir neu eu heiddo mewn cyflwr addas. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol yn darparu'r cymhellion hyn nac yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i sbarduno adfywio canol trefi yn effeithiol ac yn gyson.

**Arddangosyn 8 – y sgiliau allweddol sydd eu hangen i adfywio canol trefi**

Mae angen i awdurdodau lleol fod â'r sgiliau cywir ar waith cyn, yn ystod ac ar ôl adfywio canol trefi.


## Cyn

- Sgiliau creu gweledigaeth
- Uchelgais
- Cynllunio Trefol a Lle
- Dadansoddi a phenderfynu
- Arbenigedd cyfreithiol
- Defnyddio pwerau gorfodi a gorchmynion prynu gorfodol
- Crynhoi tir
- Cynllunio prosiect
- Ariannu a chyllido
- Datblygu cyflogadwyedd lleol
- Cynnwys a magu cydsyniad




## Yn ystod

- Sgiliau broceriaeth
- Cyd-drafod datblygwyr
- Datrys gwrthdaro
- Rheoli prosiect
- Caffael
- Datblygu’r gadwyn gyflenwi
- Monitro
- Dylunio carbon isel ac ôl-osod datgarboneiddio
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Arwain
- Casglu data



## Ar ôl

- Gwerthuso
- Adrodd
- Rheoli digwyddiadau
- Lledaenu arfer da
- Rheoli Canol Tref
- Marchnata
- Gwaith partneriaeth
- Dadansoddi data



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

2.26 Mae nifer o bwerau eisoes yn bodoli sy'n galluogi cynghorau i ailddefnyddio tir neu adeiladau gwag, glanhau ardal sy'n peryglu iechyd yr amgylchedd, neu orfodi trosglwyddo perchnogaeth tir neu eiddo drwy ddefnyddio Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG). Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigonol, ac roedd uwch swyddogion y cyfwelwyd â nhw yn cydnabod bod llawer mwy i awdurdodau lleol ei wneud wrth ddefnyddio eu pwerau eang i ysgogi adfywio canol trefi. Mae ffactorau ataliol yn cynnwys y gost a'r amser sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau hyn ac, yn gyffredinol, nododd swyddogion y cyfwelwyd â hwy nad yw'r gyfundrefn orfodi yn hyblyg nac yn effeithiol wrth fynd i'r afael â phroblemau. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd i helpu i wneud y broses prynu gorfodol yn fwy dealladwy a thryloyw[28].

2.27 Mae cynghorwyr yn arbennig yn beirniadu pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn perfformio yn hyn o beth. Mae ychydig dros ddwy ran o dair yn nodi nad yw eu cyngor wedi creu parthau datblygu a/neu fuddsoddi canol trefi, a dywed 77% nad ydynt wedi cyflwyno cymhellion ar gyfer datblygu canol trefi. Cred 72% o gynghorwyr nad yw eu cyngor yn defnyddio pwerau gorfodi'n rhagweithiol i ailddefnyddio tir neu adeiladau gwag, wrth i'r mwyafrif helaeth (83%) ddweud nad ydynt yn defnyddio GPG yn rhagweithiol i ysgogi ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau gwag a segur yng nghanol trefi.

2.28 Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu hyfforddiant i gynghorwyr a swyddogion awdurdodau lleol i helpu i 'egluro' pwerau gorfodi i ysgogi eu defnyddio a'u cymhwyso. Nid oes angen gweithredu drud a hirfaith ar lawer o'r rhain a gallant gyflawni'r effaith a ddymunir drwy ddull gweithredu fesul cam. Mae **Arddangosyn 9** isod yn nodi'r opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn amrywio o gamau gweithredu rhad a llai amlwg meddalach, i benderfyniadau mwy ymwthiol a chostus o bosibl pan fydd popeth arall wedi methu. Mae angen mynd ar drywydd pob opsiwn a gall penderfynu'n gynnar newid a dylanwadu ar ymddygiad landlordiaid. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £15.2 miliwn o dan ei Chronfa Gorfodi Eiddo Gwag sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w cefnogi i gymryd camau gorfodi. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru yn manylu ar yr eiddo y maent am weithredu yn ei erbyn ac amcangyfrif o'r arian sydd ei angen arnynt.

28 Llywodraeth Cymru, Llawlyfr Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) (Argraffiad 1), Mawrth 2021

**Arddangosyn 9 – pwerau sydd ar gael i fynd i'r afael ag eiddo gwag**

Mae gan awdurdodau lleol ystod eang o bwerau ar gael i'w helpu i fynd i'r afael ag adeiladau hyll gwag ac adfeiliedig i adfywio canol trefi.

| Ymagwedd | Amserlen | Camau gweithredu posibl |
|---|---|---|
|  Cyngor ac arweiniad | 0 mis i 2 flynedd | • Cyngor i landlordiaid ar opsiynau ar gyfer gwerthu, rhentu a pherchnogaeth<br>• Rhestr o asiantau i helpu i werthu/rhentu<br>• Ffioedd gostyngol drwy'r Cynllun Arwerthwr<br>• Nodi a rhestru Buddsoddwyr/Datblygwyr posibl<br>• Defnyddio gwefan yr ALI i hyrwyddo/ hysbysebu tir/adeiladau ar gyfer perchnogion |
|  Dewisiadau Meddalach | 6 mis i 2 flynedd | • Rhestr o Adeiladwyr/Penseiri cymeradwy<br>• Datblygu a darparu ar gyfer Rhestr gyfansawdd am ddim o'r Gwaith<br>• Asiantaeth Gwella Cartrefi<br>• Cynllun Prydlesu'r Sector Preifat a weithredir gan y Cyngor<br>• Cynllun gosodiadau cymdeithasol i baru ymgeiswyr â chartrefi rhent preifat<br>• Cynigion Archebu Ceisiadau Cyhoeddus<br>• Prynu uniongyrchol gan ALI neu landlord cymdeithasol cofrestredig<br>• LOTS a HARPS i greu cartrefi uwchben siopau |
|  Cymorth Ariannol | 6 mis i 2 flynedd | • Grantiau gwella sy'n gysylltiedig ag enwebiadau i eiddo<br>• Benthyciadau ar gyfer gwaith gwella (di-log neu sy'n dwyn llog)<br>• Cyngor benthyca masnachol<br>• Gostyngiad mewn cynlluniau TAW a/neu Lwfans Cyfalaf |

| Ymagwedd | Amserlen | Camau gweithredu posibl |
|---|---|---|
|  Bygythiad gorfodi | 2 flynedd neu fwy | • A.215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<br>• A.77-79 o Ddeddf Adeiladu 1984 – strwythurau peryglus, dadfeiliedig ac adfeiliedig<br>• Deddfau Tai 1985 a 2004 – hysbysiadau gwella, gorchmynion rheoli anheddau gwag, dymchwel a chlirio<br>• S.79-80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – niwsans statudol<br>• S.4 o Ddeddf Atal Difrod gan Blâu 1949 – trin plâu<br>• A.29 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – gosod byrddau<br>• Hysbysiad Adeiladau Rhestredig/Gwaith Brys<br>• Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1936 a 1961 – aflan a phryfedog<br>• Enwi a chywilyddio landlordiaid (cyhoeddusrwydd) |
|  Adennill Dyledion | 2 flynedd neu fwy | • Adennill dyledion y Dreth Gyngor, Dyledion Statudol neu Ardrethi Busnes (Methdaliad, gorchmynion arwystlo neu Feilïaid)<br>• Llys Sirol neu Weithdrefn Gwerthu Gorfodol<br>• Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi |

| Ymagwedd | Amserlen | Camau gweithredu posibl |
|---|---|---|
|  Dewis Olaf | 2 flynedd neu fwy | • Erlyniad<br>• Gorchymyn Prynu Gorfodol<br>• Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag<br>• Gweithdrefn Gwerthu Gorfodol<br>• Prynu Uniongyrchol |

Ffynhonnell: Hyfforddiant gorfodi Llywodraeth Cymru a roir i awdurdodau lleol

2.29 O'n hadolygiad, mae'n amlwg bod angen i gynghorau gael eu cydgysylltu'n fewnol gyda pholisi sy'n cydredeg i sicrhau'r effaith gywir. Os nad yw gwasanaethau – cynllunio, iechyd yr amgylchedd, tai, eiddo, tir a chyfreithiol – yn cael eu hintegreiddio, yna bydd awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd mynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae arweinyddiaeth a bwriad yn hanfodol.

# Y Dyfodol: Yr her o adfywio canol trefi yn y dyfodol

03

# Gall canol trefi barhau i chwarae rhan bwysig wrth wraidd bywyd Cymru, ond mae angen i lywodraeth leol a cenedlaethol sbarduno agenda adfywio uchelgeisiol i helpu i greu lleoedd cynaliadwy

3.1 Mae'r pandemig wedi cynyddu'r pwysau ar fusnesau'r stryd fawr sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, a disgwylir i gyfraddau siopau gwag barhau i godi. Fodd bynnag, mae barn yn amrywio am y graddau y bydd y pandemig yn arwain at newid hirdymor yng nghanol trefi. Mae rhai'n cyfeirio at dystiolaeth o dueddiadau newydd tuag at siopa lleol a siopau annibynnol cydnerth fel achos i obeithio. Cred eraill y bydd dirywiad y blynyddoedd diwethaf yn cyflymu wrth inni fynd i'r afael ag effaith y pandemig. Yn amlwg, mae heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Ond mae cyfleoedd i fanteisio arnynt hefyd.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu adfywio canol trefi yn y gwaith adfer wedi'r pandemig, ond mae angen iddi sicrhau bod y dull 'canol tref yn gyntaf' wrth wraidd ei hagenda polisi ehangach

3.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau ym mis Hydref 2020[29]. Mae gan y cynllun wyth blaenoriaeth tymor byr ac un ohonynt (**Blaenoriaeth 4**) yw adfywio canol trefi. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfres o gamau gweithredu i helpu i fynd i'r afael â dirywiad cyson canol trefi ac effaith y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 'Cronfa Caffael Safleoedd Strategol' newydd i alluogi awdurdodau lleol i gaffael tir a/neu safleoedd y stryd fawr i adfywio canol trefi;
- darparu agenda 'Canol Tref yn Gyntaf', gan flaenoriaethu canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng nghanol trefi;
- lansio cronfa bwrpasol i greu cyfleusterau ychwanegol ar y stryd fawr, er mwyn helpu i adfywio canol trefi;
- darparu gwell mynediad at fannau agored;
- creu canolfannau gweithio o bell; a
- sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch.

29 Llywodraeth Cymru, Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau, Hydref 2020

3.3 Mae adfywio canol trefi yn parhau i fod ymhlith amcanion hirsefydlog Llywodraeth Cymru ac fe'i hail-gadarnhawyd fel y cyfryw yn y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn ddiweddar[30]. Fel y nodwyd yn gynharach, neilltuwyd llawer o arian i gefnogi gwaith adfywio o dan amrywiol fentrau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae tîm polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer goruchwylio gweithgarwch adfywio wedi newid dros y cyfnod hwn, ac mae awdurdodau lleol yn gadarnhaol ynglŷn â'u gwaith a'u cefnogaeth. Soniodd llawer yn ffafriol am y cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i uwchsgilio a gwneud gwell defnydd o bwerau gorfodi a chyfreithiol i fynd i'r afael ag eiddo sydd wedi'i ddifetha ers tro yng nghanol trefi. Yn yr un modd, soniwyd bod y dull mwy ymgynghorol a phragmatig o ddatblygu a chwblhau prosiectau yn dystiolaeth o wella ymatebolrwydd.

3.4 Yr hyn sy'n allweddol i waith adfywio Llywodraeth Cymru yw ei dull 'Canol Trefi yn Gyntaf', sy'n ceisio rhoi iechyd canol trefi wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a chymunedau. Er enghraifft, annog y sector cyhoeddus i gefnogi trefi drwy leoli swyddfeydd, cyfleusterau a gwasanaethau oddi mewn iddynt er mwyn sbarduno nifer yr ymwelwyr a chreu neu gynnal bywiogrwydd. Felly, mae'r dull yn ceisio sicrhau'r canlyniadau lleol gorau drwy alinio ac integreiddio polisïau ac adnoddau i flaenoriaethu canol trefi.

3.5 Mae polisi cynllunio diweddar Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyfeiriad hwn. Er enghraifft, mae **Polisi Cynllunio Cymru – Argraffiad 11**[31] yn sôn yn helaeth am weledigaeth Llywodraeth Cymru i ganol trefi, yr asesiadau a'r profion y mae'n rhaid eu defnyddio i benderfynu ymhle y dylai datblygiadau manwerthu a masnachol fynd, a'r polisïau sy'n canolbwyntio ar ganol trefi y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio i'w gweithredu. Yn debyg, mae **Diweddariad Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040**[32] yn cynnwys dull polisi cryf iawn 'canol tref yn gyntaf'.

3.6 Mae hwn yn agenda uchelgeisiol iawn, sy'n gofyn integreiddio helaeth rhwng fframweithiau polisi trawsbynciol a phenderfyniadau i hyrwyddo canol trefi uwchlaw llawer arall. Yr her i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob rhan o'i system polisi, ariannu a phenderfynu yn cyd-fynd ac yn helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.

3.7 Fodd bynnag, dim ond un o nifer o chwaraewyr yn y broses hon yw Llywodraeth Cymru ac ni all greu canol trefi cynaliadwy heb i eraill chwarae eu rhan, yn enwedig awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Ond, yn aml nid oes gan awdurdodau lleol allu a sgiliau i wneud popeth, a dibynnant ar eraill i gymryd rhan. Ond nid yw partneriaid y sector cyhoeddus yn gydgysylltiedig ac wedi'u hintegreiddio ag awdurdodau lleol ac yn cyfrannu'n weithredol at yr agenda canol trefi yn gyntaf.

30 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, Mehefin 2021

31 Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 11, Chwefror 2021


32 Llywodraeth Cymru, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Chwefror 2021

3.8 Gwelsom lawer o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn lleihau eu presenoldeb yng nghanol trefi, gan symud mwy o wasanaethau ar-lein ac i gyrion trefi. Er enghraifft, adleoli Heddlu Gogledd Cymru o'i orsaf heddlu yng nghanol tref Wrecsam ym Modhyfryd i gyfleuster newydd yn Llai ar gyrion y dref yn 2019. Gwneir hyn yn aml am resymau dilys – gwell cost, ansawdd ac effaith amgylcheddol. Ond gall hefyd weithio yn erbyn agenda ‘canol tref yn gyntaf’. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael y fframwaith polisi hwn yn iawn, gyda’r holl bartneriaid allweddol yn cytuno, er mwyn i 'canol trefi yn gyntaf' weithio'n ymarferol.

## Gellir mynd i'r afael â llawer o'r problemau sy'n wynebu canol trefi, ond mae gofyn i lywodraeth genedlaethol a lleol gyflenwi atebion integredig a gwneud penderfyniadau dewr

3.9 Mae manwerthu'n bwysig o hyd, ond nid hwn yw prif ddiben canol trefi yn yr 21ain ganrif ac mae angen gweithgareddau eraill i gymryd ei le. Gan amlaf, mae'r gorgyflenwad manwerthu hwn yn cael ei reoli drwy hap yng nghanol trefi ac yn bennaf o ganlyniad i fethiannau cwmnïau, cau siopau, colli sefydliadau angori, adleoli yn y sector cyhoeddus a newid arferion siopwyr. Mae llawer o'r penderfyniadau hyn yn rhai masnachol sy'n cael eu sbarduno gan elw a risg. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn y tueddiadau hyn yn y farchnad a derbyn bod canol trefi yn newid, a chynllunio i helpu i reoli'r newid hwn. O'n hymchwil, er mwyn helpu i greu lleoedd trefol cynaliadwy, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymhwyso'r pedair elfen adfywio canol tref – **Arddangosyn 10**.

**Arddangosyn 10: pedair elfen adfywio canol tref**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Bwriad

**Mae angen i awdurdodau lleol fod yn glir ynghylch diben canol eu trefi a darparu arweinyddiaeth onest, gref a deinamig i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu**

3.10 Mae awdurdodau lleol yn adnabod eu trefi ac maent yn hanfodol i arwain, cynllunio a gweithredu newid i fynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu. Fel y gwelsom mewn rhannau cynharach o'r adroddiad hwn, mae awdurdodau lleol yn rheoli dulliau allweddol a all helpu i greu lleoedd cynaliadwy. Mae ganddynt y pwerau cyfreithiol i hwyluso newid, mae adnoddau ar gael iddynt ac mae ganddynt 'seilwaith' polisi i'w ddefnyddio i sicrhau gwelliant. Yn bwysig, maent hefyd yn arweinwyr cymunedol.

3.11 Felly, mae angen i awdurdodau lleol gael gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol canol eu trefi, a chynllun ar gyfer newid yn cefnogi'r weledigaeth honno. Yn bwysig, mae angen iddynt nodi'n glir eu huchelgeisiau ar gyfer eu trefi a dangos egni a chyfeiriad. Os nad yw awdurdodau lleol wedi ymrwymo i wella canol trefi, addo adnoddau ac arwain adfywio yna mae'n anodd cyfiawnhau pam y dylai eraill – busnesau, mentrau cymdeithasol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus – fuddsoddi amser, ymdrech ac arian i wneud hynny. Mae uchelgais yn annog cyfranogiad, sy'n arwain at syniadau a all ddenu cyllid. A chymaint o ansicrwydd, nawr yw'r amser i fod yn feiddgar ac uchelgeisiol a gwneud pethau gwahanol a gwneud pethau'n wahanol.

3.12 Mae anghenion trefi'n wahanol ac felly bydd angen atebion gwahanol arnynt. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth gywir i allu nodi'r ymatebion sydd eu hangen. Mae'n amlwg nad oes un ateb 'sy'n addas i bawb'. Mae'n rhaid i bob tref fanteisio ar ei chryfderau lleol a datblygu cynlluniau penodol sy'n adlewyrchu ei sefyllfa unigryw. I'r trefi hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf, mae'n anodd gweld adfywio llwyddiannus yn digwydd heb gynnwys awdurdodau lleol cryf i lywio gweithgarwch, ond hefyd yn defnyddio pwerau o grynhoi safleoedd i gymorth ariannu.

3.13 Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol hefyd edrych ar eu hardal gyfan wrth flaenoriaethu adfywio ac ystyried cyd-ddibyniaeth trefi. Fel y gwelsom uchod, mae trefi yng Nghymru yn gyd-ddibynnol ac yn gwasanaethu dibenion gwahanol. Mae adfywio lleoedd annibynnol yn fwy tebygol o gael mwy o effaith economaidd a chymdeithasol na buddsoddi mewn mannau dibynnol. Mae trefi sydd â lefelau uwch o annibyniaeth yn darparu gwasanaethau craidd i eraill ac, ar gyfer natur ddringadwy, maent yn obaith mwy deniadol ar gyfer buddsoddi. A dyfodiad mwy o gydweithio drwy greu Cydbwyllgorau Corfforaethol[33], bydd cyfleoedd i gryfhau cynllunio datblygu strategol rhanbarthol, cynllunio trafnidiaeth a hyrwyddo lles economaidd ardaloedd.

33 Llywodraeth Cymru, Cydbwyllgorau corfforaethol: canllawiau statudol drafft, Gorffennaf 2021

3.14 Mae'r stryd fawr yn llai ac yn parhau i grebachu'n greiddiol, a byddant yn parhau felly, ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn onest ac yn agored ynglŷn â hyn. Dylai manwerthu fod yn ffocws o hyd, ond rhaid i eiddo ddarparu siopau sydd eu hangen ar fanwerthwyr heddiw, nid 30 mlynedd yn ôl. Unedau llai, mwy hyblyg ar y llawr gwaelod, gyda phrydlesi byrrach – neu hyd yn oed siopau dros dro. Rhaid ailstrwythuro ardaloedd ymylol, lle ceir gormodedd o siopau gwag, er mwyn eu hailddatblygu at ddefnyddiau amgen – tai, cymunedol, adloniant a hamdden – er mwyn helpu i ddarparu stryd fawr fwy cryno a chynaliadwy.

3.15 Mae angen i awdurdodau lleol ystyried sut mae canol trefi'n creu buddion economaidd, ond hefyd sut y gallant helpu i wella iechyd a lles pobl a gwella'r amgylchedd lleol. A llai o alw am fanwerthu ffisegol, mae angen i awdurdodau lleol ystyried defnyddiau amgen fel mwy o dai, gan ganolbwyntio ar dreftadaeth eu trefi drwy annog gwasanaethau celfyddydol, diwylliannol a hamdden newydd ac ehangu'r buddion i'r gymuned a thir y cyhoedd.  Mae canolbwyntio ar seilwaith gwyrdd a glas – creu parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, coed stryd, rhandiroedd, toeau a waliau gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy – yn faes amlwg ar gyfer twf.

3.16 Nododd uwch swyddogion a chynghorwyr awdurdodau lleol a holwyd gennym nad yw'r model gwneud penderfyniadau traddodiadol ar gyfer goruchwylio adfywio yn ddigon hyblyg na syml i gadw i fyny â'r byd hwn sy'n newid yn gyflym. Felly, mae angen i gynlluniau fod yn endidau 'byw' deinamig; wedi'u datblygu a'u rheoli'n hyblyg; yn destun gwerthuso trwyadl a rheolaidd; ac wedi'u haddasu i fynd i'r afael â phroblemau ar y pryd nid o'r gorffennol. Yn seiliedig ar ein hadolygiad, mae'r rhain i gyd yn feysydd

# Cynnwys

**Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i flaenoriaethu ac arwain ar gynllunio lleoedd, ond mae angen cynnwys cymunedau a busnesau'n llawn**

3.17 Mae'r stryd fawr a chanol trefi wrth wraidd y gymuned, ond os na chaiff cymunedau eu cynnwys, ni cheir adfywio o gwbl. Yn y pen draw, pobl sy'n gwneud y stryd fawr. Mae angen i awdurdodau lleol ddeall eu cymunedau lleol i ddarganfod beth maent am ei gael gan ganol eu trefi, a'u cynnwys wrth benderfynu sut y defnyddir lleoedd manwerthu gwag.

3.18 Yn hanesyddol, mae hwn yn faes sy’n peri trafferth i awdurdodau lleol. Canfu ein harolwg o uwch swyddogion, cynghorwyr a busnesau fod gan gynghorwyr a Llywodraeth Cymru fwy o ddylanwad ar adfywio lleol nag unrhyw randdeiliad arall. Mae cymdeithasau tai a phartneriaid yn y sector cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig a hefyd yn cael mwy o ddylanwad na chynghorau tref a chymuned a'r trydydd sector. Fodd bynnag, ystyriwyd yn unfrydol nad oedd gan drigolion – y bobl sy'n byw yn ein trefi – fawr ddim o ddylanwad ar adfywio. Lle mae'n digwydd, mae fel arfer ar ffurf ymgynghori ar flaenoriaethau sefydledig ac nid yw pobl yn helpu o gwbl i nodi, llunio a chytuno ar atebion. Mae hyn yn fethiant mawr.

3.19 Mae llawer o ddinasyddion sy'n ymateb i'n harolwg yn dangos lefel uchel o realaeth, gan gydnabod bod trefi'n newid ac nad ydynt yn aros yr un fath. Ystyrir adfywio'n gadarnhaol fel rhywbeth sy'n arwain at welliant ac na ddylid ei osgoi. Maen nhw’n rhanddeiliaid – y rhanddeiliaid allweddol – ond maent yn aml ar gyrion trafodaethau a phenderfyniadau. Os nad yw pobl yn berchen ar gynlluniau adfywio, ni fyddant yn llwyddo.

3.20 Gellir cynnwys y gymuned mewn adfywio ddigwydd ar lawer ffurf. Dwy o'r mentrau cynnwys mwy llwyddiannus fu defnyddio Cynlluniau Lleoedd, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac Ardaloedd Gwella Busnes:

- **Cynlluniau Lleoedd**: Yn draddodiadol, bydd awdurdodau cynllunio yn ymgynghori â'r gymuned leol yn rhan o'r broses gymeradwyo ar gyfer cais unigol. Mae cynllunio lleoedd yn broses lawer mwy cynhwysol a thymor hwy, gan fanteisio ar adnoddau cymunedol presennol i greu syniadau a throi'r rhain yn flaenoriaethau lleol. Gyda chynllun lle da, mae gan awdurdodau lleol fforwm parhaus i brofi cynigion adfywio, ymhell cyn i benderfyniadau gael eu gwneud, a sicrhau bod unrhyw gynigion yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau'r gymuned leol.
- **Ardaloedd Gwella Busnes**: AGB yw lle mae busnesau lleol yn arwain ac yn cydweithio â phartneriaid i ffurfio grŵp i fuddsoddi arian a gwneud gwelliannau i ardaloedd penodol fel canol trefi, drwy ddarparu gwasanaethau ychwanegol uwchlaw'r hyn sydd eisoes ar gael. Gall AGB hefyd fod yn thematig, fel cefnogi'r sector digidol. Sefydlir AGB drwy broses bleidleisio gyfreithiol – mae pob busnes sy'n talu ardrethi busnes o fewn yr ardal yn pleidleisio o blaid neu yn erbyn dogfen gynnig sy'n nodi gweithgareddau prosiect a'i nod o sbarduno adfywiad economaidd lleol yr ardal benodol. Os bydd pleidlais yn llwyddiannus, bydd pob busnes yn talu swm ychwanegol y cyfeirir ato fel 'ardoll' ar ben ei drethi busnes. Defnyddir yr ardoll wedyn i ariannu'r prosiectau yn y ddogfen gynnig. Gellir sefydlu AGB i redeg hyd at bum mlynedd ac yna rhaid ail-bleidleisio yn ei chylch.

3.21 Mae'r ddau ddull hyn yn galluogi cymunedau lleol i gymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau cynllunio lleol a gwelsom rai dulliau gweithredu da. Er enghraifft, gwaith cadarnhaol AGB Caru Treorci[34], y Cynllun Lle a ddatblygwyd gan Gyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn [35] gwaith Fforwm Landlordiaid Altrincham[36]. Mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau da o'r ffordd y gall cymuned gysylltiedig lunio adfywio, gan adeiladu ar ewyllys da dinasyddion a busnesau lleol i wella eu hardal leol.

# Gwybodus

**Mae angen i awdurdodau lleol werthfawrogi a defnyddio data i ddeall canol eu trefi yn well ac effaith prosiectau adfywio blaenorol i bennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

3.22 Mae swyddogion y cyfwelwyd â hwy'n cydnabod nad oes ganddynt wybodaeth a data allweddol i'w helpu i ddeall deinameg y 'farchnad' yng nghanol eu trefi. Nifer yr ymwelwyr ac eiddo gwag yw'r metrigau a ddyfynnir ac a ddefnyddir amlaf, ond nid yw'r rhain yn dweud dim am effaith ymwelwyr â chanol trefi – faint y maent yn ei wario, pa mor aml y maent yn dychwelyd a pham – nac am elw manwerthu a gwerthoedd rhentu. Mae data lle mae'n bodoli yn canolbwyntio ar drefi unigol. Prin yw'r ddealltwriaeth am ddemograffeg dalgylch a phatrymau siopa ar gyfer trefi, a'u rhyng-gysylltedd rhanbarthol. Mae gan awdurdodau lleol ran allweddol i'w chwarae o ran cryfhau ansawdd a chwmpas data a byddai creu partneriaethau cryfach gydag arbenigwyr data o fudd iddynt.

3.23 Mae data digidol yn cynnig cipolwg ar symudiadau teithio, parcio, gweithgarwch ffonau symudol, rhyngweithio rhwng y cyfryngau cymdeithasol a defnyddio Wi-Fi, a gall ddarparu mewnwelediadau cost-effeithiol am y defnydd newidiol o ganol trefi. Fodd bynnag, nid yw casglu a defnyddio dulliau digidol yn fodd o gynyddu dealltwriaeth, targedu, marchnata a monitro newid yn amlwg mewn llawer o gynlluniau gweithredu canol trefi a adolygwyd gennym. Yn gyffredinol, canfuom fod ymchwil genedlaethol a rhanbarthol a all helpu i lunio strategaethau sector cyhoeddus a busnes ar ganol trefi ar gael yn eang, ond prin y'u defnyddir[37].

34 lovetreorchy.co.uk

35 Cyngor Tref y Drenewydd, Cynllun Lle'r Drenewydd a Llanllwchaearn

36 Cylchlythyr Ymlaen Altrincham Chwefror 2013

37 Mae ystod eang o ddata defnyddiol y gellir ei ddefnyddio gan gynnwys Deall Lleoedd Cymru, CoStar, Y Ganolfan Ymchwil Manwerthu, Centre for Cities a Centre for Towns i enwi ond ychydig.

3.24 Mae gwerthuso cynlluniau adfywio blaenorol yn fecanwaith gwella pwerus. Yn benodol yng nghyd-destun adfywio canol trefi, mae gwerthuso'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio yn ddysgu hanfodol ar gyfer y dyfodol. Mae'n darparu tystiolaeth dda ar gyfer cynigion am gyllid sydd ar y gweill, yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi ac yn galluogi awdurdod i ddeall effaith adfywio ar dargedau a chanlyniadau allweddol. Mae gwerthuso wrth wraidd atebolrwydd ac mae'n galluogi asesiad i weld a yw targedu adnoddau ac ymyriadau yn cynnig gwerth am arian.

3.25 Canfu mwyafrif llethol ein cyfweliadau a'n harolygon nad yw awdurdodau lleol yn gwerthuso eu rheolaeth a'u darpariaeth o raglenni adfywio blaenorol yn llawn er mwyn helpu i lunio cynlluniau newydd. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o wybodaeth annigonol i farnu adfywio yn gyffredinol, ac yn rhannol o ganlyniad i lai o gapasiti. Beth bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at ddefnydd gwael o adnoddau. Ers 2014, mae bron i £900 miliwn wedi'i fuddsoddi neu ei ddenu i adfywio canol trefi, ond nid yw wedi cyrraedd y nod o helpu i greu lleoedd cynaliadwy. Rhaid felly defnyddio’r buddsoddiad a geir mor effeithiol ag sy’n bosibl. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth (ac adnoddau) i ddysgu a gwerthuso o fewn awdurdodau lleol er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwn.

# Ymyriad

**Mae wyneb newidiol canol trefi yn mynnu bod awdurdodau lleol yn ymyrryd mwy**

3.26 Ni all llawer o'r camau sydd eu hangen i helpu i greu canol trefi cynaliadwy ddigwydd heb ryw fath o ymyrraeth gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol gynnwys dinasyddion, busnesau lleol a landlordiaid i greu gweledigaeth ar gyfer eu tref, gan feithrin ymddiriedaeth a dim ond wedyn defnyddio eu pwerau yn fodd o ymyrryd. Mewn llawer o achosion, gall bygythiad cyfunol gorfodi ynghyd â'r cyfle i fod yn rhan o weledigaeth gref, arwain at landlordiaid a thirfeddianwyr yn gwneud newidiadau'n wirfoddol heb fod angen unrhyw gamau ffurfiol. O'n hymchwil, rydym wedi gweld enghreifftiau da o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn arwain ac yn ymyrryd i greu newid cadarnhaol – **Arddangosyn 11**.

## Arddangosyn 11: mae angen i awdurdodau lleol ymyrryd mwy i helpu i greu canol trefi cynaliadwy


### Gweithio'n agosach gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phroblemau perchenogaeth dameidiog ac wynebu'r broblem yn uniongyrchol.

Os bydd landlordiaid yn credu yn eich gweledigaeth, mae'r dewis iddyn nhw'n amlwg. Roedd effaith prosiect trawsnewid tir y cyhoedd Cyngor Trafford a'r strategaeth ar gyfer Altrincham yn galluogi'r cyngor i fynd i'r afael â phroblem gymhleth perchenogaeth ac achosi newid cadarnhaol ar lawr gwlad, gan greu canol tref mwy bywiog ac amrywiol. Roedd y cyngor yn cydnabod bod rhaid iddo arwain a mabwysiadu dull 'canol tref cyfan' i wynebu'r problemau anodd yn uniongyrchol er mwyn iddo lwyddo.




### Medru caffael a chrynhoi tir drwy ddefnyddio pwerau gorfodi'n well ac yn gysonach, a'r rheini'n bwerau prynu gorfodol a gwirfoddol fel ei gilydd.


Gall gorfodi fod yn fygythiad effeithiol iawn heb orfod ei wireddu o reidrwydd, o'i ddefnyddio ochr yn ochr ag uchelgeisiau cryf a gweledigaeth glir i'r dyfodol. Mae Stockton-on-Tees wedi dioddef tynged debyg i strydoedd mawr di-rif ledled Cymru. Mae Cyngor Stockton wedi ateb yr her hon yn feiddgar gan gaffael hen ganolfan siopa, gwesty a maes parcio aml-lawr Castlegate, a oedd mewn cyflwr gwael, gyda'r bwriad o osod parc glan afon yn eu lle, sef rhan o'i weledigaeth tymor hwy o greu ffocws cryfach ar hamdden ac adloniant yng nghanol y dref. Mae newid ffocws canol y dref at yr afon i ailgysylltu â threftadaeth y dref yn allweddol ac mae'n cefnogi agenda seilwaith gwyrdd y cyngor.



**Creu'r cyd-destun rheoleiddio cywir drwy integreiddio cynlluniau defnydd tir a pholisi adfywio trefol gyda mwy o hyblygrwydd cynllunio i ganiatáu ystod ehangach o ddefnyddiau i fynd i'r afael ag adeiladau manwerthu gwag ac adeiladau adfeiliedig.**

Bu canolfannau lle cymysg yn llwyddiannus. Mae gan y lleoedd mwy llwyddiannus gymysgedd o ailddatblygiad, datblygiad newydd, busnesau sy'n cychwyn, busnesau annibynnol a phrosiectau celfyddydau/treftadaeth, a'r cyfan wedi'i reoli gan y gymuned leol. Er enghraifft, y Midsteeple Quarter, Dumfries, sef cymdeithas budd cymunedol sy'n ailddatblygu eiddo gwag ar y Stryd Fawr i greu cymdogaeth newydd gyda chymysgedd o ddefnyddiau ar sail egwyddorion ffyniant a lles lleol. Yn allweddol i'w lwyddiant fu hyblygrwydd gan yr awdurdod lleol yn y ffordd y mae'n cymhwyso ei gyfrifoldebau rheoli datblygiad a chynllunio defnydd tir i annog adnewyddu trefol.





Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiadau

1 Methodoleg Archwilio

2 Nifer y trefi, pentrefi a chymunedau yng Nghymru sydd â mwy na 2,000 o drigolion ym mhob awdurdod lleol

3 Cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn 2020-21 ar gyfer adfywio canol trefi

4 Ardaloedd Gwella Busnes


# 1 Methodoleg Archwilio

Cwblhawyd ein hadolygiad rhwng mis Hydref 2020 a mis Mai 2021. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gennym:

- **adolygu dogfennau**: gwnaethom adolygu strategaeth, canllawiau cenedlaethol, cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ac adroddiadau diweddaru, cynlluniau awdurdodau lleol, adroddiadau perfformiad lleol a cenedlaethol.
- **cyfweliadau**: cyfwelwyd â phob swyddog arweiniol adfywio awdurdod lleol, aelodau o staff tîm adfywio Llywodraeth Cymru, amrywiaeth o sefydliadau lleol, rhanbarthol a cenedlaethol cynrychioliadol gan gynnwys y Sefydliad Materion Cymreig, staff nifer o brifysgolion, Un Llais Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Sefydliad Bevan er enghraifft.
- **grwpiau ffocws**: cynhaliwyd tri grŵp ffocws gydag aelodau etholedig o bob rhan o Gymru i drafod canol eu trefi**.**
- **dadansoddi data**: gwnaethom adolygu'r data sydd ar gael ar ganol trefi yng Nghymru a defnyddio gwaith Deall Lleoedd Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac eraill.
- **arolygon**: cynhaliwyd pedwar arolwg gyda dinasyddion, busnesau canol trefi, cynghorwyr (prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned) ac arweinwyr adfywio awdurdodau lleol. Darparwyd yr arolygon dinasyddion a busnes ar-lein ac fe'u cefnogwyd gan gyfres o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb. Cwblhawyd ein harolwg gan 1,984 o ddinasyddion a 442 o fusnesau. Cawsom 228 o ymatebion gan gynghorwyr a chwblhaodd 20 o'r 22 cyngor yr arolwg uwch swyddogion.
- **gweminar**: cynhaliwyd gweminar gennym i drafod ein casgliadau a ddaeth i'r amlwg ym mis Mai 2021 a denwyd dros 160 o bobl.

# 2 Nifer y trefi, pentrefi a chymunedau yng Nghymru sydd â mwy na 2,000 o drigolion ym mhob awdurdod lleol

Gweler ein hofferyn data am yr holl wybodaeth.




Ffynhonnell: Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru/Sefydliad Materion Cymreig, Deall Lleoedd Cymru, datganiad Rhagfyr 2020 Dadansoddiad gan Archwilio Cymru

# 3 Cyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn 2020-21 ar gyfer adfywio canol trefi

| Cyngor | Dyraniad |
|---|---|
| Abertawe | £13,685,106 |
| Casnewydd | £9,519,515 |
| Castell-nedd Port Talbot | £7,651,128 |
| Wrecsam | £7,320,131 |
| Powys | £6,756,572 |
| Blaenau Gwent | £6,226,708 |
| Caerffili | £6,167,264 |
| Gwynedd | £5,906,725 |
| Sir Benfro | £5,471,983 |
| Sir Ddinbych | £4,805,649 |
| Merthyr Tudful | £4,665,766 |
| Caerdydd | £4,210,229 |
| Ynys Môn | £4,067,000 |
| Rhondda Cynon Taf | £3,623,725 |
| Conwy | £3,147,125 |
| Sir Gaerfyrddin | £3,116,103 |

| Cyngor | Dyraniad |
|---|---|
| Ceredigion | £2,807,136 |
| Bro Morgannwg | £2,067,500 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,981,305 |
| Sir y Fflint | £1,965,309 |
| Sir Fynwy | £1,422,000 |
| Torfaen | £1,000,025 |
| **CYFANSWM** | **£107,584,004** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# 4 Ardaloedd Gwella Busnes

Mae 18 AGB yng Nghymru.

| Gweithredu | Cyfnod Dichonoldeb | Terfynwyd 2021 |
|---|---|---|
| Aberdâr | Y Drenewydd | Castell-nedd |
| Aberystwyth | Wrecsam | |
| Bangor | | |
| Caernarfon | | |
| Caerdydd | | |
| Caerfyrddin | | |
| Glynebwy (AGB ddiwydiannol) | | |
| Llanelli | | |
| Merthyr Tudful | | |
| Casnewydd | | |
| Pontypridd | | |
| Port Talbot | | |
| Rhyl | | |
| Abertawe | | |
| Treorci | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:** | Adolygiad o waith Adfywio Canol Trefi yng Nghymru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>01248 752491 ChristianBranch@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio<br>01248 752483 DewiLloyd@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br><br>Adrodd ar adolygiad Archwilio Cymru ar fater Adfywio Canol Trefi yng Nghymru a'i argymhellion i awdurdodau lleol yng Nghymru<br><br>Adrodd ar ymateb y Cyngor Sir i'r argymhellion yma, gan gynnwys ein hunanasesiad yn seiliedig ar ganllawiau Archwilio Cymru | |
| **Argymhelliad :** Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys | |

## Archwilio Cymru - Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

Cynhaliodd Archwilio Cymru (AC) adolygiad o adfywio canol trefi yng Nghymru yn ystod 2021, a chyhoeddwyd adroddiad ganddynt ym mis Medi 2021. Bu swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid lleol yn ymwneud â darparu tystiolaeth a sylwadau i AC fel rhan o'r adolygiad.

Cyhoeddir yr adroddiad ar-lein yma https://wao.gov.uk/cy/publication/adfywio-canol-trefi-yng-nghymru

Mae'r negeseuon allweddol yn yr adroddiad fel a ganlyn :-

*a)Mae canol trefi wrth wraidd bywyd Cymru a gallant fod yn lleoedd bywiog a chynaliadwy, ond mae mynd i'r afael â'r heriau niferus y maent yn eu hwynebu yn gofyn am benderfyniadau dewr ac arweinyddiaeth uchelgeisiol*

*b)Mae twf manwerthu y tu allan i'r dref, colli gwasanaethau fel banciau yn gynyddol, a thwf siopa ar-lein wedi arwain at ddirywiad cyson mewn llawer canol tref - dirywiad sydd wedi ei waethygu gan y pandemig.*

*c) Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adfywio canol trefi, ond nid yw ei pholisi 'canol tref yn gyntaf' wedi'i wreiddio'n llawn eto, ac mae canol trefi yn aml yn ei chael hi'n anodd.*

*d) Awdurdodau lleol yw'r cyrff cyhoeddus allweddol i helpu i adfywio canol trefi, ond yn aml nid oes ganddynt y capasiti i gyflawni'r adfywio cynaliadwy sydd ei angen, a nid yw'r pwerau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n llawn.*

*e) Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i flaenoriaethu ac arwain ar gynllunio lleoedd ond mae angen iddynt fod yn glir ynghylch diben canol eu trefi, cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn penderfyniadau, deall problemau'n well, adnabod yr atebion gorau, a dod yn fwy ymyriaethol.*

## Argymhellion Archwilio Cymru

Mae'r adroddiad yn gwneud chwe argymhelliad i Gymru gyfan :-

***A1 - Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ardrethi annomestig***
***A2 – Dylai Llywodraeth Cymru helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion trafnidiaeth canol trefi***
***A3 – Dylai Llywodraeth Cymru wella mynediad awdurdodau lleol at gyllid ar gyfer canol trefi, gan gynnwys cyllid aml-flwyddyn a rhoi cymorth capasiti refeniw/staff yn ogystal â chronfeydd cyfalaf.***
***A4 – Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion yn effeithiol i gefnogi adfywio, gan weithio'n drawsadrannol***
***A5 – Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r amccan 'Canol Tref yn Gyntaf' yn ymarferol***
***A6 – Mae angen i awdurdodau lleol gynllunio'n ofalus sut maent yn rheoli canol trefi, a dylent ddefnyddio ein dull hunanasesu i adolygu eu gwaith presennol er mwyn nodi ble mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi***
https://wao.gov.uk/system/files/2021-09/Adfywio%20Canol%20Trefi%20Offeryn%20Hunanarfarnu%20-%20Cymraeg_0.pdf

## Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adroddiad

Mae dau o argymhellion AC yn berthnasol i bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mewn ymateb i Argymhelliad 6, mae swyddogion perthnasol o wahanol wasanaethau CSYM wedi cwblhau ymarfer hunan-asesu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella / gwaith pellach gan yr awdurdod. Mae canlyniad yr ymarfer hwn wedi'i atodi ac fe'i crynhoir isod, sy'n nodi bod yr awdurdod yn ymgymryd â phob un o'r 38 maes gwaith a nodwyd, ac ni nodwyd unrhyw un nad yw'n cael ei wneud o gwbwl ar hyn o bryd.

*CRYNODEB HUNANASESU CSYM*

| **SGÔR** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **SEFYLLFA** | Na, nid ydym yn gwneud hyn o gwbl, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud hynny | Rydym yn gwneud hyn i raddau cyfyngedig ac mae gennym waith pellach i'w wneud | Ydyn, rydym yn gwneud hyn yn eithaf da, ond mae gennym rywfaint o waith pellach cyfyngedig i'w wneud | Ydyn, rydym yn dda yn gwneud hyn, gyda'r ran fwyaf yn cael sylw i raddau helaeth | Ydyn, rydym yn dda yn gwneud hyn ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach i wella |
| **AMLEDD** | 0 / 38<br>0% | 4 / 38<br>11% | 21 / 38<br>55% | 13 / 38<br>34% | 0 / 38<br>0% |

Dim ond 4 maes sydd angen gwaith sylweddol i'w wneud, mae 21 yn cael sylw eithaf da ond mae angen rhywfaint o waith pellach arnynt, ac ystyrir bod y 13 arall eisoes wedi'u bodloni'n dda iawn . Gan fod lle bob amser i wella rhywfaint yn y dyfodol, ni sgoriwyd yr un ohonynt fel 5. Mae'r meysydd y mae angen gwaith sylweddol arnynt yn ymwneud ag adran 'Bwriad' yr asesiad, ac roedd y rhan fwyaf o'r bylchau hyn eisoes wedi'u nodi cyn cyhoeddi'r adroddiad. Gyda chymorth cyllid refeniw Llywodraeth Cymru, mae gwaith ar y gweill i baratoi strategaeth adfywio canol trefi newydd sy'n cwmpasu pob un o bum canol tref Ynys Môn, a dylai'r broses hon fynd i'r afael â llawer o'r bylchau sylweddol a nodwyd.

Gan ymateb i Argymhelliad 4, mae swyddogion perthnasol o wahanol wasanaethau CSYM wedi cydweithio i baratoi Cynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Gwag Canol Tref, ac mae 25 aelod o staff a 15 aelod/uwch swyddog wedi mynychu sesiynau hyfforddi cysylltiedig.

Mae modd i'r Cyngor ymgeisio am gyllid cyfalaf allanol sylweddol gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, gyda rhywfaint o angen cyd-gyllido. Mae polisiau blaenoriaethu LLC a rhanbarthol yn effeithio pa drefi sydd yn gallu derbyn cyllid, a mae hyn yn newid dros amser. Mae ein lobio ar ran trefi llai wedi llwyddo i sicrhau y bydd modd ymgeisio am rai mathau o gyllid adfywio i gynlluniau cymwys mewn unrhyw un o bum canol tref Ynys Mon yn y dyfodol.

Mae gallu'r Cyngor i gyflawni canlyniadau gweledol sy'n gysylltiedig â'r ddau argymhelliad hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar yr adnoddau staffio, y capasiti, y profiad a'r sgiliau sydd ar waith i wneud hynny'n effeithiol. Mae capasiti staff a therfynau cyllideb yn debygol o olygu na ellir ymgymryd â'r holl eitemau a restrir gan AC, ac efallai na fydd pob un yn hyfyw neu ymarferol i awdurdod bach gwledig ymgymryd â hwy. Er y cyfyngiadau yma, mae'r gwaith sydd wedi digwydd efo safleoedd megis Neuadd y Farchnad, Plas Alltran, a Chlwb Cymdeithasol Biwmaris yn dangos cydweithio aml-wasanaeth effeithiol i ddelio efo sialensau canol trefi.

**Adroddiad gan Dewi G. Lloyd, Rheolwr Adfywio**

**1 Chwefror 2022**

*ATODIAD*

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# *Gwaith Adfywio Canol Tref Ynys Môn*

# *Hunanasesiad Gan ddefnyddio Offeryn Asesu Adfywio Canol Trefi Archwilio Cymru*

## *Diweddarwyd: 1 Chwefror 2022*

Paratowyd ar y cyd gan Swyddogaeth Adfywio & Tim Tai Gwag yn unol a chanllawiau AC

| **Fersiwn /**<br>**Fersiwn** | **Diweddarwyd gan/**<br>**Updated by** | **Dyddiad /**<br>**Date** | **Nodyn /**<br>**Nodi** |
|---|---|---|---|
| V1 | DL | 02.12.21 | Drafft cyntaf ar gyfer sylwadau swyddogion perthnasol |
| V2 | DL & GO | 18.01.22 | Drafft diwygiedig yn adlewyrchu sylwadau a diweddariadau |
| V3 | DL | 01.02.22 | Man ddiwygiadau |

**ADFYWIO CANOL TREFI GAN CSYM – HUNAN ASESIAD GAN DDEFNYDDIO TEMPLED AC**

| Rhif | CAMAU GWEITHREDU SYDD EU HANGEN GAN AWDURDOD LLEOL FEL Y NODWYD GAN AC | HUNAN-SGÔR CSYM / 5 | SYLWADAU SWYDDOGION CSYM |
|---|---|---|---|
| | **BWRIAD** | | |
| 1 | Mae gennym weledigaeth hirdymor ar gyfer holl ganol ein trefi. | 2 | Ar hyn o bryd ar gyfer Caergybi yn unig, ond comisiynwyd strategaeth ledled y sir ar gyfer pob un o'r 5 tref i'w chwblhau yng nghanol 2022, gan eistedd o fewn strategaeth adfywio ehangach Gogledd Cymru , a rhaglen Trawsnewid Trefi Cymru |
| 2 | Yr ydym wedi ymrwymo, gyda arweinwyr gwleidyddol gweladwy ar gyfer adfywio canol trefi | 2 | Cwmpas ar gyfer gweithgarwch mwy gweladwy sy'n gysylltiedig a'r uchod – Ymgyrch hyrwyddo wedi ei drefnu |
| 3 | Ein hymagwedd at ganol y dref adfywio wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynllun allweddol – ee Cynllun Lles, blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau cymunedol, cyngor a rhanbarthol eraill. | 3 | Mae integreiddio'n digwydd a bydd y strategaeth newydd yn helpu i wneud hyn yn gliriach / yn fwy effeithiol. |
| 4 | Rydym wedi gosod amcanion SMART ar gyfer adfywio canol trefi. | 2 | Ar hyn o bryd dim ond ar gyfer rhai prosiectau unigol sy'n gysylltiedig â dyfarniadau ariannu penodol - bydd angen i strategaeth newydd canol trefi ynys Môn gynnwys hyn |
| 5 | Mae gennym atebolrwydd clir, fframwaith i lywodraethu a chraffu ar ein penderfyniadau wrth adfywio canol trefi. | 3 | Oes ond mae lle i wneud hyn yn gliriach. Mae gan CSYM strwythurau craffu ar waith gan gynnwys Pwyllgor Craffu Adfywio, a bydd sesiynau briffio adfywio ar gyfer aelodau lleol gyda deiliaid portffolio a swyddogion yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd ar gyfer Caergybi. |
| 6 | Rydym yn gweithredu mewn ffordd dryloyw a pawb yn glir ynghylch sut mae penderfyniadau ar weithgareddau adfywio canol trefi yn cael eu a wnaed a chan bwy. | 3 | Gweler uchod – mae lle i wella a dylai'r strategaeth newydd fynd i'r afael â hyn |
| 7 | Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar adfywio canol trefi yn atebol am eu dewisiadau ac yn cael eu dwyn i gyfrif drwy drefniadau llywodraethu clir. | 3 | Gweler yr ateb i 5 |
| 8 | Mae gennym ddigon o staff yn y gwasanaethau cywir a chyda'r statws gofynnol i ymgymryd â gwaith adfywio canol trefi. | 2 | Mae nifer fach iawn o staff craidd yn y gwasanaethau RH&DE a Tai yn ymgymryd â'r gwaith hwn lle bo hynny'n bosibl fel rhan o'u prif ddyletswyddau neu'n ychwanegol atynt,wedi'u cefnogi gan ychydig o staff dros dro a ariennir gan grantiau, rhan fwyaf wedi'u cyfyngu yn ddaearyddol i Gaergybi. Mae staff grantiau cyllid hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn gwaith yng nghanol y dref<br>Cafodd adleoli nifer o swyddogion CSYM i reoli/darparu cymorth Covid-19 fel grantiau busnes yn y cyfnod ers mis Mawrth 2020 effaith ar gynnydd gyda cynlluniau adfywio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Mae gennym ddiwylliant y gellir gwneud pethau a meddylfryd entrepreneuraidd o fewn y cyngor ar gyfer adfywio canol trefi. | 3 | Rhai enghreifftiau o fentrau sylweddol yn cael eu gyrru ymlaen er gwaethaf heriau mawr e.e. Neuadd y Farchnad, Clwb Cymdeithasol Biwmaris, Plas Alltran, Menter Siopau Gwag Caergybi (drwy MonCF) |
| 10 | Gallwn recriwtio'r bobl iawn sydd â'r sgiliau cywir i gyflawni ein gwaith adfywio canol tref. | 3 | Mae'r niferoedd sy'n gwneud cais am swyddi prosiect CSYM yn gyffredinol yn isel ac weithiau rydym yn ei chael yn anodd i recriwtio, ac mae rhai staff profiadol wedi gadael am swyddi â chyflog gwell mewn mannau eraill |
| 11 | Yr ydym wedi ymgorffori adfywio gyda rhaglenni trawsnewid hirdymor<br>a/neu adferiad o COVID-19. | 4 | Mae hyn wedi'i enwi / ei gynnwys yng nghynllun adfer CSYM<br>Defnyddiwyd cronfeydd adfywio i gefnogi addasiadau Covid e.e. arwyddion i fusnesau |
| 12 | Gallwn sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnom i ymgymryd â chanol y dref<br>adenedigaeth | 3 | Mae grantiau cyfalaf a chronfeydd benthyciadau ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac mae rhai cronfeydd refeniw ar gael yn awr. Yn gyffredinol, gellir ariannu prosiectau datblygedig da<br>Ehangwyd cwmpas cyllid adfywio trefol Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y tu hwnt i Gaergybi<br>Mae dyraniadau cyllid blynyddol yn unig ar lefel llywodraethol a diffyg prosiectau parod i gyflawni yn cyfyngu ar yr hyn sy'n bosibl i'w gyflawni mewn pryd |
| | **CYFRANOGIAD** | | |
| 13 | Yr ydym yn cyfathrebu'n fewnol ac yn allanol yn effeithiol am yr hyn y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn ceisio'i gyflawni drwy ein gwaith adfywio canol trefi | 3 | Ydym i raddau ond mae'n amlwg bod lle i wella, yn enwedig y tu allan i Gaergybi – bydd y strategaeth newydd yn fodd i wella hyn. Mae tudalen wefan wedi ei greu [https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Adfywio/Adfywio-canol-tref.aspx](https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Adfywio/Adfywio-canol-tref.aspx) Ymgyrch hyrwyddo wedi ei drefnu<br>Mae gan gyfrif Twitter adfywio Caergybi/Ynys Gybi 1,000+ o ddilynwyr & mae fersiwn Ynys Môn yn cael ei ystyried |
| 14 | Rydym yn defnyddio'r arbenigedd a'r wybodaeth<br>o bartneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid wrth nodi a cytuno ar ein blaenoriaethau ar gyfer adfywio canol trefi. | 3 | Ydym ond mae lle i wella – bydd hyn yn rhan o waith y Strategaeth newydd<br>Bydd lleoliad newydd yn Neuadd Farchnad Caergybi ar gyfer staff adfywio yn helpu ymgysylltu â phrif ganol tref y sir<br>Denodd ymgysylltiad ar-lein Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn 600+ o atebion a dylanwadodd y rhain ar y cynllun terfynol |
| 15 | Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adfywio canol y dref<br>yn adlewyrchu'r adborth a gawn gan bartneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid. | 3 | Ydi i raddau, ond yn gyfyngedig i raddau helaeth i brosiectau / meysydd sydd ag adnoddau staffio i wneud hynny ee yng Nghaergybi - mae lle i wella – bydd ymgysylltu ac adborth â rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith strategaeth newydd yn 2022 |
| 16 | Rydym yn galluogi ein holl randdeiliaid i gymryd rhan lawn yn y gwaith o nodi a chytuno ar dref blaenoriaethau adfywio canolfannau:<br>• Aelodau Etholedig<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Bwrdd Iechyd Lleol | 3 | Ydym – i raddau, ac yn gyfyngedig i raddau helaeth i brosiectau / meysydd sydd ag adnoddau staffio i wneud hynny<br>Hanes o ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol yng Nghaergybi<br>Mae lle i wella – mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adborth yn rhan o waith y Strategaeth newydd yn 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Awdurdod Tân ac Achub<br>• Awdurdod y Parc Cenedlaethol<br>• Yr Heddlu<br>• Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Siambr Fasnach<br>• Mentrau Cymdeithasol<br>• Grwpiau cymunedol lleol<br>• Dinesydd unigol | | |
| 17 | Rydym yn annog partneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid i ddatblygu atebion sy'n helpu i adfywio canol ein trefi. | 3 | Ydym – mae CSYM wedi cynorthwyo/cefnogi nifer o atebion a ddatblygwyd gan eraill ee sawl prosiect gan MonCF a Menter Môn - mae lle i wneud mwy, ond mae hyn yn dibynnu ar gael y gallu / profiad addas i wneud hynny |
| 18 | Rydym yn cefnogi adfywio a arweinir gan y gymuned ac yn annog ein partneriaid, busnesau, dinasyddion a rhanddeiliaid i arwain ar adfywio canol trefi drwy annog a gweithio drwy:<br>• Ardaloedd Gwella Busnes<br>• Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Cynlluniau Lle | 3 | Ydym – sawl enghraifft o gydweithio gyda MonCF, Menter Môn, Cynllun Addasiadau Covid efo cynghorau tref, Trefi SMART Digidol<br>Mae lle i wneud mwy a bydd ystyried hyn yn rhan o'r gwaith Strategaeth / Cynlluniau Lle newydd yn 2022 |
| | **HYSBYSU** | | |
| 19 | Rydym yn defnyddio ystod eang o ddata i ddeall canol ein trefi a nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. | 4 | Ydym – defnyddir ystod o ddata gan gynnwys MALIC, safleoedd gwag, Cyfrifiad, gwefan Lleoedd Cymru<br>Proffil MALIC ar gyfer 5 tref yn ymddangos ar y wefan<br>Proffiliau tref a gynhyrchwyd yn ddiweddar fel rhan o Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru a fel rhan o waith sylfaen Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn 2022 |
| 20 | Mae ein data yn cynnwys:<br>• Nifer yr Ymwelwyr<br>• Digidol – Defnydd Wi-Fi, rhyngweithiadau â'r cyfryngau, teithio<br>symudiadau, ac ati<br>• Eiddo – rhent, elw<br>ac unedau gwag<br>• Demograffeg dalgylchoedd<br>• Rhyngddibyniaeth trefi | 3 | Lazers cyfri nifer cerddwyr yng Nghaergybi<br>System Wifi gyhoeddus Trefi Digidol wedi'i gosod neu ei chynllunio ym mhob un o'r 5 canol tref<br>Cynhaliwyd arolygon defnydd achlysurol<br>Data cyhoeddedig amrywiol fel y bo'n briodol<br>Ffynonellau data ychwanegol fel rhan o waith llinell sylfaen y strategaeth |
| 21 | Rydym yn gwneud penderfyniadau tryloyw yn seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da wrth benderfynu ar adfywio canol trefi | 3 | Ydym - ond mae penderfyniadau'n aml yn adlewyrchu'r gallu i gyflawni gwariant cyfalaf ac ystyriaethau cymhwysedd – mae lle i wella a bydd hyn yn rhan o waith y Strategaeth newydd yn 2022 |
| 22 | Rydym yn derbyn gwybodaeth o ansawdd da i:<br>• barnu a ddylem cymeradwyo canol tref prosiect adfywio; a<br>• monitro a gwerthuso'n llawn perfformiad o'n darpariaeth o | 3 | Ydym – mae'r meini prawf ariannu a'r ffurflenni ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau yn ei gwneud yn glir pa wybodaeth sydd ei hangen gyda cheisiadau ond nid yw bob amser o ansawdd da – mae gwybodaeth monitro yn tueddu i fod yn eithaf sylfaenol.<br>Mae lle i wella, ond mae cyflawni hyn yn dibynnu ar gapasiti i raddau helaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | adfywio canol trefi | | |
| 23 | Mae gennym ddiwylliant gwneud penderfyniadau hyderus ac nid oes gan aelodau etholedig ofn herio swyddogion a dwyn pobl i gyfrif. | 3 | Oes ond mae lle i wneud mwy – bydd hyn yn rhan o waith y Strategaeth neydd yn 2022<br>Cynhelir cyfarfodydd briffio / holi ar gyfer aelodau lleol o bryd i'w gilydd ar gyfer Caergybi |
| 24 | Rydym yn adolygu ein gwaith adfywio canol trefi yn rheolaidd er mwyn sicrhau mai ein gweithredoedd a'n penderfyniadau yw'r rhai cywir. | 3 | Ydym ond mae hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig â chyllid allanol – mae lle i wella a bydd hyn yn rhan o waith y Strategaeth newydd yn 2022 |
| 25 | Rydym yn diwygio ein rhaglenni adfywio canol trefi i adlewyrchu anghenion sy'n newid a'r gofynion. | 3 | Ydym ond mae'n tueddu i fod yn gysylltiedig â chyllid allanol – mae lle i wella a bydd hyn yn rhan o waith y Strategaeth newydd yn 2022 |
| 26 | Gosodwn dargedau a mesurau llwyddiant i adfywio canol trefi farnu gwelliant dros amser, a monitro'r rhain pan gytunwyd arnynt | 4 | Ydym – mae Llywodraeth Cymru a chyllid adfywio arall ar gyfer canol trefi yn destun targedau meintiol sy'n cael eu monitro bob chwarter |
| 27 | Cymerwn gamau unioni ar y cyd o ganlyniad i'n gwerthusiad parhaus o raglenni adfywio canol trefi | 4 | Ydym – er enghraifft mae swyddogion adfywio wedi nodi'r diffyg cefnogaeth i drefi llai/gwledig, ac wedi lobïo i addasu'r rhaglen ranbarthol a'i newid yn llwyddiannus er mwyn caniatáu rhan o'r cronfeydd adfywio i gefnogi trefi llai |
| 28 | Rydym yn rhannu dysgu ac yn defnyddio tystiolaeth gan gynghorau eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill i ddysgu beth sy'n gweithio/ nad yw'n gweithio, yr heriau sy'n ein hwynebu a'r gwobrau posibl | 4 | Ydym – mae CSYM yn mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau rhwydweithio rheolaidd ac arbennig sy'n cyflawni hyn ee grŵp adfywio rhanbarthol misol (RROG), Grŵp Gweithredu Canol Trefi, cyfarfodydd Syddogion Adfywio a Grwp Benthyciadau Eiddo |
| 29 | Adolygwn effeithiolrwydd ein penderfyniadau yn y gorffennol ar adfywio canol trefi er mwyn deall yr hyn a weithiodd a'r hyn nad oedd | 4 | Ydym, megis y gwerthusiad annibynnol o ESI Caergybi a Rhaglen VVP Caergybi 2014-17, ond dim ond yn tueddu i ddigwydd lle mae cyllidwyr yn gofyn yn benodol am hyn/ y darperir ar ei gyfer mewn cyllideb a ariennir yn allanol |
| 30 | Rydym yn cynnal gwerthusiad ôl-weithredu o ganol tref unigol cynlluniau adfywio i wirio bod yr amcanion a bennwyd gennym wedi'u cyflawni | 4 | Ydym – gweler uchod |
| 31 | Gallwn ddefnyddio gwybodaeth gadarn sy'n dangos sut mae ein gwaith adfywio yn:<br>• gwella<br>a lles iechyd;<br>• gwella ansawdd adeiladau<br>a chartrefi yng nghanol ein trefi;<br>• lleihau allyriadau carbon<br>targedau a gwella<br>isadeiledd | 3 | Gallwn i raddau – mae allbynnau'n cael eu monitro ee gyda chynlluniau TRI/PMG ond mae lle i wneud mwy i fonitro a mesur canlyniadau tymor hwy, yn enwedig y rhai sy'n fwy ansoddol / anniriaethol |
| | **YMYRIAD** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 32 | Rydym wedi diffinio ac egluro rolau, cyfrifoldebau a'n pwerau cyfreithiol i gefnogi adfywio canol ein trefi gwaith | 3 | Ydym ond lle i wella / egluro rolau a chyfrifoldebau – mae Cynllun Gweithredu Gorfodi Canol Tref Ynys Môn a baratowyd yn ddiweddar yn gwneud hyn i raddau ac mae Hyfforddiant Gorfodi Canol Tref Ynys Môn yn ddiweddar wedi helpu i egluro'r pwerau sydd ar gael |
| 33 | Gallwn ddefnyddio a defnyddio sgiliau a gwybodaeth ein partneriaid,<br>Llywodraeth a rhanddeiliaid i'n helpu i gymryd camau cyfreithiol i adfywio'r dref<br>canolfannau | 4 | Gallwn – cydweithio da yn digwydd ar draws gwasanaethau CSYM a chyda LlC<br>Sawl enghraifft o gymeryd camau perthnasol ee gorchymyn pryniant gorfodol ar gyfer Neuadd y Farchnad a Chlwb Cymdeithasol Biwmares, gwaith ar Blas Alltran<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymgynghorydd i gynghori a chynorthwyo ALl gyda materion eiddo problemus |
| 34 | Rydym yn darparu landlordiaid, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid sydd â chyngor ac arweiniad o ansawdd da gan gynnwys: Cyngor i landlordiaid ar opsiynau sydd ar werth,<br>rhent a pherchnogaeth<br>• Rhestr o asiantau i helpu i werthu/rhentu<br>• Ffioedd gostyngol drwy Cynllun Arwerthwr<br>• Nodi a rhestru potensial Buddsoddwyr/Datblygwyr<br>• Rhestr o Adeiladwyr cymeradwy/ Penseiri<br>• Rhestr gyfansawdd gwaith -am ddim | 4 | Ydym – mae staff CSYM perthnasol yn ymdrin ag ymholiadau'n rheolaidd<br>Mae enghreifftiau o gamau gweithredu gan y Tîm Cartrefi Gwag yn cynnwys :-<br>Neges blynyddol i berchnogion eiddo gwag ledled yr Ynys. Mae'r rhain yn rhoi amlinelliad manwl o'r holl gynlluniau cymhelliant ariannol sydd ar gael i berchnogion eiddo gwag a'r cynllun lleihau TAW ar gyfer adnewyddu eiddo sy'n wag dros ddwy flynedd. Yna caiff pob arweiniad ei ddilyn a chynigir cyngor ac arweiniad pwrpasol i berchnogion. Yna caiff cynnydd ei fonitro<br><br>Nid yw'r canlynol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd gan CSYM :-<br>-rhestr o Adeiladwyr/Penseiri cymeradwy<br>-rhestr gwaith cyfansawdd am ddim |
| 35 | Rydym yn cefnogi landlordiaid i fynd i'r afael ag eiddo gwag drwy gynnig ystod eang o wasanaethau gan gynnwys:<br>• Defnyddio gwefan ALl i hyrwyddo/ hysbysebu tir/adeiladau ar gyfer perchnogion<br>• Asiantaeth Gwella Cartrefi<br>• Y Sector Preifat sy'n cael ei redeg gan y Cyngor<br>Cynllun prydlesu<br>• Cynllun gosodiadau cymdeithasol i gyd-fynd â ymgeiswyr i'w rhentu'n breifat<br>• Prynu uniongyrchol gan ALl neu RSL<br>• LOT a HARPS i greu<br>cartrefi uwchben y siop | 4 | Ydym– enghreifftiau o'r camau a gymerwyd yn cynnwys :-<br>- Prynu safleoedd problemus yn uniongyrchol ar gyfer adnewyddu ac ailwerthu<br>- Prynu safleoedd problemus yn uniongyrchol i'w hadnewyddu a'u gosod gan yr ALl<br>- Cynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cymru i brynu a datblygu cynllun ar gyfer eiddo/safle problemus<br><br>Nid yw'r canlynol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd gan CSYM :-<br>-Asiantaeth Gwella Cartrefi<br>-Cynllun Prydlesu'r Sector Preifat gan y Cyngor<br><br>Nid oes cynllun LOT /HARPS penodol ar gyfer cartrefi uwchben y siop |
| 36 | Rydym yn darparu landlordiaid, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid gyda chymorth ariannol i helpu i adfywio canol trefi gan gynnwys:<br>• Grantiau gwella sy'n gysylltiedig â | 4 | Ydym – cyngor, benthyciadau a rhai grantiau a ddarperir, er enghraifft :<br>- Grantiau THI Caergybi ar gyfer gwelliannau eiddo hanesyddol<br>- Grantiau TRI a PMG ar gyfer gwelliannau i eiddo<br>-Benthyciadau Canol Trefi / Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi ee-trosi Gwesty'r Bull Amlwch yn fflatiau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | enwebiadau i eiddo<br>• Benthyciadau ar gyfer gwaith gwella (di-log neu beryn llog)<br>• Cyngor benthyca masnachol<br>• Disgownt TAW a/neu Gyfalaf Cynlluniau lwfans | | -trosi hen Fanc HSBC Amlwch yn fflatiau<br>-trosi hen Gapel ym Mhorth Amlwch yn fflatiau.<br>Grantiau gwella sy'n gysylltiedig â hawliau enwebiadau i eiddo (grant o 70%/30% eu hunain) –<br>12 grant landlordiaid wedi'u dyrannu yng Nghanol Tref Caergybi<br>Mae opsiynau ar gyfer grant gwella eiddo trefol newydd yn cael eu hystyried yn rhanbarthol |
| 37 | Yr ydym yn cymryd camau gorfodi yn rhagweithiol<br>adfywio canol trefi yn llawn gan ddefnyddio:<br>• S.215 o'r<br>Ddeddf Cynllunio 1990<br>• S.77-79 o Ddeddf Adeiladu 1984<br>– strwythurau peryglus, adfail<br>ac wedi dadfeilio<br>• Deddfau Tai 1985 a 2004 –<br>hysbysiadau gwella, EDMOs,<br>dymchwel, clirio a GPG<br>• S.79-80 o'r<br>Deddf Amgylchedd 1990 – niwsans statudol<br>• S.4 o Ddeddf Atal Difrod<br>gan Bla 1949<br>• A.29 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)<br>• Adeiladau Rhestredig/Gwaith Brys<br>• Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1936 a 1961<br>• Enwi a chywilyddio landlordiaid<br>yn gyhoeddus | 4 | Ydym ond mae capasiti ac adnoddau yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gyflawni<br>Mae enghreifftiau o'r camau a gymerwyd yn cynnwys :-<br>Neuadd Farchnad Caergybi – prynu gorfodol<br>Adeilad Bwyty'r Crown – dymchwel gorfodol<br>Adeilad Clwb Cymdeithasol Biwmares – pryniant gorfodol ar ôl cyflwyno cais cynllunio llwyddiannus gan y Gwas. Tai i ddymchwel ac ail-ddatblygu'r safle yn 6 fflat.<br>Cytunodd perchennog Plas Alltran (un o'r adeiladau Fictoraidd gorau sydd fwyaf mewn perygl yn y DU) i'r gwerthiant gwirfoddol. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi sicrhau caniatâd cynllunio i droi'n bedwar fflat tai cymdeithasol.<br><br>Mynychodd tua 40 o staff /aelodau CSYM sesiynau hyfforddi gorfodi canol trefi yn 2021 |
| 38 | Rydym yn defnyddio ein pwerau i annog adeiladau gwag i gael eu defnyddio eto yng nghanol trefi:<br>• Treth y Cyngor, Dyledion Statudol neu Adennill dyledion Ardrethi Busnes (Methdaliad, gorchmynion codi tâl neu Beilïaid)<br>• Gweithdrefn Llys Sirol neu Werthiannau a Orfodwyd<br>• Premiwm Cartrefi Gwag ac Ail Gartrefi<br>• Erlyn<br>• Gorchymyn Prynu Gorfodol<br>• Rheoli Anheddau Gwag<br>• Gweithdrefn Gwerthu a Orfodwyd<br>• Prynu Uniongyrchol | 4 | Ydym – mae enghreifftiau o bwerau a ddefnyddir gan IoACC yn cynnwys :-<br>- Premiwm Treth y Cyngor ar gartrefi gwag & cartrefi gwyliau<br>- Sawl GPG – gweler uchod<br><br>Mynychodd tua 40 o staff /aelodau IoACC sesiynau hyfforddi gorfodi canol tref Ynys Môn a gynhaliwyd yn 2021 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021



Dyma grynodeb ein harchwiliad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.
Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwiliad Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021. Mae'r crynodeb o'n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 30 cynghorydd sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 14
- Annibynwyr Ynys Môn 7
- Y Grŵp Annibynnol 7
- Llafur Cymru 2

Gwariodd y Cyngor £137.9 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, y trydydd gwariant isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyled.

| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £29.5 miliwn yn ei gronfeydd ariannol wrth gefn y gellid eu defnyddio[2]. Mae hyn yn cyfateb i 21.4% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y 14eg ganran uchaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[3]. |
| Bernir bod gan Gyngor Ynys Môn un o'r 191 ardal ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd y 3ydd isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[4]. |
| Rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn gostwng 0.6% rhwng 2020 a 2040 o 69,896 i 69,499, gan gynnwys gostyngiad o 10.5% yn nifer y plant, gostyngiad o 8.3% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 22.5% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd[5]. |

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Rydym wedi cwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Roedd yn rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.
- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau y cedwir cofnod priodol o wariant arian cyhoeddus.
- **Gwerth am arian**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol y gellir eu defnyddio fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r pwrpas wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Dyma gyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[3] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru



Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, ac yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.



**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Sir Ynys Môn

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- nodwyd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 fel maes i'w wella yn yr adroddiad Archwilio Cyfrifon (ISA 260).
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2021.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dros archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae hefyd yn gyfrifol am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Mae'r archwiliad o'r ffurflenni Pensiwn Athrawon ac Ardrethi Annomestig wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae ein gwaith ar archwilio hawliadau Cymhorthdal Budd-daliadau Tai ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 yn parhau. Mae ein gwaith hyd yma wedi nodi nifer o faterion gyda'r hawliadau a materion yn ymwneud ag amser staff i ddelio ag ymholiadau'r archwilydd. Mae hwn yn faes lle mae angen i'r cyngor flaenoriaethu ymdrech yn ystod y misoedd nesaf fel y gall y cylch archwilio ddod yn fwy amserol. Fel y nodwyd isod, byddwn hefyd yn gwneud gwaith archwilio pellach yn y maes hwn yn ystod 2022.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2020-21 wedi'i gwblhau ar 25 Tachwedd 2021.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod mae crynodeb o rywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu dysgu trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi rhywfaint o feddwl, ac ymarfer cyfnewid. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma ar Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom hefyd gyhoeddi rhai arsylwadau gan yr Archwilydd Cenedlaethol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21, fel yr arbedwyd trwy orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel rhan o’n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21, gwnaethom nodi llai o gyfeirio at wybodaeth perfformiad cymharol. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at atal rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian, a bydd yn her i gynghorau ystyried hynny, yn enwedig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Gwnaethom gynnal yr asesiad hwn gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Daeth ein hadroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyffredinol, ond erys sawl her ariannol.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a’r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

## Cynllunio adferiad

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi cynllunio adferiad. Gwnaethom gyflawni'r gwaith hwn yn barhaus, gan ddarparu adborth amser real a pharhaus lle bo hynny'n briodol. Nododd ein canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Rhagfyr 2020 fod adferiad o effaith y pandemig wedi elwa o ymgysylltu rhagweithiol ar lefelau rhanbarthol a lleol a bod prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor wedi dangos arweinyddiaeth gref a

chyson ar y cyd. Mae ymrwymiad y Cyngor i ailgyflwyno prosesau gwneud penderfyniadau democrataidd, gwerthfawrogi cyfathrebu, cynllunio ariannol sy'n edrych i'r dyfodol ac ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i gyd wedi bod yn elfennau nodedig o'r daith adfer.

## Cynllunio’r gweithlu

Gwnaethom adolygu effeithiolrwydd y dull diwygiedig o gynllunio'r gweithlu yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Plant ac ystyried a ellir trosglwyddo buddion i wasanaethau eraill y Cyngor. Daeth ein hadroddiad i'r casgliad, ar ôl profi heriau'r gweithlu yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, fod y Cyngor bellach yn canolbwyntio mwy ar gynllunio'r gweithlu ac mae ganddo gyfleoedd pellach i sicrhau buddion ar draws yr holl wasanaethau.

## Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio a oedd cynghorau gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) fel partneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithredu'n effeithiol wrth gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i bobl hŷn yn strategol. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus; mae hyn yn cael ei wneud yn anoddach gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at ffocws sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniad ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae gan gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth ranbarthol a chynllun cyflenwi y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gwella gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymhleth a mwy arbenigol.

Wrth gloi'r gwaith hwn, gwnaethom gydnabod bod y cyfrifoldeb am yr heriau cyfredol yn y trefniadau comisiynu yn eang. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cenedlaethol sy'n gymhleth, ac mae gan bartneriaid lleol gyfrifoldeb am y ffordd y mae polisi a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu gweithredu. Felly rydym wedi adrodd yn lleol i gynghorau a'r Bwrdd Iechyd, ac yn genedlaethol i Lywodraeth Cymru yn argymell camau y dylai'r cyrff hyn eu cymryd.

## Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru

Yn ystod 2020-21, gwnaethom geisio ateb y cwestiwn: ‘Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?’ Daethom i’r casgliad yn ein hadroddiad bod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a’i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu; gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.

## Arolygiaethau eraill

Gwnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

Cyhoeddodd CIW eu llythyr Archwiliad Sicrwydd awdurdod lleol 2021 ym mis Tachwedd 2021.

Mae Estyn wedi atal ei raglen arolygu ysgolion yn ystod y flwyddyn 2020/21 ac wedi cadw mewn cysylltiad â darparwyr addysg o bell.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau Dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbrisio ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, rhoddodd awdurdodau lleol flaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu lle manwerthu newydd a mwy o faint. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn cael effaith andwyol ar lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar y stryd fawr yng Nghymru bellach yn wag, er gwaetha’r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiad o £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y gallu i ymateb i’r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio’r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn sicrhau’r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio ac integreiddio polisïau a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau i ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith wedi’i gynllunio ar gyfer 2021-22

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a’r cyfleoedd allweddol sy’n wynebu’r cyngor. Gallai’r rhain effeithio ar allu’r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, a defnydd o’i adnoddau.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy’n helpu i gefnogi’r Cyngor drwy’r cyfnod hwn. Mae'n gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau lleihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Sefyllfa ariannol

- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- Archwiliad adrodd am welliant.
- Adolygu Gwella trwy Ddysgu: Budd-dal Tai

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chaiff gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2021

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.** | Ionawr 2022 | Adroddiad drafft wedi'i anfon at y Cyngor ym mis Rhagfyr 2021. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor 2020-21** | Darparu barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. | Mehefin 2021 tan fis Hydref 2021 | Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar y Datganiad Cyfrifon ar 25 Tachwedd 2021. |
| **Ardystio Hawliadau am Grantiau a Ffurflenni Grantiau** | Ardystio'r hawliadau am Gymhorthdal Budd-dal Tai yn 2018-19, 2019-20 a 2020-21. | Terfynau amser ardystio'r Adran Gwaith a Phensiynau | Ardystiwyd Hawliad am Gymhorthdal 2018-19 ym mis Tachwedd 2021. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oedd 30.11.19 ar gyfer hawliad 2018-19, 31.1.21 ar gyfer hawliad 2019-20 a 31.1.22 ar gyfer hawliad 2020-21. | Fodd bynnag, gofynnodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i ni wneud gwaith ychwanegol sydd wedi cael ei gwblhau a'i gyfleu i'r Adran Gwaith a Phensiynau.<br><br>Mae'r archwiliadau o hawliadau am gymhorthdal 2019-20 a 2020-21 yn dal i fynd rhagddynt. |
| | Ardystio Ffurflen Pensiwn Athrawon 2020-21 | 30.11.21 | Mae'r archwiliad wedi cael ei gwblhau ac fe gyhoeddwyd y dystysgrif ar 1 Rhagfyr 2021. |
| | Ardystio Ffurflen Ardrethi Annomestig 2020-21 | 19.11.21 | Mae'r archwiliad wedi cael ei gwblhau ac fe gyhoeddwyd y dystysgrif ar 3 Rhagfyr 2021. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | Prosiect cyffredin i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut y mae partneriaid yn cydweithio i fynd ati'n strategol i gomisiynu gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio. | Wedi'i gwblhau | Adroddiad rhanbarthol a chenedlaethol terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021. |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD)** | Byddwn yn ceisio integreiddio'r broses o gyflawni ein harchwiliadau dan Ddeddf LlCD o gamau i gyflawni amcanion llesiant â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngor wrth i ni bennu cwmpas a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Amh. | Amh. |
| **Archwiliad o adrodd ar wella** | Archwiliad o gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Wedi'i gwblhau | Tystysgrif wedi'i chyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 |
| **Asesiad Sicrwydd a Risg** | Prosiect i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu ble y gall fod yn ofynnol gwneud gwaith archwilio pellach mewn blynyddoedd yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i allu'r Cyngor i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio'i adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• y sefyllfa ariannol<br>• trefniadau hunanasesu<br>• cynllunio adferiad<br>• goblygiadau Deddf Llywodraeth ac Etholiadau (Cymru)<br>• cynlluniau lleihau carbon | Ebrill 2021 tan fis Mawrth 2022 | Cyflwyniad i'r Uwch Dîm Arwain a chynrychiolwyr y Weithrediaeth ym mis Chwefror 2022. |
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r conglfeini ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn | Hydref 2021–Mawrth 2022. | Gwaith maes yn mynd rhagddo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. | | |
| **Adolygiad o Wella trwy Ddysgu: Budd-dal Tai** | Adnabod a gwella'r gwersi a adnabuwyd fel rhan o'r broses o Ardystio Hawliadau am Gymhorthdal Budd-dal Tai. | Ionawr tan fis Mawrth 2022 | Wrthi'n trefnu'r gwaith maes. |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd yn yr arfaeth / ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes yn yr arfaeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau Uniongyrchol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hyrwyddo'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol | Cyhoeddi yng Ngaeaf 2021-22 | Dod i gasgliadau ganol mis Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022 | Nac oes – gwaith yn cael ei gyflawni trwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a detholiad o gyfweliadau dilynol |
| **Gwasanaethau Brys** | Adolygiad o ba mor dda y mae gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio | Cyhoeddi yng ngaeaf 2021-22 | Clirio gyda'r tîm cyhoeddi ar ddiwedd mis Ionawr 2022 | Amh. |
| **Gwaith dilynol ar Bobl yn Cysgu Allan** | Adolygiad o'r modd y gwnaeth awdurdodau lleol ymateb i anghenion pobl yn cysgu allan yn ystod y pandemig gan wneud gwaith dilynol | Amh. | Amh. | Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22 |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes yn yr arfaeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| | mewn perthynas ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020 | | | |
| **Tlodi** | Deall sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i gyfyngu i'r eithaf ar dlodi neu ei leihau. | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Gwaith maes | Oes – cyfweliad gyda swyddog enwebedig yn y Cyngor |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi mentrau cymdeithasol ac yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Gwaith maes | Oes – cyfweliad gyda swyddog enwebedig yn y Cyngor |
| **Cydnerthedd cymunedol** | Adolygiad o'r modd y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Gwaith maes | Oes – cyfweliad gyda swyddog enwebedig yn y Cyngor |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig gan Estyn yn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Mae Estyn wedi cydweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau o'r pandemig. Bydd y canllawiau wedi'u diweddaru (a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar yr arolygiad cyntaf a bydd adborth yn cael ei geisio i benderfynu a oes angen eu mireinio ymhellach. | Arolygiadau o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i ailddechrau tuag at ddiwedd tymor yr hydref | Amh. |
| **Adolygiad thematig o Ddiwygio'r Cwricwlwm** | Cymorth consortia lleol ac awdurdodau lleol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm | Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref – cyhoeddi yn gynnar ym mis Chwefror | Amh. |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig gan AGC yn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad Sicrwydd Blynyddol 2020-21** | Mae AGC bellach wedi cyhoeddi'r holl lythyrau archwilio sicrwydd<br>Mae AGC wedi cyhoeddi ei hadroddiad archwilio sicrwydd cenedlaethol sy'n amlygu canfyddiadau ac argymhellion allweddol | Wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |

| Gwaith arfaethedig gan AGC yn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Bydd AGC yn rhedeg rhaglen flynyddol o archwiliadau sicrwydd, arolygiadau gwerthuso perfformiad ac arolygiadau seiliedig-ar-risg | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | Wrthi'n cynllunio |
| **Adolygiad cenedlaethol** | Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. | Wedi'i gyhoeddi | Wedi'i gwblhau |
| **Gwaith dilynol** | Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn yr Archwiliadau Sicrwydd neu drwy weithgarwch arolygu seiliedig-ar-risg gydag awdurdodau lleol unigol lle y bo angen. | Wrthi'n mynd rhagddo | Mae un arolygiad seiliedig-ar-risg dilynol wedi digwydd ac ar fin cael ei gyhoeddi.<br><br>Mae dau archwiliad sicrwydd dilynol pellach wedi digwydd ac yn mynd i gael eu cyhoeddi maes o law |
| **Arolygu** | Bydd gweithgarwch arolygu seiliedig-ar-risg yn parhau lle y bo'n ofynnol. | Fel y bo'n ofynnol | Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd (hyd at fis Ebrill 2022) |
| **Datblygu** | Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei dull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol | Ebrill 2022 | Ar y gweill |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer Iechyd a Gofal** | Mae'r adroddiad monitro blynyddol mewn fformat drafft ar hyn o bryd – adroddiad ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hwn | Rhagfyr 2021 | Ar y gweill |

| Gwaith arfaethedig gan AGC yn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol 2020-21** | | | |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cwrdd â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhag 2021 ac Ion 2022 | Ar y gweill |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| **Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | Rhagfyr 2021 |
| **Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru** | Tachwedd 2021 |
| **Gofalu am y Gofalwyr?**<br>**Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19** | Hydref 2021 |
| **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol** | Medi 2021 |
| **Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG** | Medi 2021 |
| **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus**[1] | Medi 2021 |
| **Adfywio Canol Trefi** | Medi 2021 |

[1] Prif adroddiad wedi'i gyhoeddi ar 15 Medi. Sylwebaethau sector byr i ddilyn dros y pedair i chwe wythnos ddilynol: Darlun o lywodraeth leol, Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch a phellach.

| | |
|---|---|
| **Cyllid myfyrwyr** | Awst 2021 |
| **Offeryn data cyllid y GIG 2020-21** | Mehefin 2021 |
| **Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru** | Mehefin 2021 |
| **Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol** | Mai 2021 |
| **Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** | Mai 2021 |
| **Yn ôl eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol** | Ebrill 2021 |
| **Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19** | Ebrill 2021 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill sydd i fod i gael eu cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall ar y gweill/yn yr arfaeth)[2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| **Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru** | Chwefror 2022 |
| **Pennu amcanion llesiant Llywodraeth Cymru** | Chwefror 2022 |
| **Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth** | Chwefror/Mawrth 2022 |

[2] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ni ein hunain a chapasiti cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal peth hyblygrwydd er mwyn i ni allu ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd a allai fod o ddiddordeb i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau cydweithredol i reoli adnoddau iechyd y cyhoedd lleol** | Chwefror 2022 |
| **Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth y trydydd sector** | Chwefror 2022 |
| **Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth ar ofal wedi'i gynllunio** | Mawrth 2022 |
| **Gweithlu Llywodraeth Cymru** | Chwefror/Mawrth 2022 |
| **Gwasanaethau orthopaedig** | Mawrth 2022 |
| **Diwygio'r cwricwlwm** | Gwanwyn 2022 |
| **Asesu'r effaith ar gydraddoldeb** | Gwanwyn 2022 |
| **Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol** | Gwanwyn/haf 2022 |
| **Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – arall** | I'w Gadarnhau |
| **Tai fforddiadwy** | I'w Gadarnhau |
| **Seilwaith band eang** | I'w Gadarnhau |
| **Rheoli perygl llifogydd** | I'w Gadarnhau |

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau sydd ar ddod gan y Gyfnewidfa Arfer Da

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig/dyddiad disgwyliedig y digwyddiad |
|---|---|
| **Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau o'r sesiynau ar gyfer y digwyddiad** | Yn hwyr ym mis Ionawr 2022 |

| | |
|---|---|
| **Llamu Ymlaen ar gydnerthedd sefydliadol a gynhaliwyd ar 9/12/21** | |
| **Digwyddiad Taliadau Uniongyrchol (teitl i'w gadarnhau)** | Mawrth 30 2022 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 08 Chwefror 2022 | |
| **Pwnc:** | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 | |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk | Julie Jones<br>Rheolwr Risg ac Yswiriant<br>01248 752609<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae pwyllgorau archwilio'n elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol ac yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd ynghylch trefniadau sefydliad mewn perthynas â rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall. O ganlyniad, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn eirioli ei rôl ehangach ym mhob agwedd o sicrwydd. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am sut mae'r Cyngor wedi rheoli ei weithgareddau sicrwydd dros y bum mlynedd ddiwethaf a'i heriau ar gyfer y dyfodol. | | |

# 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r trefniadau yswirio a hanes y colledion diweddar ar gyfer y prif feysydd risg lle mae yswiriant.

# 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn cynnig unrhyw sylwadau arno.



# ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2020-21

Ionawr 2022

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD ____ 1
CRYNODEB HAWLIADAU ____ 3
TUEDDIADAU HAWLIADAU ____ 4
Hawliadau Atebolrwydd y Cyflogwyr ____ 4
Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ____ 4
Hawliadau Modur ____ 4
Hawliadau Eiddo ____ 5
Hawliadau Cyn 2016 ____ 5
HERIAU'R DYFODOL ____ 6
ATODIAD A - CRYNODEB HAWLIADAU ____ 8

*Llun ar y clawr: Rhosneigr yn ystod corwynt Ophelia, Hydref 2017*

# CYFLWYNIAD

Mae gan y Cyngor amrywiaeth o bolisïau yswiriant yn eu lle a'r prif rai yw **atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd y cyflogwr**, **eiddo** ac yswiriant **modur.**

Mae **polisïau atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd y cyflogwr** yn indemnio'r Cyngor yn erbyn costau ac iawndal mae'n atebol i dalu pan fydd aelod o'r cyhoedd, busnesau neu weithwyr yn cyflwyno hawliadau o ganlyniad i ddifrod, anafiadau neu salwch sy'n codi o ganlyniad i esgeulustod y Cyngor.

Mae'r polisïau **eiddo** yn digolledu'r Cyngor am ddifrod i'w adeiladau a'u cynnwys yn dilyn difrod a achosir gan beryglon penodol.

Mae **yswiriant modur** yn cyfuno elfen o'r ddau o ran ei fod yn indemnio'r Cyngor yn erbyn difrod neu anafiadau a achosir i drydydd parti gan ei gerbydau ac mae'n digolledu'r Cyngor am ddifrod i'w gerbydau.

Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfuniad o **hunain yswiriant** ac **yswiriant allanol** er mwyn diogelu yn erbyn canlyniadau ariannol risg. Mewn rhai achosion mae'r Cyngor wedi trefnu yswiriant allanol ond yn hunain yswirio canran fawr o'r hawliadau sydd wedi eu talu drwy ddewis talu **swm cychwynnol** mawr (**excess**). I leihau'r risg ariannol mae'r Cyngor wedi negodi arhosfa agregau (cap) ar y polisïau hyn ac unwaith mae hwn yn cael ei gyrraedd mae'r yswiriwr yn talu unrhyw hawliadau pellach.

Ers 1 Hydref 2017, mae'r swm cychwynnol (excess) ar gyfer y prif bolisïau fel â chanlyn:

| | |
|---|---|
| Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwr | £50,000 |
| Modur | £1,000 |
| Eiddo – Ysgolion | £25,000 |
| Eiddo – Adeiladau Cyffredinol a Thai | £10,000 |
| Eiddo – Mân ddaliadau a Masnachol | £250 |

Mae hunain ariannu colledion yn rhan o agwedd gyffredinol y Cyngor tuag at reoli risg. Mae'n darparu mwy o gymhelliant i ddelio â risg yn fwy effeithiol o gofio bod unrhyw ostyngiad mewn hawliadau o fudd i'r Cyngor. Mae hefyd yn lleihau'r premiwm sy'n daladwy ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer Treth Premiwm Yswiriant (sydd ar hyn o bryd yn 12%)[1]. Yn 2021/2022 roedd y premiwm yswiriant a dalwyd oddeutu £718.5k gan gynnwys £73k o Dreth Premiwm Yswiriant. Mae hyn yn gynnydd o tua 8% ers 2020/2021. Er bod cyfran o hyn yn ymwneud â ffactorau chwyddiant ar y symiau sydd wedi'u hyswirio, bu cynnydd yn y gyfradd hefyd, yn enwedig mewn perthynas ag yswiriant eiddo. Mae'r cynnydd hwn yn y gyfradd yn eang yn dilyn colledion a wynebir gan yswirwyr yn fyd-eang o ganlyniad i hawliadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd (e.e. llifogydd, stormydd ac ati) a cholledion mawr eraill (e.e. tanau mewn adeiladau cyhoeddus), ac felly ni ddylid eu hystyried yn benodol i Ynys Môn.

Er mwyn cwrdd elfen hunain yswiriant unrhyw hawliad, mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Yswiriant. Mae awch y Cyngor am risg a'r angen i sicrhau sefydlogrwydd y Gronfa Yswiriant dros y tymor hir yn dylanwadu ar y lefel o hunain yswiriant.

Er mwyn bodloni'r lefel hon o hunain yswiriant, fel ar 31 Mawrth 2021, roedd Cronfa Yswiriant y Cyngor yn cynnwys £1.250m mewn Cronfa Arian Wrth Gefn wedi'i chlustnodi a £290k yn y Cyfrif Darpariaeth Yswiriant.

Tra ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y Gronfa Yswiriant yn cynnwys adnoddau digonol i gwrdd â'i rwymedigaethau, mae yna hefyd gyfle i gynnal gwell cydbwysedd na sydd angen. Er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn ddigonol i gwrdd â chostau ei hawliadau ond nad yw'n cynnwys gormod o arian wrth gefn, bydd y Rheolwr Yswiriant a Risg, mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, yn adolygu'r Gronfa bob blwyddyn.

[1] Cynyddodd treth premiwm yswiriant o 6% i 9.5% ym mis Tachwedd 2015, i 10% yn Hydref 2016 ac ar 1 Mehefin 2017, i 12%.

# CRYNODEB HAWLIADAU

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o hawliadau sydd wedi eu gwneud o dan neu yn erbyn trefniadau yswiriant mewnol ag allanol y Cyngor ar gyfer y cyfnod **1 Ebrill 2016 i 31 Rhagfyr 2021**, yn seiliedig ar ddyddiad y digwyddiad ac nid ar ddyddiad gwneud neu gyflwyno'r hawliad, ac ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd cyn 1 Ionawr 2022. Cyfanswm cost yr hawliadau yw cyfanswm y gost i'r Cyngor a'i yswiriwr yn cynnwys iawndal a chostau.

Mae crynodeb o'r hawliadau sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o bob polisi, yn ôl pob blwyddyn ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd o'r nifer o hawliadau sydd wedi:

- cael eu talu,
- cael eu setlo heb unrhyw gostau na thaliadau, neu
- lle nad yw'r hawliad wedi ei setlo hyd yma.

Mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y swm a dalwyd o ran yr hawliadau hynny a setlwyd a'r swm sydd wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hynny nad ydynt wedi eu setlo hyd yma.

Dylid pwysleisio na fydd yr holl hawliadau sydd '*dal yn agored*' ac sydd ag arian wrth gefn yn eu herbyn yn cael eu talu neu eu setlo yn unol â'r swm wrth gefn sydd yn er herbyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer hawliadau atebolrwydd; bydd hawliadau ag arian wrth gefn mawr yn eu herbyn yn aml yn cael eu setlo am symiau llawer is neu am ddim costau o gwbl.

Gall nifer yr hawliadau hefyd gynyddu dros amser, oherwydd mewn rhai achosion, mae hawliadau yn cael eu cyflwyno nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad. Er enghraifft, mae gan blentyn a anafwyd yn yr ysgol gynradd gyfnod o dair blynedd ar ôl troi yn 18 oed i gyflwyno eu hawliad. O ganlyniad, bydd nifer yr hawliadau a chyfanswm yr arian wrth gefn yn newid dros amser.

# TUEDDIADAU HAWLIADAU

## Hawliadau Atebolrwydd y Cyflogwyr

Mae nifer yr hawliadau am anaf personol a gyflwynir gan weithwyr yn parhau'n isel ar ddwy neu dair y flwyddyn dros y cyfnod o 5 mlynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r hawliadau a gyflwynir o ganlyniad i ddamwain benodol yn y gwaith. Mae swm wrth gefn o tua £75,000 yn berthnasol i hawliad lle honni'r cyn-athro fod wedi dioddef straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

## Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae nifer yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus wedi parhau i ostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Yn hanesyddol, mae anaf i ddefnyddwyr y ffordd a difrod i gerbydau ar y briffordd yn gyfran sylweddol o'r hawliadau a dderbyniwyd. Er bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan oedd nifer yr ymwelwyr a'r traffig yn isel iawn, yn genedlaethol mae nifer yr hawliadau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd wedi cynyddu ers hynny. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa ar Ynys Môn gan fod ar y cychwyn ni ddisgynnodd y nifer hawliadau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd yn sylweddol o'r lefelau cyn y pandemig ac mae'r nifer yn parhau'n isel gyda dim ond 10 hawliad o'r fath wedi'u gwneud ers mis Ebrill 2021. Er mai ychydig iawn o hawliadau a wnaed yn erbyn unrhyw wasanaeth arall, mae rhai hawliadau gyda swm wrth gefn uchel. Mae'r rhain yn cynnwys hawliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, a hawliad sy'n ymwneud â'r adain forwrol, sydd, gyda'i gilydd, â swm wrth gefn gwerth tua £325k. O'r hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a dalwyd, y mwyaf arwyddocaol yw iawndal a chostau o bron i £12k o ganlyniad i rywun faglu ar y briffordd.

## Hawliadau Modur

Mae nifer yr hawliadau modur wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gellir priodoli hyn i lai o swyddogion yn teithio yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae cost hawliadau modur wedi cynyddu. Mae hwn yn duedd genedlaethol oherwydd bod cost partiau wedi cynyddu, bod cerbydau modern mwy soffistigedig, a chost llogi ceir wedi cynyddu. Ceir tystiolaeth o hyn mor bell yn ôl â 2017/2018 pan gafodd pedwar o gerbydau trydan y Cyngor eu hysgrifennu ffwrdd ar gost o dros £72,000, yn dilyn llifogydd.

## Hawliadau Eiddo

Y tywydd yw'r prif reswm dros hawliadau am ddifrod i eiddo. Daeth storm Ophelia â gwyntoedd cryfion, gyda gwyntoedd o 70 i 80mya ar brydiau, yn 2017 ac arweiniodd at ddifrod o dros £85k i do Canolfan Hamdden Plas Arthur. Yn fwy diweddar, achosodd storm Arwen ddifrod i adeiladau amaethyddol ar nifer o fanddaliadau'r Cyngor. Yn ffodus, mae difrod i eiddo'r Cyngor oherwydd tân a pheryglon eraill yn gymharol anghyffredin. Mi oedd yr hawliad tân diwethaf mewn manddaliad ym mis Chwefror 2020 ac mae dros £30k o'r swm wrth gefn sy yn erbyn 2020/2021 yn ymwneud ar hawliad hynny.

## Hawliadau Cyn 2016

Dylid nodi bod Atodiad A yn rhoi manylion hawliadau am y cyfnod o 1 Ebrill 2016 at 31 Rhagfyr 2021. Mae hawliadau eraill sy'n ymwneud â chyfnodau cyn y cyfnod hwn dal yn agored. Ar hyn o bryd mae pedwar hawliad atebolrwydd cyhoeddus yn y categori hwn; un sy'n gysylltiedig â'r briffordd, un mewn ysgol, a dau yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'r cyfanswm wrth gefn ar gyfer y pedwar hawliad hwn yn cyfateb i tua £215k ac mae'r rhain yn amlygu y gall rhai hawliadau gymryd blynyddoedd lawer i'w datrys neu hyd yn oed eu gwneud.

Yn gyffredinol, y duedd yw bod nifer yr hawliadau'n isel; fodd bynnag, mae hawliadau'n mynd yn ddrutach.

# HERIAU'R DYFODOL

Heb os, mae'r pandemig wedi cael effaith gadarnhaol ar niferoedd hawliadau.  Fodd bynnag, gallai ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys mwy o bobl sy'n gweithio gartref, achosi cynnydd mewn hawliadau straen ac ystumiol neu hyd yn oed fath newydd o hawliadau nad ydym wedi'u gweld o'r blaen.  Yn ogystal, mae arferion gwaith hefyd wedi newid a gall hyn effeithio ar allu'r Cyngor i amddiffyn hawliadau wrth symud ymlaen.  Un enghraifft yw ffyrdd sy'n cael eu harolygu gan un swyddog yn gyrru, lle'n flaenorol arfer gorau fyddai i ddau swyddog gynnal yr arolygiad; un yn gyrru a'r llall yn chwilio am ddiffygion.

Derbynnir bod gweithgareddau twyllodrus wedi cynyddu yn ystod y pandemig ac mae'n bosib y bydd unigolion yn parhau â gweithgareddau o'r fath mewn yn dilyn y pandemig.  Felly, mae'n bosib bydd cynnydd mewn hawliadau ffug neu sydd wedi eu gorliwio yn cael eu cyflwyno.  O ganlyniad, mae swyddogion yn arbennig o wyliadwrus wrth ystyried honiadau o ddamweiniau yn ystod cyfnodau o gloi pan fo tystion yn brin.

Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli tua 4,000 o dai a garejys ledled yr Ynys.  Er bod wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS)[2] ers 2012, mae nifer fach o hawliadau sy'n honni bod tai'n dadfeilio yn cael eu derbyn yn flynyddol.  Er nad yw'r rhain yn faterion yswiriant ac felly nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystadegau a gyflwynir yn atodiad A, mae'n ofynnol i adnoddau'r Cyngor ymchwilio, gwneud gwaith cynnal, a thalu iawndal a chostau lle bo angen.  Gall hyn fod yn heriol os bydd nifer yr hawliadau'n cynyddu i lefelau mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld.

Mae newid hinsawdd bellach wedi'i gydnabod fel argyfwng ac rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae stormydd, llifogydd, erydu arfordirol a thywydd poeth wedi cael yn fyd-eang ac yn lleol yn ddiweddar.  Mae digwyddiadau o'r fath yn debygol o ddigwydd yn amlach ac yn cael mwy o effaith pan fyddant yn digwydd.  Mae'r effaith ar yr unigolion a'r cymunedau y mae digwyddiadau o'r fath yn effeithio arnynt yn drasig ond mae effaith hefyd ar yswirwyr o ran costau setlo'r hawliadau sy'n deillio o hynny.

---

[2] Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yw safon ansawdd tai Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y WHQS gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol a'r dyfodol. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i'r holl landlordiaid cymdeithasol wella eu stoc tai er mwyn bodloni'r safonau WHQS cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf. Cadarnhawyd yr angen hwn gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
[2] Mae rhai eiddo yn parhau fel rhai a nodir yn 'fethiannau derbyniol'.

Yn gyffredinol, mae cost hawliadau'n cynyddu oherwydd bod cost partiau ac ati yn cynyddu.  Mae cost atgyweirio, cerbydau ac adeiladau wedi codi'n sylweddol wrth i effeithiau Brexit a’r pandemig effeithio’r gadwyn gyflenwi wthio cyfradd chwyddiant i lefelau na welwyd yn flaenorol y ganrif hon. Mae datblygiadau technegol mewn cerbydau hefyd yn golygu bod rhaid newid fwy o bartiau na’r arfer. Er enghraifft, gall bwmper bellach gynnwys llawer o synwyryddion, sydd hefyd angen eu newid yn dilyn mân wrthdrawiad.   Yn yr un modd, mae cost deunyddiau adeiladu wedi cynyddu oherwydd problemau cyflenwad a’r galw a gall dulliau adeiladu modern losgi’n haws na dulliau traddodiadol. Felly, os bydd colled, mai’n debygol y byddai yn ddrytach i ail-adeiladu oherwydd bod costau adeiladu yn uwch ac y bydd mwy o ddifrod wedi’i achosi.  Mae cost hawliadau am anafiadau hefyd yn cynyddu. Mae hyn yn arbennig o wir am hawliadau mwy lle mae elfen o ofal barhaus oherwydd wrth i gymdeithas fyw'n hirach a’r triniaethau wella, mae cost gofal yn cynyddu.

Bydd yr holl ffactorau hyn yn effeithio ar faint mae yswirwyr yn talu wrth setlo hawliadau a gyflwynir iddynt ac mae'n siŵr y bydd hyn yn arwain at yswirwyr yn codi  premiymau uwch.  Felly, mae'n debygol y bydd y premiymau y mae'r Cyngor yn talu am yswiriant wrth symud ymlaen yn parhau i gynyddu hyd yn oed os yw’r hawliadau a wnaed ac a dderbyniwyd yn isel.  Dylai sicrhau bod prosesau a mesurau addas ar waith i reoli ei risgiau leihau'r cynnydd mewn premiwm.  Gall rheoli risgiau'n dda hefyd ganiatáu i'r Cyngor dderbyn mwy o risg drwy gynyddu gormodedd a didynnu, gan gadw cydbwysedd rhwng y risgiau rydym yn eu hyswirio a chost y premiwm.

# ATODIAD A – CRYNODEB HAWLIADAU

| Polisi | Cyfnod | Nifer | | | Cost (£) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Wedi Eu Talu | Wedi Setlo Heb Gost | Heb Ei Setlo | Swm Sydd Wedi Ei Dalu | Swm Wrth Gefn |
| Atebolrwydd Cyhoeddus | 2016/2017 | 28 | 57 | 1 | 47,920 | 10,000 |
| | 2017/2018 | 24 | 35 | 1 | 33,387 | 11,719 |
| | 2018/2019 | 22 | 52 | 3 | 31,960 | 203,399 |
| | 2019/2020 | 10 | 40 | 3 | 7,921 | 27,510 |
| | 2020/2021 | 9 | 32 | 12 | 16,377 | 124,479 |
| | 2021/2022 | 1 | 4 | 17 | 1,670 | 212,403 |
| Atebolrwydd y Cyflogwr | 2016/2017 | 1 | 2 | 0 | 8,883 | 0 |
| | 2017/2018 | 3 | 3 | 0 | 27,519 | 0 |
| | 2018/2019 | 0 | 0 | 2 | 0 | 87,000 |
| | 2019/2020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2020/2021 | 0 | 0 | 1 | 0 | 5,000 |
| | 2021/2022 | 0 | 0 | 1 | 0 | 4,974 |
| Cerbydau | 2016/2017 | 11 | 21 | 0 | 13,179 | 0 |
| | 2017/2018 | 17 | 6 | 0 | 97,903 | 0 |
| | 2018/2019 | 16 | 18 | 0 | 13,887 | 0 |
| | 2019/2020 | 15 | 6 | 1 | 29,332 | 11,046 |
| | 2020/2021 | 8 | 1 | 8 | 9,286 | 9,044 |
| | 2021/2022 | 0 | 1 | 14 | 0 | 31,262 |
| Eiddo | 2016/2017 | 19 | 10 | 0 | 78,632 | 0 |
| | 2017/2018 | 18 | 17 | 0 | 153,594 | 0 |
| | 2018/2019 | 9 | 5 | 0 | 17,500 | 0 |
| | 2019/2020 | 3 | 3 | 3 | 12,991 | 35,800 |
| | 2020/2021 | 1 | 0 | 1 | 10,000 | 720 |
| | 2021/2022 | 0 | 0 | 16 | 0 | 32,191 |
| Arall | 2016/2017 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | 2017/2018 | 2 | 1 | 0 | 331 | 0 |
| | 2018/2019 | 2 | 0 | 0 | 743 | 0 |
| | 2019/2020 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 2020/2021 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| | 2021/2022 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 2016/2017 | **59** | **91** | **1** | **148,615** | **10,000** |
| | 2017/2018 | **64** | **62** | **1** | **312,734** | **11,719** |
| | 2018/2019 | **49** | **75** | **5** | **64,091** | **290,399** |
| | 2019/2020 | **28** | **49** | **7** | **50,245** | **43,356** |
| | 2020/2021 | **18** | **34** | **22** | **35,664** | **139,243** |
| | 2021/2022 | **1** | **5** | **48** | **1,670** | **280,830** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 08 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 1 Chwefror 2022 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 1 Rhagfyr 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## CHWEFROR 2022

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ______ 3
Llywodraethu Gwybodaeth ______ 3
Rheoli Trwyddedau Meddalwedd ______ 4
GWAITH AR Y GWEILL ______ 6
Menter Twyll Genedlaethol ______ 6
Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion ______ 7
CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL ______ 8
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020-21 A THU HWNT ______ 9
Capasiti Presennol ______ 9
Blaenoriaethu Tymor Byr/Canolig ______ 9
Blaenoriaethau mwy Hirdymor ______ 9
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 CHWEFROR 2022 ______ 10

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **dau** adroddiad yn ystod y cyfnod dan sylw, a gwelir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | YM3[1] | Ionawr 2022 | **Sicrwydd Rhesymol** | 0 | 2 | 5 | 7 |
| **Rheoli Trwyddedau Meddalwedd** | YM38[2] | | **Sicrwydd Cyfyngedig** | 0 | 1 | 9 | 10 |

## Llywodraethu Gwybodaeth

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 2 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i liniaru'r risg o golli data critigol, cyfrinachol neu bersonol, neu ei ddatgelu ar gam, neu liniaru'r risg o doriadau eraill mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data?**

4. Yn gyffredinol, daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod gan y Cyngor fframwaith effeithiol o fesurau rheoli ar waith i liniaru'r risg o golli data critigol, cyfrinachol neu bersonol, neu ei ddatgelu ar gam, neu liniaru'r risg fod toriadau eraill mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data yn digwydd o fewn y Cyngor.

5. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, mesurau rheoli technegol ychwanegol mewn perthynas â defnyddio e-bost, amgryptio offer TG y Cyngor a ddosberthir i staff, fframwaith helaeth o bolisïau a chanllawiau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth sydd ar gael i staff ar ei borth polisi, gyda'r Polisi Diogelu Data yn un y mae'n rhaid i staff ei adolygu a'i dderbyn. Mae hyfforddiant gorfodol ar y

[1] Former corporate risk register reference
[2] Former corporate risk register reference

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn cael ei ddarparu ar y Gronfa Ddysgu, ac mae sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu darparu hefyd, lle bo hynny'n bosib. Roedd cyfraddau derbyn polisïau a chwblhau hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol yn gyffredinol dda ledled y Cyngor ac mae gan y Cyngor broses gadarn ar gyfer rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data am achosion posib o dor-diogelwch data, gan olygu bod modd cynnal ymchwiliad buan a rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os oes angen.

6. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd, yn ogystal â chyflwyno adroddiad blynyddol ar faterion diogelu data i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

7. Nodwyd gwendidau gennym yn y fframwaith a chodwyd saith o faterion/risgiau y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt, ac fe wnaethom ddynodi dau ohonynt yn faterion/risgiau 'sylweddol' oherwydd effaith bosib y risg yn y maes hwn. Maent yn cynnwys gwella diogelwch dyfeisiau symudol personol nad ydynt wedi cael eu hamgryptio sy'n cael eu defnyddio i gael mynediad at wybodaeth a gedwir ar raglenni *Microsoft Office 365* y Cyngor, megis *Teams* a *SharePoint*, ac mae angen ychwanegu at ganllawiau caffael a dogfennau ategol i gynnwys ystyriaethau llywodraethu gwybodaeth perthnasol.

8. Roedd cyfraddau cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu blynyddol gorfodol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn isel ymysg aelodau etholedig hefyd.

9. Canfuom rai anghysonderau yn hysbysiadau preifatrwydd gwasanaethau sy'n cael eu harddangos ar wefan y Cyngor, yr ap 'Fy Nghyfrif' a rhai o'r ffurflenni casglu data y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio, yn ogystal â'r angen i wneud gwaith cymhennu cyffredinol ar nifer o ddogfennau canllaw diogelu data ategol y Cyngor. Yn ogystal, nid oes mecanwaith ar hyn o bryd i ddilyn i fyny gweithredoedd yn codi o ymchwiliad i ddigwyddiad data i sicrhau bod gwasanaethau wedi mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd o ran llywodraethu gwybodaeth.

10. Er bod y Swyddog Diogelu Data wedi gwneud llawer o waith monitro cydymffurfiaeth ledled y Cyngor ers cyflwyno'r GDPR yn 2018, a bod y gwaith hwn yn blaenoriaethu meysydd allweddol ei rwymedigaethau cyfreithiol ym maes diogelu data, rydym o'r farn bod y meysydd a nodir uchod yn ganlyniad i'r adnoddau cyfyngedig a ddyrennir ar lefel gorfforaethol ar gyfer gweithgareddau cydymffurfio a sicrhau ansawdd ym maes diogelu data a llywodraethu gwybodaeth.

11. I gloi, er gwaetha'r ddau risg sylweddol a'r materion cymhennu a nodwyd, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ac felly, trwy roi ystyriaeth gytbwys i'r risg a wynebir, gallwn ddarparu sicrwydd **rhesymol** ynghylch llywodraethiant, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn.

## Rheoli Trwyddedau Meddalwedd

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 9 | Cymedrol |

12. Fe wnaethom gomisiynu tîm Archwilio TG arbenigol Cyngor Dinas Salford i wneud y gwaith hwn, ac mae'n un o dri darn o waith y mae Salford yn ei gwblhau ar ein rhan.

13. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A oes gan y Cyngor fesurau rheoli digonol ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau meddalwedd?**

14. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad cyffredinol, er bod yr uned TG yn monitro sefyllfa trwyddedau ar gyfer meddalwedd y Cyngor ar y cyfan, nid oes prosesau digonol ar waith i reoli'r risg bod meddalwedd heb ei drwyddedu neu anawdurdodedig yn cael ei defnyddio. O ganlyniad, mae mwy o risg y gallai'r Cyngor wynebu taliadau cosb gan gyflenwyr meddalwedd. Yn ogystal, nid oes mesurau rheoli digonol ar waith i leihau'r risg bod trwyddedau meddalwedd dianghenraid yn cael eu dal, ac o bosib cynyddu'r gost o weithredu'r feddalwedd, ac mae angen gwelliannau yn y mwyafrif o feysydd. Felly, dim ond sicrwydd **cyfyngedig** y gallwn ei ddarparu ynghylch llywodraethiant, rheoli risg a mesurau rheoli yn y maes hwn.

15. Mae'r adolygiad yn nodi 10 mater/risg y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt ac mae un ohonynt wedi'i nodi'n fater/risg 'sylweddol'. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr ac rydym yn nodi y bydd cynlluniau'r Cyngor i drosglwyddo rhai o'i raglenni busnes critigol i gymwysiadau Cwmwl yn lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i wella'r holl brosesau cyfredol mewn perthynas â rheoli trwyddedau meddalwedd yn ogystal â'r mesurau rheoli cysylltiedig.

16. Yn unol â'n protocol, rydym wedi dosbarthu copi o'r adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno i aelodau'r Pwyllgor a bydd Rheolwr y Tîm TG yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau.

# GWAITH AR Y GWEILL

17. Mae'r archwiliadau a ganlyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau Athrawon** | d/b | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes |
| **Rheoli'r risg o dwyll a llygredd yn y drefn gaffael** | YM46[3] | Adnoddau | Cofrestr Risgiau Corfforaethol, Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 a chodwyd y mater yn ystod ymchwiliad | Gwaith maes (gohiriwyd tra bod yr archwiliad i Bensiynau Athrawon yn mynd rhagddo) |
| **Taliadau - Cynnal Cyflenwyr** | d/b | Adnoddau | Adolygiad Dilyn i Fyny a drefnwyd | Gwaith Maes |
| **Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg** | d/b | Adnoddau | Adolygiad Dilyn i Fyny a drefnwyd | Gwaith Maes |
| **Recriwtio a Chadw** | YM2 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith sgopio |
| **Newid yn yr Hinsawdd a Chynaladwyedd** | YM13 | Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Gwaith sgopio |

## Menter Twyll Genedlaethol

18. Rydym yn parhau i ymchwilio'r gyfran gyntaf o ganlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2020/21 a gafodd eu rhyddhau ym mis Ionawr 2021. Mae'r canlyniadau paru'n amlygu twyll neu wallau posib yn systemau'r Cyngor. Er mwyn amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag twyll a gwallau rydym yn y broses o adolygu'r canlyniadau paru hyn i atal cynnydd posib mewn gordaliadau.

19. Yn ddiweddar, rhyddhaodd Swyddfa'r Cabinet ganlyniadau paru'r rhai hynny sy'n derbyn Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr adrannau hyn i adolygu'r canlyniadau paru.

20. Byddwn yn adrodd ar ganlyniad yr ymchwiliadau hyn yn ein hadroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

[3] Cyfeirnod yn yr hen gofrestr risgiau corfforaethol

## Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion

21. Roedd adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 ar ôl cynnal archwiliad o drefniadau rheoli cronfeydd answyddogol ysgolion yn dod i'r casgliad, er bod rhai trefniadau ar waith gan ysgolion i reoli cronfeydd answyddogol ysgolion, roedd angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau i sicrhau bod ysgolion yn rhoi cyfrif cywir o incwm a gwariant eu cronfa answyddogol.

22. Codwyd pum Mater/Risg gennym, yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt ac yr oedd angen i'r Gwasanaeth Dysgu eu datrys, gan gynnwys un a ddynodwyd yn fater/risg 'Sylweddol' oherwydd yr effaith bosib ar y Cyngor. Oherwydd diffyg trosolwg ac anghysonderau mewn prosesau a nodwyd gennym yn ystod ein hadolygiad, dim ond lefel sicrwydd cyfyngedig oeddem yn gallu ei ddarparu bryd hynny.

23. Roedd y Gwasanaeth Dysgu wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo i reoli eu cronfeydd ysgol. O ganlyniad, lluniodd y Gwasanaeth raglen waith i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein hadolygiad a gofynnwyd i ni gynorthwyo i'w rhoi ar waith.

24. Rydym wedi darparu dogfen ganllaw wedi'i diweddaru, hyfforddiant ar-lein ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr ac rydym wedi archwilio cronfeydd ysgol os yw'r ysgolion wedi methu â chyflogi archwilydd lleol. Hefyd, rydym wedi cynnal ymarfer sicrhau ansawdd mewn perthynas â thystysgrifau 2019/20 a gyflwynwyd gan ysgolion i'r Gwasanaeth Dysgu. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd pellach ar y tystysgrifau a gyflwynwyd ar gyfer 2020/21 ac rydym yn archwilio cronfeydd tair ysgol gynradd a byddwn yn adrodd ar ganlyniad y gwaith hwn yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

25. Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi mynd i'r afael â'r holl Faterion/Risgiau a godwyd yn ystod yr archwiliad ym mis Medi 2020 ac roeddem yn gallu cynyddu sicrwydd yn y maes hwn i 'Rhesymol' ym mis Gorffennaf 2021.

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

26. Mae'r gwaith i gynorthwyo gwasanaethau i roi'r camau sy'n weddill ar waith yn parhau. Mae'r dangosfwrdd '4action' yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o statws y camau gweithredu ar 1 Chwefror 2022.

27. Ar hyn o bryd mae 18 o'r camau'n hwyr (8 Sylweddol; 10 Cymedrol), ac maent yn berthnasol i'r gwasanaeth Adnoddau. Maent yn ymwneud â 'Materion/Risgiau' a godwyd mewn pedwar archwiliad:

- Taliadau - Cynnal Cyflenwyr
- Nodi anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg
- Dyledwyr Amrywiol
- Proses Gadawyr

28. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i'w cynorthwyo i roi'r camau gweithredu ar waith.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2020-21 A THU HWNT

## Capasiti Presennol

29. Dechreuodd ein Uwch Archwilydd newydd ar 13 Rhagfyr 2021 ac mae o wedi cael dechrau gwych yn y rôl. Mae hyn yn golygu bod y tîm bron yn gyflawn, gyda dim ond hanner swydd gyfwerth ag amser llawn yn parhau i fod yn wag, oherwydd gweithio'n hyblyg. Fodd bynnag, mae un aelod o staff yn parhau i fod ar absenoldeb hirdymor.

## Blaenoriaethu Tymor Byr/Canolig

30. Mae'r UDA wedi cynnal adolygiad sylweddol o'r Gofrestr Risgiau 'Strategol' fel y mae'n cael ei galw erbyn hyn. Ein blaenoriaeth cyntaf yw adolygu'r risgiau gweddilliol 'coch' ac 'ambr' nad ydym wedi eu hadolygu eto, neu nad ydym wedi eu hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn ogystal â pharhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i geisiadau gan wasanaethau am gymorth neu sicrwydd, ac ymateb i ymchwiliadau.


31. Ar hyn o bryd, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn datblygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2022-23 ar y cyd â'r UDA a phenaethiaid gwasanaeth. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ym mis Mai 2022, i'r pwyllgor newydd ei ystyried.


32. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a monitro camau i fynd i'r afael â materion/risgiau archwilio mewnol sy'n weddill.


## Blaenoriaethau mwy Hirdymor

- Cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24, yn cynnwys parhau i roi sylw i argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn eu hadroddiad 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.
- Gweithio â chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella'r gwaith mapio sicrwydd ledled y cyngor a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Grŵp Adolygu Perfformiad.
- Paratoi ar gyfer yr Asesiad Ansawdd Allanol ym mis Mehefin 2022.

# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY’N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 CHWEFROR 2022















**Outstanding Red Issues/Risks**

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

**Outstanding Limited Assurance Reports**

| Audit Title | Count |
|---|---|
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 9 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 6 |
| ICT Service Continuity (Phishing) 202123 | 2 |
| Recovering Council Debt 202110 | 8 |

**Outstanding Amber Issues/Risks**

| ID | Summary |
|---|---|
| 4148 | Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key... |
| 4157 | IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and co-ordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster... |
| 4212 | Financial Resilience 2 - Progress with undertaking an exercise to map sources of assurance to support the Council's governance framework and ensure... |
| 6024 | Payments Supplier Maintenance 2 - Procedure notes exist, however, they have not been updated for a number of years and do not include the process... |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 08 Chwefror 2022 |
| **Pwnc:** | Blaenraglen Waith 2021-22 Wedi'i Diweddaru f5 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y diwygiadau i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 y Pwyllgor. | |

## Cyflwyniad

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Blaenraglen Waith arfaethedig yn Atodiad A yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2021, a rhai mân welliannau yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf, 21 Medi 2021 a 9 Rhagfyr 2021.

2. Gwnaed diwygiadau pellach ers hynny i ystyried ceisiadau gan reolwyr oherwydd llwyth gwaith neu ffactorau eraill, i gynnwys y cyfarfod arbennig ychwanegol yn y calendr i ystyried y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol, y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r etholiad ym mis Mai 2022. Amlygir y gwelliannau mewn **print trwm**.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.

# Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Llun 15/11/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2) | | | | | | ~~Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor~~ | | Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3) | ~~Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio (3.4.8.4.4)~~ | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio (3.4.8.4.4)** |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23) (3.4.8.5.3/4) | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Llun 15/11/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)<br>Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | | | | | ~~Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>~~Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~ | ~~Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | **Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4) | Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3) | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | ~~Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6)~~<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |

# Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Llun 15/11/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | ~~Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2)~~ | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2020-21 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2020-21 (3.4.8.13.1) | | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1)<br><br>~~Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 (3.4.8.13.1)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2020-21 (3.4.8.13.1)~~ | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2020-21 (3.4.8.13.1) | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Llun 15/11/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2) | | | | | |
| Perfformiad y Panel (3.4.8.15)[1] | | | | | | | | | |



[1] Bydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth newydd.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(Teitl yr Adroddiad: /Title of Report: )***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>14 & 16 |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.<br><br>The matter concerns the business affairs of the Council. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2021/22***
***Annual Cyber Security Report 2021/22***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

<table>
<tr><td colspan="2">Paragraff(au) Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) Schedule 12A Local Government Act 1972<br><br>14: Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).<br>18: Information relating to any action taken or to be taken in connection with the prevention, investigation or prosecution of crime.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y PRAWF – THE TEST</td></tr>
<tr><td>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Information relating to the effectiveness of the Council's cyber security arrangements indirectly relates to the security of the public's personal and confidential data. There is a public interest in access to the information as the public may be considered to be stakeholders in the Council's cyber security.</td><td>Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu'r Cyngor a gymerwyd mewn cysylltiad ag atal troseddu.<br><br>Placing information about the Council's cyber security arrangements into the public domain would be likely to increase the risk to the security of the Council's network and the integrity of its data. The information could be exploited by criminals and other parties who seek to undermine the Council's security measures. The likelihood of harm to the business affairs of the Council, arising from disclosure is high resulting in prejudice to the commercial and financial interests of the Council. The public interest in ensuring the security of data holdings is strong.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</td></tr>
</table>

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 18 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank